



**S4C**

**Adroddiad Blynyddol  
a Datganiad Ariannol**  
ar gyfer y cyfnod 12 mis  
hyd at 31 Mawrth 2020

**Annual Report and  
Statement of Accounts**  
for the 12 month period  
to 31 March 2020

**S4C**

**Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol ar gyfer y cyfnod 12 mis hyd at 31 Mawrth 2020**  
Annual Report and Statement of Accounts for the 12 month period to 31 March 2020

The logo for S4C, consisting of the letters 'S4C' in a bold, white, sans-serif font, centered within a black trapezoidal shape that tapers to the right.

**Adroddiad Blynyddol a  
Datganiad Ariannol S4C ar  
gyfer y cyfnod 12 mis hyd  
at 31 Mawrth 2020**

Cyflwynir i'r Senedd yn sgîl  
paragraffau 13(1) a 13(2) i  
atodlen 6 Deddf Darlledu 1990.

Gosodir gebron Senedd Cymru yn  
unol â phenderfyniad gan y Senedd  
o dan Reol Sefydlog 15.1(v).

HC 833

Gorchynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin  
i'w argraffu ar 23 Medi 2020.

**S4C Annual Report and  
Statement of Accounts for  
the 12 month period to  
31 March 2020**

Presented to Parliament pursuant  
to paragraphs 13(1) and 13(2) of  
schedule 6 to the Broadcasting  
Act 1990.

Laid before the Welsh Parliament  
in accordance with a resolution  
of the Parliament under Standing  
Order 15.1(v).

HC 833

Ordered by the House of Commons  
to be printed on 23 September 2020.



Mae S4C yn darparu cynnwys a gwasanaethau cyfryngol yn yr iaith Gymraeg sydd o safon uchel, sy'n cynnig adloniant, gwybodaeth ac sy'n ysbrydoli, ac sy'n anelu i gyrraedd cymaint o bobl â phosibl ar y llwyfannau cyfoes mwyaf priodol.

S4C provides high quality content and media services in the Welsh language, offering entertainment, information and inspiration, and which aim to reach the widest audience possible across a range of contemporary platforms.

## Cynnwys Contents

4	S4C a'r iaith Gymraeg	4	S4C and the Welsh language
6	Y prif ffeithiau	6	Key facts
8	Cyflwyniad y Cadeirydd Dros Dro	8	Interim Chair's Introduction
12	Cyflwyniad y Cadeirydd Newydd	12	Incoming Chair's Introduction
16	Cyflwyniad y Prif Weithredwr	16	Chief Executive's Introduction
22	Sut berfformiodd S4C yn 2019/20	22	How S4C performed in 2019/20
46	<b>Mesur Perfformiad S4C:</b>	46	<b>Measuring S4C's Performance:</b>
48	Defnydd a Chyrhaeddiad	48	Usage and Reach
58	Gwerthfawrogiad	58	Appreciation
66	Effaith	66	Impact
76	Gwerth am Arian	76	Value for Money
86	Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru	86	S4C's Investment in Content from companies across Wales
94	Gwasanaethau Cymorth i'n Cynulleidfa	94	Support Services for our Audience
95	S4C yn gwrando ar ein gwylwyr	95	S4C listening to our viewers
96	Gweithgareddau S4C ledled Cymru	96	S4C's activities across Wales
99	Partneriaeth S4C gyda'r BBC	99	S4C's partnership with the BBC
100	Ystâd S4C	100	The S4C Estate
101	Gweithgareddau Masnachol S4C	101	S4C's Commercial Activities
102	Adolygiad S4C	102	Independent Review of S4C
105	Adroddiad Llywodraethiant	105	Governance Report
120	Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, a Materion Cyffredinol	120	Report of the Chairman of the Audit, Risk Management and General Purpose Committee
124	Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C	124	S4C's Employment Policy Report
	<b>Datganiad Ariannol</b>		<b>Statement of Accounts</b>
128	Adroddiad y Bwrdd	128	Report of the Board
130	Oriau a ddarledwyd a chyfartaledd cost yr awr	130	Hours transmitted and average cost per hour
132	Datganiad o Gyfrifoldebau	132	Statement of Responsibilities
134	Tystysgrif ac adroddiad y rheolwr ac archwilydd cyffredinol i fwrdd sianel pedwar cymru (s4c) sy'n cydnabod bod dau dŷ'r senedd hwythau'n dibynnu ar adroddiad a chyfrifon blynyddol s4c	134	The Certificate and Report of the Comptroller and Auditor General to the Board of Sianel Pedwar Cymru (S4C) acknowledging that the Houses of Parliament also places reliance on the S4C Annual Report and Accounts
138	Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr	138	Consolidated Statement of Comprehensive Income
140	Mantolen Gyfun	140	Consolidated Balance Sheet
142	Mantolen S4C	142	S4C Balance Sheet
144	Datganiad Cyfun o Newidiadau Mewn Ecwiti	144	Consolidated Statement of Changes in Equity
146	Datganiad Llif Arian Cyfun	146	Consolidated Cash Flow Statement
148	Nodiadau i'r Cyfrifon	148	Notes to the Accounts

## © S4C 2020

Caniateir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng yn amodol ar gywirdeb yr atgynhyrchu ac nad yw'n cael ei wneud mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod hawlfraint S4C a nodi teitl y ddogfen.

Gellir lawrlwytho'r ddogfen hon o [s4c.cymru](http://s4c.cymru)

## © S4C 2020

The text of this document may be reproduced free of charge in any format or medium providing that it is done so accurately and not in a misleading context.

The material must be acknowledged as S4C copyright and the document title specified.

This document is available for download from [s4c.cymru](http://s4c.cymru)



Mae cysylltiad  
cynhenid rhwng y  
Gymraeg ac S4C.  
The Welsh language  
and S4C are  
intrinsically linked.

## S4C a'r iaith Gymraeg S4C and the Welsh language

Mae S4C yn chwarae rhan allweddol wrth adlewyrchu diwylliant a chymdeithas Cymru a hyrwyddo'r Gymraeg - un o drysorau Cymru a'r DU.

Mae gan S4C rôl bwysig hefyd o ran sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei throsglwyddo a galluogi cynulleidfaoedd i glywed a mwynhau cynnwys gwasanaeth cyhoeddus o ansawdd uchel ar draws pob genre yn yr iaith. Nid oes unrhyw lwyfan arall yn cynnig ystod ac ehangder cynnwys fel S4C. Mae 19% o boblogaeth Cymru a 40% o blant rhwng 5-15 oed yn siarad Cymraeg.

Mae S4C wedi parhau i ddatblygu'r bartneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru a argymhellwyd yn adolygiad annibynnol 2018, er mwyn cynorthwyo i gyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae cefnogi dysgwyr, plant ac addysg yn themâu allweddol yn y bartneriaeth hon. Mae S4C yn gweithio'n agos gyda sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r nodau hyn - drwy Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg y Llywodraeth ac yn uniongyrchol gyda phartneriaid fel y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Y Coleg Cymraeg, y Mentrau Iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Yn ystod y flwyddyn, mae S4C wedi datblygu ei phartneriaethau gyda Chyngor Llyfrau Cymru a Cymraeg i Blant. Mae hyn wedi arwain at synergeddau rhwng cyhoeddwyr a llyfrau Cymru â chynnwys ac amserlennu S4C, a chefnogaeth i rieni a gofalwyr plant ifanc.

S4C plays a key role in reflecting Welsh culture and society and promoting the Welsh language - one of the treasures of Wales and the UK.

S4C also has an important role in ensuring the transmission of Welsh and enabling audiences to hear and enjoy high-quality public service content across all genres in the language. No other platform offers the range and breadth of content as S4C. 19% of the population of Wales and 40% of children between 5-15 years old speak Welsh.

S4C has continued to develop the language partnership with the Welsh Government and as others recommended in the 2018 independent review, to help deliver the Welsh Government's commitment to reach 1 million Welsh language speakers by 2050.

Supporting learners, children and education are key themes of this partnership. S4C works closely with organisations funded by the Welsh Government to deliver these aims - both through the Government's Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg (Welsh Promotion Group) and directly with partners such as the National Centre for Learning Welsh, Mudiad Meithrin (national provider of Welsh-medium early years care and education), Urdd Gobaith Cymru (national organisation providing opportunities for children and young people through the medium of Welsh), Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, the Mentrau Iaith (organisations supporting and promoting the Welsh language across Wales) and the National Eisteddfod.

During the year, S4C has developed its partnerships with the Wales Book Council and Cymraeg i Blant. This has led to synergies between Welsh publishers and books with S4C content and scheduling, and support for parents and carers of young children.



**28.3m**

Nifer y sesiynau gwyllo ar draws holl gyfrifon Facebook S4C  
**Number of viewing sessions across all S4C Facebook accounts**

**7.4m**

Nifer y sesiynau gwyllo ar draws holl sianeli YouTube S4C  
**Number of viewing sessions across all S4C YouTube channels**



**306,000**

o bobl yng Nghymru wedi gwyllo S4C ar deledu bob wythnos (2018/19: 314,000)  
**people in Wales watched S4C on TV each week (2018/19: 314,000)**

**18,600**

oedd cynulleidfa S4C ar gyfartaledd yn yr oriau brig (2018/19: 17,100)  
**was the average audience in the peak hours (2018/19: 17,100)**

**8.9m**

Nifer y sesiynau gwyllo ar gyfrifon Hansh (ar draws Facebook, Twitter a YouTube)  
**Number of viewing sessions across all Hansh accounts (across Facebook, Twitter and YouTube)**



**5.8m**

Nifer y sesiynau gwyllo ar gyfrifon Heno a Prynawn Da (ar draws Facebook, Twitter a YouTube)  
**Number of viewing sessions on Heno and Prynawn Da accounts (across Facebook, Twitter and YouTube)**

**11.5m**

o bobl wylodd S4C drwy'r DU ar ryw adeg yn 2019/20 (2018/19: 10.1 miliwn)  
**individuals watched S4C throughout the UK at some time during 2019/20 (2018/19: 10.1 million)**



**11.0m**

Nifer y sesiynau gwyllo ar gyfrifon Sgorio (ar draws Facebook, Twitter a YouTube)  
**Number of viewing sessions across Sgorio accounts (across Facebook, Twitter and YouTube)**

**702,000**

o bobl wedi gwyllo S4C ar deledu bob wythnos drwy'r DU (2018/19: 665,000)  
**people watched S4C on TV every week throughout the UK (2018/19: 665,000)**



**106,985**

o gofrestrwyr Clic erbyn diwedd 2019/20 (o gymharu â 805 erbyn diwedd 2018/19)  
**Clic registrations by the end of 2019/20 (compared with 805 at the end of 2018/19)**


**477,000**

Nifer cyfartalog o weithiau bob dydd y gwelwyd cynnwys S4C (Facebook, Twitter ac Instagram)  
**Average number of times S4C's content viewed each day**



**99%**

yn teimlo fod S4C yn berthnasol i hunaniaeth Cymru a'i phobl  
**feel that S4C is relevant to the identity of Wales and its people**



# Hugh Hesketh Evans

Cyflwyniad y Cadeirydd Dros Dro

Interim Chair's Introduction



Roedd hi'n ffrind gallu derbyn cais i gamu i'r adwy fel Cadeirydd Dros Dro ym mis Hydref 2019, wedi ymadawiad Huw Jones ar ôl dau dymor yng Nghadair S4C. Bu fy nghyfnod fel Cadeirydd dros dro yn un diddorol, yn enwedig wrth i bandemig Covid-19 ymddangos tua diwedd y flwyddyn ariannol.

It was a great privilege to have been asked to step in as Interim Chair in October 2019 following the departure of Huw Jones after two terms as S4C Chair. My period as interim Chair has certainly been an interesting one especially with the emergence of the Covid-19 pandemic towards the end of the financial year.

“

Parhau gwnaethom i fuddsoddi a chomisiynu ein cynnwys trawslwyfannol oddi wrth cwmnïau cynhyrchu o bob cwr o Gymru yn ystod 2019/20. Mae cwmnïau cadwyn cynhyrchu S4C yn chwarae rhan fawr yn eu heconomiâu lleol a'r tu hwnt i'w dalgylchoedd. We continued to invest and commission our cross-platform content from production companies across Wales during 2019/20. S4C's supply chain companies play a major role in their local economies and beyond their catchment area.

Cyn gynted ag y daeth hi'n amlwg y byddai'n debygol y byddai angen i'r Deyrnas Unedig fynd dan glo, gwnaed cynlluniau i sicrhau y gallai gwasanaethau a chynnwys S4C barhau i addysgu a diddanu'r gynulleidfa, ond hefyd ei chefnogi. Roedd sicrhau y gallai darlledu barhau yn flaenoriaeth allweddol, ac roeddem ni'n ffodus fod staff eisoes yn gyfarwydd â gweithio ar-lein a gweithio hyblyg ar draws pob un o'n tri lleoliad. Rwy'n arbennig o ddiolchgar i'r staff hynny a barhaodd i weithio'n ddiogel o hwb teledu S4C ym Mharc Tŷ Glas, gan sicrhau bod S4C yn gallu darlledu yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Ym mis Hydref 2019, bu i ni ddathlu ein blwyddyn gyntaf yng Nghanolfan S4C Yr Egin. Bu'n wych gweld cynifer o staff newydd sy'n byw yn lleol yn ymuno â'n sefydliad ac yn achub ar y cyfle i ddatblygu'u gyrfaoedd yn y cyfryngau yng ngorllewin Cymru. Pleser hefyd oedd lansio ein cynllun prentisiaeth, wrth i dri phrentis ddechrau yn y pencadlys yng Nghaerfyrddin. Ar adeg o newid mawr yn S4C dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r pencadlys yn symud i Gaerfyrddin, a pharatoadau'n digwydd ar gyfer cyd-leoli gwasanaethau darlledu technegol S4C gyda rhai BBC Cymru yn y Sgwâr Canolog, Caerdydd, mae presenoldeb pwysig S4C yng ngogledd Cymru'n parhau. Bu i ni ymestyn y brydles ar Ddoc Victoria yng Nghaernarfon am 10 mlynedd

ychwanegol yn ôl yn 2018, ble mae swyddfa sy'n gartref i 12 aelod o staff a llawer mwy sy'n defnyddio'r lleoliad yn rheolaidd i gwrdd â chynhyrchwyr annibynnol lleol yn yr ardal.

Yn ystod y flwyddyn, bu i ni barhau i symud ein strategaeth fasnachol newydd, a fabwysiadwyd yn 2018, yn ei blaen. Mae ein hadran fasnachol, S4C Masnachol,

As soon as it became apparent the UK might have to enter lockdown, plans were put in place to ensure that S4C's services and content could continue to inform and entertain the audience but also to support them. Ensuring that broadcasting could continue was a key priority and we were fortunate that staff were already accustomed to online and flexible working across our three locations. I am particularly grateful to those staff who have continued to work safely from S4C's Parc Tŷ Glas transmission hub ensuring that S4C can broadcast during these difficult times.

In October 2019, we celebrated our first year in Canolfan S4C Yr Egin. It's been fantastic to see so many new staff who live locally join our organisation and take the opportunity to develop their careers in the media in west Wales. It was also pleasing to launch our apprenticeship scheme with three apprentices starting in the Carmarthen headquarters. At a time of great change at S4C over recent years with the headquarters moving to Carmarthen and preparations for co-locating S4C's technical broadcast services with those of BBC Cymru in Central Square, Cardiff, S4C's important presence in north Wales continues. We extended the lease at Victoria Dock in Caernarfon for a further 10 year back in 2018, with the office home to 12 members of staff and many others who use it on a regular basis to meet with local independent producers in the area.

During the year we continued to progress our new commercial strategy adopted in 2018. Our commercial division S4C Masnachol is responsible for a variety of commercial activities and investments that are designed to create an additional sustainable income stream for S4C's public service. These activities include the sales of airtime advertising and sponsorship on S4C's services, licensing merchandise for brands such as Cyw, contracting distribution agreements for our back catalogue of programmes and investing in a balanced investment portfolio. Although a small percentage of S4C's total income, these activities contribute an average of approximately £1m per year to our public

“

**Edrychwn ymlaen at ddenu aelodau anweithredol newydd i'n bwrdd Unedol, gydag ymgyrch recriwtio'n dechrau hydref 2020 gobeithio. Mae'n hanfodol fod y Bwrdd yn cynrychioli ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth cynulleidfaedd yng Nghymru ac ar draws y DU, ac felly ein gobaith yw denu grŵp o ymgeiswyr cryf ac amrywiol o ystod o gefndiroedd. We look forward to attracting new non-executive members to our Unitary Board, with a recruitment campaign hopefully starting during autumn 2020. It is crucial that the Board represents and reflects the diversity of audiences in Wales and across the UK and we therefore hope to attract a strong, diverse group of applicants from a range of backgrounds.**

yn gyfrifol am amryw weithgareddau masnachol a buddsoddiadau a gynlluniwyd er mwyn creu llif incwm cynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C. Ymysg y gweithgareddau hyn mae gwerthu amser darlledu hysbysebion a hyrwyddo ar wasanaethau S4C, trwyddedu deunyddiau masnach ar gyfer brandiau fel Cyw, cytundebau dosbarthu ar gyfer ein hól-restr o raglenni a buddsoddi mewn portffolio o fuddsoddiadau cytbwys. Er mai canran fechan o gyfanswm incwm S4C yw hyn, mae'r weithgareddau'n cyfrannu tua £1m y flwyddyn ar gyfartaledd i'n cronfa gwasanaeth cyhoeddus. Dyma gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai'n bosib fel arall. Er i ni barhau i ddarlledu o ystâd Parc Tŷ Glas, cwblhawyd gwerthiant y safle i S4C PTG Cyf yn ystod y flwyddyn, a gwnaed cynnydd sylweddol i ailddatblygu a gosod swyddfeydd ac unedau i ystod o denantiaid, gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Ochr yn ochr ag argraff ddiwylliannol S4C, mae S4C yn creu effaith economaidd sylweddol ar economi Cymru. Bu i ni barhau i fuddsoddi a chomisiynu ein cynnwys traws-lywyfannol gan gwmnïau cynhyrchu o bob cwr o Gymru yn ystod 2019/20. Mae cwmnïau cadwyn gynhyrchu S4C yn chwarae rhan fawr yn eu heconomiâu lleol a'r tu hwnt i'w dalgyloedd wrth i gynrychiadau deithio o gwmpas y wlad i ffilmio cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru. O ystyried darpar effaith cyfnod cloi Covid-19 felly ar y sector yng Nghymru, gweithiodd S4C, fel yr unig ddarlledwr Cymraeg cenedlaethol ar fyrdar a law yn llaw â chorff y diwydiant TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) a phartneriaid eraill i ddatblygu cynlluniau a fyddai'n lleihau hynny. Er enghraifft, gweithredodd S4C ar ddechrau mis Ebrill 2020 gyda phecyn oedd yn werth £6m i gefnogi'r sector gynhyrchu yng Nghymru, er mwyn sicrhau cynnwys ar gyfer ein cynulleidfaedd. Rydym ni'n gwerthfawrogi cefnogaeth barhaus y sector deledu yng Nghymru, sector a chanddi gryfderau amlwg ac arweinyddiaeth gref.

Bu i ni barhau i weithio'n agos â Llywodraeth y DU a Chymru ar ystod o faterion, a buom yn cyfrannu at amryw ymgyngoriad, fel yr un ar ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Yn ystod y flwyddyn, aeth trafodaethau yn eu blaenau gyda CThEM a Llywodraeth y DU o ran newidiadau i statws treth S4C a goblygiadau ariannol anfwriadol penderfyniad o'r fath. Roeddem wrth ein bodd pan gyhoeddodd y Canghellor ar 9 Mawrth 2020 y bydd Llywodraeth y DU yn cysoni trefniadau TAW S4C gyda darlledwyr ar draws y DU, fel y BBC, ac y bydd modd i S4C adfer y TAW y mae'n talu ar gostau o fis Ebrill 2021. Edrychwn ymlaen at ffurfioli'r newid hwn yn ystod Bil Cyllid Hydref 2020. Fel Bwrdd Unedol, rydym wedi parhau i roi nifer o argymhellion yr adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 ar waith, yn ymwneud â strwythur a llywodraethiant S4C. Mae hyn yn cynnwys penodi Rheolwr ac Archwiliwr Cyffredinol yn archwilydd allanol dros S4C yn ystod y flwyddyn, a bu cynnydd calonogol mewn trafodaethau gyda'r Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon ynglŷn â gwneud newidiadau mewn deddfwriaeth sylfaenol er mwyn cyflawni argymhellion yr Adolygiad.

service fund. This is an important financial contribution which enables S4C to invest in content and services that would otherwise not be possible. While we continued to broadcast from the Parc Tŷ Glas estate, the sale of the site to S4C PTG Cyf was completed during the year and significant progress made to redevelop and let offices and units to a range of tenants including the Royal Welsh College of Music & Drama.

Alongside S4C's cultural impact, S4C has a significant economic impact on the Welsh economy. We continued to invest and commission our cross-platform content from production companies across Wales during 2019/20. S4C's supply chain companies play a major role in their local economies and beyond their catchment area as productions travel the country to film content that reflects Wales. Given the potential impact therefore of the Covid-19 lockdown on the sector in Wales, S4C as the only national Welsh language broadcaster worked rapidly and closely with the industry body TAC (Teledwyr Annibynnol Cymru) and other partners to develop plans that would mitigate this. For example, S4C took action at the start of April 2020 with a package worth £6m to support the production sector in Wales whilst ensuring content for our audiences. We appreciate the continued support of the Welsh television sector, a sector that has clear strengths and strong leadership.

We continued to work closely with the UK and Welsh Government on a range of issues and contributed to various consultations such as the future of public service broadcasting. During the year, discussions continued with HMRC and the UK Government regarding changes to S4C's VAT status and the unintended financial consequences of such a decision. We were delighted that the Chancellor announced on 9 March 2020 that the UK Government will bring S4C's VAT arrangements in line with UK wide broadcasters such as the BBC, and that S4C will be able to recover the VAT it pays on its costs from April 2021. We look forward to this change being formalised via the 2020 Autumn Finance Bill. As a Unitary Board we have continued to implement a number of the recommendations of the independent review of S4C published in March 2018 relating to the structure and governance of S4C. This includes the appointment of the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditor during the year, and discussions have progressed well with DCMS about making changes in primary legislation to deliver on the recommendations of the Review.

I would like to thank my fellow Unitary Board members for their support during my tenure as interim Chair and wish Rhodri Williams every success as he begins his term. I would also like to thank Owen Evans for his leadership over the last year and the whole S4C staff. Their enthusiasm, dedication and hard work have been an important part of the reason why it has been a pleasure as well as an honour for me to hold the reins for a short time. We also appreciate the continued support of ministers and politicians, from every party, and within two Parliaments.

During the year we said goodbye to a number of the S4C family including our Chair Huw Jones. When Huw Jones took up the role as Chair in 2011, S4C was at a key turning point in its history. With the energy, enthusiasm and attention to detail that is characteristic of Huw, he succeeded in restoring order and a sense of certainty at S4C. While there is much work to be done as we enter a new chapter, without Huw's work, S4C would be a very different, and much poorer institution today. On behalf of the Unitary Board I would like to thank Huw Jones for his tireless work as S4C Chair over the past eight years. I would also like to thank those staff who left us during

“

**Wrth edrych i'r dyfodol at 2022 a thu hwnt, rydym wedi dechrau ar y broses o ystyried ein pwrpas a'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol fel yr unig ddarlledwr Cymraeg cenedlaethol. Looking ahead to 2022 and beyond, we have begun the process of considering our purpose and future direction as the only national Welsh language broadcaster.**

Hoffwn ddiolch i'm cyd-aelodau ar y Bwrdd Unedol am eu cefnogaeth yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd dros-dro, a dymunaf bob llwyddiant i Rhodri Williams wrth iddo ddechrau ar ei dymor yntau. Hoffwn ddiolch yn ogystal i Owen Evans am ei arweinyddiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf, ac i holl staff S4C. Bu'u brwdfrydedd, eu hymroddiad a'u gwaith caled yn rhan bwysig o'r rheswm pam y bu'n bleser, yn ogystal ag anrhydedd i mi ddal yr awenau am gyfnod byr. Gwerthfawrogn yn ogystal gefnogaeth barhaus gweinidogion a gwleidyddion o bob plaid, ac ar draws y ddwy Senedd.

Yn ystod y flwyddyn, wnaethom ffarfelio â nifer o deulu S4C, gan gynnwys ein Cadeirydd Huw Jones. Pan ddechreuodd Huw Jones ei swydd fel Cadeirydd yn 2011, roedd S4C ar groesffordd allweddol yn ei hanes. Gyda'r egni, y brwdfrydedd a'r sylw i fanylion sy'n nodweddu Huw, llwyddodd i adfer trefn ac ymdeimlad o sicrwydd yn S4C. Er bod llawer iawn o waith eto i'w wneud wrth i ni symud i bennod newydd, oni bai am waith Huw, byddai S4C yn sefydliad gwahanol iawn, a llawer tlotach, heddiw. Ar ran y Bwrdd Unedol hoffwn ddiolch i Huw Jones am ei waith diflino fel Cadeirydd S4C dros yr wyth mlynedd ddiwethaf. Hoffwn hefyd ddiolch i'r staff hynny a'n gadawodd yn ystod y flwyddyn, am eu hymrwymiad i'r sianel dros y blynyddoedd.

Edrychwn ymlaen at gydweithio gyda'r Adran Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon dros y flwyddyn i ddod er mwyn denu aelodau anweithredol newydd i'n Bwrdd Unedol, gan weld ymgyrch recriwtio'n dechrau'n ddiweddarach yn 2020 gobeithio. Mae'n hanfodol fod y Bwrdd yn cynrychioli ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth cynulleidfaol yng Nghymru ac ar draws y DU, ac felly ein gobaith yw denu grŵp o ymgeiswyr cryf ac amrywiol o ystod o gefndiroedd. Parhaodd ein ffocws yn ystod 2019/20 ar wella'r ffordd rydym yn portreadu a chynrychioli ein gwahanol gymunedau, ar draws ein gwasanaethau ac o fewn y sector. Am y tro cyntaf, cynhaliwyd arolwg o'r sector gynhyrchu ar amrywiaeth ymhlith eu staff, ac ar y cyd â TAC, darparwyd hyfforddiant ar gyfer y sector gynhyrchu yng Nghymru gan weithio gyda phartneriaid gan gynnwys Mind a Hi-Jinx. Rydym ni'n gweithio gyda Screen Alliance Wales i gyrraedd at blant a phobl ifanc sy'n dod o grwpiau a dangynrychiolir, ac mae rhaglenni plant S4C a'r brand ar-lein Hansh yn adlewyrchu amrywiaeth naturiol poblogaeth Cymru dan 34 oed. Edrychwn ymlaen at weld cynnydd pellach dros y flwyddyn i ddod.

Wrth edrych i'r dyfodol at 2022 a thu hwnt, rydym wedi dechrau ar y broses o ystyried ein pwrpas a'n cyfeiriad ar gyfer y dyfodol fel yr unig ddarlledwr Cymraeg cenedlaethol. Mae technoleg, cymdeithas ac iaith yn parhau i esblygu ar ras. Ein cyfrifoldeb, bron i 40 mlynedd ers sefydlu S4C, yw deall yr hyn sy'n digwydd nawr, a'r hyn sy'n dod nesaf. Rhaid i'n taith o fod yn sianel deledu linol yn unig i fod yn gomisiynydd, yn gasglwr ac yn guradur cynnwys ar draws llwyfannau lluosog barhau, a'n cyfrifoldeb ni yw ailddychmygu ac ailddyfeisio'n barhaus. Fel y dywedodd Canghellor y Trysorlys y DU ym mis Mawrth 2020, "Mae S4C wedi dod yn rhan hanfodol o wead diwylliannol Cymru." Ein her ni yw bod yn berthnasol i'r cyfnod yr ydym ni'n byw ynddo, a helpu i feithrin yr iaith a gredwn ynddi, er budd heddiw, ac efallai'n fwy pwysig, er lles yfory.

the year for their commitment to the channel over the years.

We look forward to working with DCMS over the coming year to attract new non-executive members to our Unitary Board, with a recruitment campaign hopefully starting later in 2020. It is crucial that the Board represents and reflects the diversity of audiences in Wales and across the UK and we therefore hope to attract a strong, diverse group of applicants from a range of backgrounds. Improving the portrayal and representation of our different communities across our services and within the sector continued to be a focus during 2019/20. For the first time we surveyed the production sector on the diversity of its staff, and with TAC delivered training for the production sector in Wales working with partners including Mind and HiJinx. We are working with Screen Alliance Wales to reach children and young people from under-represented groups and S4C's children's programmes and the online brand Hansh reflect the natural diversity of Wales' population under 34. We look forward to further progress over the coming year.

Looking ahead to 2022 and beyond, we have begun the process of considering our purpose and future direction as the only national Welsh language broadcaster. Technology, society and language continue to rapidly evolve. Our responsibility, almost 40 years since the formation of S4C, is to understand what's happening now, and what's coming next. Our journey from a single linear TV channel to a multi-platform content commissioner, collector and curator must continue and our responsibility is to constantly reimagine and reinvent. As the UK's Chancellor of the Exchequer said in March 2020 "S4C has become an integral part of the fabric of Welsh culture." Our challenge is to be relevant to the times that we live in, and help nurture the language we believe in, for today, and perhaps more importantly, for tomorrow.

# Rhodri Williams

Cyflwyniad y Cadeirydd Newydd

Incoming Chair's Introduction



Ers dechrau'r 1980au, rwyf wedi bod yn ymwneud mewn rhyw fodd neu'i gilydd ag S4C. Yn y dyddiau cynnar yna, ymunais ag eraill yn yr ymgyrch i sefydlu S4C, ac rwyf wedi credu erioed yng ngrym creu cynnwys deniadol er mwyn hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg.

Since the early 1980s I've been involved in one way or another with S4C. In those early days, I joined others in the campaign to establish S4C and have always believed in the power of creating compelling content in order to promote and facilitate the use of the Welsh language.

“

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n glir fod angen i'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei chyfanwydd gyrraedd cynulleidfaoedd ymhle bynnag y maent nawr, a darparu ar gyfer gwylwyr o bob oedran os yw'n mynd i barhau i fod yn berthnasol. Looking ahead, it is clear that the Public Service Broadcast system as a whole must reach audiences wherever they are now and provide for viewers of all ages if it is to remain relevant.

Yn wir, dechreuais fy ngyrfa fel newyddiadurwr gydag ITV yng Nghymru yn 1982, gan weithio ar gyfres materion cyfoes blaenllaw S4C, Y Byd ar Bedwar, ac yna, rai blynyddoedd yn ddiweddarach, fi oedd golygydd cychwynnol rhaglen gylchgrawn nosweithiol S4C, Heno, sy'n parhau i fod wrth galon amserlen S4C.

Braint o'r mwyaf felly yw cael fy mhenodi'n Gadeirydd S4C ar gyfer y pedair blynedd nesaf, a hoffwn ddiolch i Hugh Hesketh Evans am ei arweinyddiaeth sicr ac effeithiol fel Cadeirydd dros dro ers mis Hydref 2019.

Ers i mi gael fy mhenodi tua diwedd mis Mawrth 2020, ein blaenoriaeth bennaf fu sicrhau ein bod ni'n ymateb fel sefydliad Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus i Covid-19, a gwasanaethu ein cynulleidfaoedd drwy ddarparu gwybodaeth ac adloniant ar draws sawl llwyfan. Canolbwyntiodd S4C ar adlewyrchu gwirionedd bywyd pobl yn ystod y cyfnod heriol hwn, a darparu gwybodaeth, cysur a chwmpeni i bobl yng Nghymru a ledled y Deyrnas Unedig. Atgyfnerthwyd gwerth cyfryngau sy'n gwasanaethu'r cyhoedd, a'i rôl allweddol mewn cymdeithas, yn ystod cyfnod clo presennol Covid-19, ac rwy'n ymfalchïo yn y modd yr ymatebodd S4C.

Serch hynny, mewn oes pan fo technoleg, cymdeithas ac iaith yn parhau i esblygu'n gyflym, nid nawr yw'r amser i orffwys ar ein rhwyfau. Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n glir fod angen i'r system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn ei chyfanwydd gyrraedd cynulleidfaoedd ymhle bynnag y maent nawr, a darparu ar gyfer gwylwyr o bob oedran os yw'n mynd i barhau i fod yn berthnasol. Bydd hyn yn galw am arloesi masnachol a thechnolegol gan Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus. Rhaid i'n model busnes barhau i addasu ac esblygu

Indeed, I began my career as a journalist with ITV in Wales in 1982, working on S4C's flagship current affairs series Y Byd ar Bedwar, and some years later was the founding editor of S4C's nightly magazine programme Heno, which remains at the heart of S4C's schedule.

It is therefore a great honour to be appointed Chair of S4C for the next four years and I'd like to thank Hugh Hesketh Evans for his effective and calm leadership as interim Chair since October 2019.

Since my appointment at the end of March 2020, our immediate priority has been to ensure we respond as a Public Service Media organisation to Covid-19 and serve our audiences with information and entertainment across a variety of platforms. S4C's focus has been on reflecting the reality of people's lives during this challenging period and providing information, comfort and company to people in Wales and across the United Kingdom. The value of public service media and the vital role it plays in society has been reinforced during the current Covid-19 lockdown and I'm proud of the way S4C has responded.

However, in an age where technology, society and language continue to rapidly evolve, this is not the time for us to rest on our laurels. Looking ahead, it is clear that the Public Service Broadcast (PSB) system as a whole must reach audiences wherever they now are and provide for viewers of all ages if it is to remain relevant. This will require commercial and technological innovation from PSBs. Our business model must continue to adapt and evolve over the coming years to fit the needs of the consumer rather than expect the consumer to adapt to meet the needs of S4C.

From 2022, S4C's public funding will be provided entirely through the licence fee. In the lead up to that milestone, we have begun the process of considering our purpose as a Public Service Media organisation and asking the questions as to what services we should deliver in future, to whom and how. Our starting point is to consider what would S4C look like if it were being set



“

Rydym wedi dechrau ar y gwaith o ystyried ein pwrpas fel sefydliad Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, a holi cwestiynau o ran y gwasanaethau y dylem fod yn eu darparu yn y dyfodol, i bwy a sut.

**We have begun the process of considering our purpose as a Public Service Media organisation and asking the questions as to what services we should deliver in future, to whom and how.**

dros y blynyddoedd i ddod, i gyd-fynd ag anghenion y defnyddiwr yn hytrach na disgwyl i'r defnyddiwr addasu i fodloni anghenion S4C.

O 2022, bydd holl arian cyhoeddus S4C yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng ffi'r drwydded. Yn y cyfnod sy'n arwain at y garreg filltir honno, rydym wedi dechrau ar y gwaith o ystyried ein pwrpas fel sefydliad Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, a holi cwestiynau o ran y gwasanaethau y dylem fod yn eu darparu yn y dyfodol, i bwy a sut. Ein man cychwyn yw ystyried sut olwg fyddai ar S4C pe bai'n cael ei sefydlu o'r dechrau'n deg heddiw, ac yna ail-ddylunio ac ail-ddychmygu gwasanaeth sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn gynyddol bwysig ar adeg pan fo adnoddau'n cael eu taenu'n denau. Rhaid i ni barhau i dargedu ein hadnoddau yn y ffordd fwyaf effeithiol er mwyn darparu cynnwys sy'n cymhell ein gwylwyr i wyllo.

Rhan allweddol o'r gwaith hwn yw deall yn well beth yw anghenion ein cynulleidfa a dod yn sefydliad sydd wedi'i ganolbwyntio'n fwy o gwmpas y cwsmer. Mae angen cydweddu'n well rhwng yr hyn y mae'r

gynulleidfa'n dymuno'i gael a'r hyn a ddarperir gennym ni. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen i ni estyn at bobl ac ymgynghori â nhw dros y misoedd a'r blynyddoedd a ddaw. Bydd hyn yn galw am ffyrdd gwahanol o ymgysylltu, er mwyn i ni gyrraedd nid yn unig ein cynulleidfa bresennol, ond hefyd y rhai nad ydynt ar hyn o bryd yn defnyddio ein gwasanaethau. Mae'r iaith Gymraeg yn eiddo i bawb yng Nghymru a thu hwnt, ond ein hamcan, yn anad dim, yw darparu cynnwys ar gyfer pawb yng Nghymru. Yn ogystal â'r gynulleidfa, mae angen i ni ymgysylltu â phartneriaid allweddol a'r sector ledled Cymru, a chydweithio'n agos â nhw.


Dyma adeg gyffrous dros ben i S4C, a chyfle i barhau i symud oddi wrth y sianel linol a grëwyd bron i 40 mlynedd yn ôl, at wasanaeth sy'n comisiynu ac yn dosbarthu cynnwys sy'n cymhell gwylwyr i wyllo ar draws ystod eang o lwyfannau. Edrychaf ymlaen at weithio'n agos gyda'r Bwrdd Unedol, y staff a'r rhanddeiliaid, wrth i ni ddechrau ar y bennod nesaf ar daith S4C.

up from scratch today and to redesign and reimagine a service fit for the future. This is increasingly important at a time when resources are stretched. We must continue to target our resources in the most effective way in order to provide compelling content to our audience.

A key part of this work is to better understand the needs of our audience and to become a more customer centric organisation. There needs to be a better match between what the audience want and what we provide. To achieve this, we will need to reach out and actively consult and listen to people over the coming months and years. This will require different forms of engagement so that we not only reach our current audience, but also those who currently don't use our services. The Welsh language belongs to everyone in Wales and beyond but our aim, first and foremost, is to provide content for everyone in Wales. As well as the audience, we will need to engage and work closely with key partners and the sector across Wales.

This is a very exciting time for S4C and an opportunity to continue the transition from the linear channel created nearly 40 years ago to a service which commissions and distributes compelling content on a wide variety of platforms. I look forward to working closely with the Unitary Board, staff and stakeholders as we embark on the next chapter in S4C's journey.

▼  
Drych: Iwan John -  
Aros am Aren





**Yn ystod 2019/20 cafwyd nifer o gynyrchiadau newydd a thraddodiadol wrth inni barhau ein brwydr am sylw'r gynulleidfa. Ynghyd â hyn bu twf cyson a chyflym ar draws ein platfformau digidol gan ddod i ben drwy gadarnhau pwysigrwydd S4C fel darlledwr cenedlaethol a darparwr cyfryngau i gynulleidfaedd Cymraeg ar draws y byd yn ystod y pandemig Covid-19.**

**2019/20 saw a raft of new and traditional content as we continued our fight for the attention of the audience. This was coupled with sustained and rapid growth across our digital platforms and ended cementing the importance of S4C as a national broadcaster and media provider for Welsh-speaking audiences across the world during the Covid-19 pandemic.**

Roedd y deuddeg mis diwethaf yn flwyddyn gymharol anodd i holl ddarlledwyr y sector cyhoeddus (PSB) wrth i SVoD (Netflix, Amazon ac ati) dyfu o ran buddsoddi a chynulleidfa. Er bod pob PSB arall wedi gweld lleihad mewn oriau darlledu llinol, roedd yn galonogol sylwi bod S4C wedi gweld cynnydd o 7% mewn oriau gwyllo. Gobeithio bod hyn yn adlewyrchu nod S4C i adlewyrchu barn cynulleidfaedd yn ein cynnyrch ac ar draws y platfformau rydym yn darparu drwyddynt. Yn ein strategaeth gyffredinol rydym wedi canolbwyntio'r brif sianel ar ddatblygu cynnig cynhwysfawr i'n cynulleidfa graidd a'n gwylwyr ysgafn tra'n tyfu ein cynulleidfaedd ifancach a mwy amrywiol drwy ein cynnwys digidol. Roeddwn yn falch o'r gwaith a wnaed i ddatblygu ein brand Hansh, a oedd erbyn diwedd y flwyddyn wedi tyfu o ryw 700,000 o ymweliadau'r mis i fwy nag un filiwn. Tyfodd ein platfformau digidol hefyd gan ddosbarthu cynnwys yn gynyddol ar Facebook ac YouTube ac ychwanegu Instagram a TikTok, gan dargedu cynulleidfaedd ifancach.

Yn sgil ymchwilio i'r gynulleidfa a chael ei barn, newidiwyd ein hamserlen ddarlledu: symudodd ein rhaglen newyddion gyda'r nos i 19.30 i ddarparu gwasanaeth yn gynnar yn y nos, a hynny hefyd yn rhyddhau gweddill y noson ar gyfer cynnwys arall. Bu newid hefyd ar nos Sadwrn gyda llai o bwyslais ar chwaraeon byw a mwy o adloniant traddodiadol ar gyfer ein cynulleidfa graidd. Parhaodd ein dramâu i gynyddu ein henw da fel darparwr rhyngwladol o bwys mewn cynnwys wedi'i sgriptio. Cadarnhawyd hyn drwy lansio ein brand 'S4C Originals' yn rhyngwladol, gan ddiffinio ein swyddogaeth fel y grym y tu ôl i ddramâu sy'n gwerthu ar y llwyfan rhyngwladol, megis Un Bore Mercher (Keeping Faith) a Craith (Hidden) yn ogystal â chyfresi ffeithiol wedi'u fformadu, fel Priodas Pum Mil a Gwesty Aduniad.

Rydym wedi parhau i geisio cynnig rhywbeth i bawb yn ein cynnwys, gan ganolbwyntio ein cynnwys gwreiddiol yn bennaf yn yr oriau brig oherwydd ein cyfyngiadau cyllido. Roedd 2019/20 yn flwyddyn

The last twelve months were a relatively tough year for all the public sector broadcasters (PSBs) as the SVoDs (Netflix, Amazon etc.) grew both their investment and audience. Whilst all other PSBs saw a decline in linear hours of viewing, it was encouraging to note that S4C saw a 7% increase in hours of viewing. Hopefully, this reflects S4C's aim to reflect our audiences' interests in both our output and across the platforms we deliver through. The overall strategy has seen us concentrate the main channel on developing a comprehensive offer for our core audience and our light viewers whilst growing our younger and more varied audiences through our digital content. I was proud of the work done to develop our Hansh brand, which by the end of the year had grown from circa 700,000 views a month to over one million. We also grew our digital platforms distributing content increasingly over Facebook and YouTube and adding Instagram and TikTok, targeting younger audiences.

Following audience research and opinion, our on-screen schedule changed: our evening news programme moved to 19.30 to provide an early evening service which also freed up the rest of the evening for other content. It also saw a change to Saturday nights with less emphasis on live sport and more traditional entertainment for our core audience. Our dramas continued to build our reputation as a major international player in scripted content. This was cemented by the international launch of our 'S4C Originals' brand, defining our role as the driving force behind international selling dramas such as Un Bore Mercher (Keeping Faith) and Craith (Hidden) as well as formatted factual series such as Priodas Pum Mil and Gwesty Aduniad.

We have continued to attempt to offer something for everyone with our content, focusing our original content primarily in peak hours due to our funding restrictions. 2019/20 was a bumper year for sport as we followed the Wales football team in the Euro 2020 qualifiers and the Welsh rugby team in the World Cup. In the cycling world too we were at the forefront of coverage having secured broadcasting rights for both the Giro d'Italia and the

“

Roedd yn galonogol sylwi bod S4C wedi gweld cynnydd o 7% mewn oriau gwyllo. Gobeithio bod hyn yn adlewyrchu nod S4C i gyfleu barn cynulleidfaoedd yn ein cynnyrch ac ar draws y platfformau rydym yn darparu drwyddyt. It was encouraging to note that S4C saw a 7% increase in hours of viewing. Hopefully, this reflects S4C's aim to reflect our audiences' views in both our output and across the platforms we deliver through.

ragorol i chwaraeon wrth inni ddilyn tîm pêl-droed Cymru yng ngemau Ewro 2020 a thîm rygbi Cymru yng Nghwpan y Byd. Yn y maes beicio hefyd roeddem ar y blaen gyda'n darpariaeth gan inni gael yr hawliau darlledu ar gyfer y Giro d'Italia a'r Tour de France. Parhawyd i ehangu ein darpariaeth o chwaraeon merched ym mhob maes posibl, gan gynnwys pêl-rwyd a hoci, gan ffrydio gemau ar ein platfformau digidol. Ac wrth gwrs, parhawyd i adlewyrchu chwaraeon mwy cyffredinol yng Nghymru drwy ein darpariaeth reolaidd o bêl-droed ar Sgorio a PRO14 a rygbi'r Uwch Gyngair yng Nghymru ar y Clwb Rygbi.

Parhaodd y BBC yn bartner gwerthfawr gan ddarparu congifeini'r amserlen a chynnwys Newyddion S4C, Pawb â'i Farn a Phobol y Cwm. Daeth S4C a'r BBC ynghyd unwaith eto i gyd-gynhyrchu ail gyfresi poblogaidd o'r dramau Un Bore Mercher a Craith. Comisiynodd S4C yn annibynnol hefyd hefyd y gyfres ddrama ragorol Pili Pala ac ail gyfres o Bang.

Parhaodd y sector annibynnol yng Nghymru i arloesi, gan loywi brandiau adnabyddus megis Cefn Gwlad a Dechrau Canu Dechrau Canmol a gwella a chadarnhau llywyddiant cyfresi blaenorol megis Priodas Pum Mil, Gwesty Aduniad a Ffit Cymru.

Parhaodd rhaglenni ffeithiol a phoblogaidd i ddenu cynulleidfaoedd cryf gyda chyfresi megis Nyrsys, Ysgol Ni: Maesincla, a Tŷ am Ddim, ac aeth yr haen ddogfennol arsylwadol Drych o nerth i nerth. Enillodd S4C wobrau am ei rhaglenni i blant, ac ymhlith yr uchafbwyntiau roedd gwobr BAFTA Plant am Project Z a gwobr Broadcast/RTS am Deian a Loli. Yn dilyn sylwadau gan S4C a TAC, cytunodd Margot James AS, y Gweinidog Gwladol dros y Diwydiannau Digidol a Chreadigol, ar y pryd i glustnodi 5% o'r Gronfa Cynnwys Cynulleidfaoedd Ifanc ar gyfer cynrychiadau plant mewn ieithoedd brodorol. Mae hyn wedi galluogi S4C a'r sector i arloesi a datblygu cynnwys newydd yn Gymraeg ar gyfer cynulleidfaoedd dan 18 oed.

Gan barhau'r 'thema' o ddarparu rhyweth i bawb, roedd cerddoriaeth wedi'i chynrychioli'n dda: dathlwyd hanner can mlynedd o Gân i Gymru, ac un o fy ffeffrynnau personol i oedd y sioe Anorac a enillodd wobwr BAFTA, yn cael ei chyflwyno gan Huw Stephens. Parhaodd Hansh i adlewyrchu'r sin Gymreig ifanc fywiog gyda brandiau adnabyddus fel Maes B Selar a Curadur a Lwp sydd newydd eu lansio. Roedd ein portffolio cerddoriaeth hefyd yn cynnwys portread crefftus o'r eicon cerddorol Meic Stevens, ac roeddem yn gyfrifol am noddi a darlledu'r wyl Lleisiau Eraill yn Aberteifi, sef y tro cyntaf i'r wyl ddigwydd yng Nghymru. Mae'r ffaith ein bod wedi cynnig y rhaglenni hyn yn ogystal â rhaglen digwyddiadau ein partneriaid mwy traddodiadol - fel Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a'r Genedlaethol a Sioe Frenhinol Cymru - yn dangos amrywiaeth allbwn S4C. Roedd adnewyddu ac ail-ganlbwyntio ein darpariaeth i ddysgwyr ar y cyd â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a chreu tab dysgwyr penodol ar ein chwaraeydd ar-lein S4C Clic yn uchafbwynt arbennig, yn ogystal â phartneriaethau sy'n datblygu gyda Llywodraeth Cymru, y Mudiad Meithrin a Chyngor Llyfrau Cymru.

Yn dilyn arolwg Euryn Ogwen Williams o S4C yn 2018, rydym wedi parhau i ddatblygu ein cynnwys a'n platfformau digidol. Mae wedi bod yn galonogol iawn gweld y strategaeth hon yn cynyddu ein defnydd digidol, yn enwedig gyda gwylwyr iau. Ym mis Mawrth

Tour de France. We continued to expand our provision of women's sports in all possible fields, including netball and hockey, streaming matches on our digital platforms. And of course, we continued to reflect grass-roots sport in Wales through our regular provision of football on Sgorio and PRO14 and Welsh Premiership rugby on Clwb Rygbi.

The BBC continued to be a valued partner providing stalwarts of the schedule including Newyddion S4C, Pawb a'i Farn and Pobol y Cwm. S4C and the BBC once again partnered to co-produce a second series of popular dramas Un Bore Mercher and Craith. S4C also independently commissioned the excellent Pili Pala and a second series of Bang.

The Welsh independent sector continued to innovate, refining existing brands such as Cefn Gwlad and Dechrau Canu Dechrau Canmol and improving and cementing the success of formatted returnables like Priodas Pum Mil, Gwesty Aduniad and Ffit Cymru. Factual and popular factual continued to attract strong audiences with series such as Nyrsys, Ysgol Ni: Maesincla, and Tŷ am Ddim, whilst the observational documentary strand Drych went from strength to strength. S4C won awards for its children's content with highlights including a Children's BAFTA for Project Z and a Broadcast/RTS award for Deian a Loli. Following representations from S4C and TAC, the then Minister of State for Digital and the Creative Industries, Margot James MP, agreed to ring-fence 5% of its Young Audiences Content Fund for indigenous language children's productions. This has enabled S4C and the sector to innovate and develop new Welsh content for audiences under 18.

Continuing on the theme of providing something for everyone, music was well represented: we celebrated fifty years of Cân i Gymru, and one of my own personal favourites was the BAFTA award-winning Anorac, presented by Huw Stephens. Hansh continued to reflect through our recordings the vibrant young Welsh scene with established brands such as Maes B Selar and the newly launched Curadur and Lwp. Our music portfolio also included a beautifully crafted portrait of the music icon Meic Stevens and we sponsored and covered the Other Voices festival in Cardigan, enabling the event's first appearance in Wales. That we offered these programmes as well as our more traditional partners' events coverage - such as the Urdd and National Eisteddfods and the Royal Welsh Show - demonstrates the diversity of S4C's output. The refreshing and re-focusing of our learners' provision in partnership with the National Centre for Learning Welsh and the creation of a specific learners' tab on our online player S4C Clic was a particular highlight, as well as emerging partnerships with the Welsh Government, Mudiad Meithrin and the Wales Book Council.

Following on from Euryn Ogwen Williams' review of S4C in 2018, we have continued to develop our digital content and platforms. It has been highly encouraging to see this strategy grow our digital consumption particularly with younger viewers. In March 2020, our youth platform Hansh, which offers a unique platform and content for young people aged 16 - 34 attracted one million views in one month across Twitter, Facebook and YouTube. Launched in June 2017, the service has evolved from operating solely on Facebook and YouTube to creating content on Instagram and TikTok as well as producing podcasts.

Bridging between linear and digital is S4C Clic, which has seen considerable investment in both functionality and content over the year. S4C Clic saw several improvements in both stability, presentation and functionality. It saw unique digital content being exclusively channelled through it, such as PRO14 rugby, and an increasing

“

Ac yna daeth y cyfnod clo. Credwn fod yr argyfwng wedi pwysleisio pwysigrwydd darlledwr cyhoeddus cenedlaethol i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith, ac yn hynny o beth, fe ymatebodd S4C yn gyflym. And then came lockdown. We believe that the crisis emphasised the importance of a national public sector broadcaster for Welsh speaking audiences, and as such S4C reacted swiftly.

2020 denodd ein platfform ieuencid Hansh, sy'n cynnig platfform a chynnwys unigryw i bobl 16 - 34 oed, un miliwn o wylwyr mewn un mis ar draws Twitter, Facebook ac YouTube. Lanswyd y wasanaeth ym mis Mehefin 2017 ac mae wedi esblygu o weithredu'n unig ar Facebook ac YouTube i greu cynnwys ar Instagram a TikTok yn ogystal â chynhyrchu podlediadau.

S4C Clic sy'n pontio rhwng y llinol a'r digidol, a gwelwyd buddsoddi sylweddol mewn swyddogaeth a chynnwys yn ystod y flwyddyn. Gwelodd S4C Clic nifer o welliannau o ran sefydlogrwydd, dyluniad a phwrpas. Ffrydiwyd cynnwys digidol unigryw megis rygbi PRO14, a darparwyd boccs sets a chynnwys arall yn gynyddol ar-lein yn unig. Lluniwyd cytundeb hefyd gyda Walter Presents, gan ddod â'r gorau o ddrama ryngwladol i S4C. Yn ystod yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd cofrestru gorfodol. Roedd hwn yn brif lwyfan i S4C allu marchnata'n uniongyrchol i'n gwylwyr ac adlewyrchu eu diddordebau penodol. Rwy'n falch dweud ein bod wedi gallu symud o lai na 1,000 cofrestriad ar ddiwedd 2018/19 i fwy na 100,000 erbyn Mawrth 2020.

O ran gweithredu, ymgyrtrefom yn ein pencadlys newydd yn yr Egin yng Nghaerfyrddin. Unwaith eto, hoffwn ddiolch i'r bobl a'n rhan-ddelliaid a'n partneriaid yn Sir Gaerfyrddin am eu cefnogaeth a'u croeso. Mae wedi bod yn brofiad gostyngol.

Parhawyd i feithrin talent, gan adnewyddu ac ariannu ein rhaglen hyfforddiant i newyddiadurwyr digidol gydag ITV Cymru Wales. Lluniwyd cytundeb newydd hefyd gyda phartneriaid allweddol, Teledwyr Annibynnol Cymru, i ymestyn a datblygu ein rhaglen datblygu sgiliau ar gyfer y sector.

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r BBC ar ein cynlluniau i gyd-leoli ein technoleg darlledu a defnyddio ffynonellau allanol er mwyn gostwng ein costau. Er ein bod wedi gobeithio cwblhau'r symud hwn o fewn y flwyddyn ariannol, rhwystrwyd hynny gan anawsterau technegol. Bydd hyn yn flaenoriaeth am y flwyddyn i ddod. Er mwyn gwarchod ac i sicrhau parhad ein gwasanaeth, prynwyd y cyfleuster ym Mharc Tŷ Glas gan ein cangen fasnachol, ac mae hynny wedi rhoi inni'r gallu i barhau i ddarlledu nes i'r symudiad ddiwydd. Maes o law bydd Parc Tŷ Glas yn cael ei droi'n adeilad unigol ar brydles gan gartrefu cwmnïau o wahanol faint.

Yn yr hydref gadawodd Huw Jones fel Cadeirydd ar ôl dau gyfnod, pan sefydlogwyd y sianel a phan wnaed cynnydd mewn sawl cyfeiriad. Hoffwn ddiolch i Huw am ei gefnogaeth barhaus. Hoffwn ddiolch hefyd i Hugh Hesketh Evans am lenwi'r bwlch mor effeithiol ac am ddarparu arweiniad tawel yn ystod ei gyfnod yn gadeirydd dros dro wrth inni aros am ddyfodiad y cadeirydd newydd, Rhodri Williams.

Ac yna daeth y cyfnod clo. Credwn fod yr argyfwng wedi pwysleisio pwysigrwydd darlledwr cyhoeddus cenedlaethol i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith, ac yn hynny o beth, fe ymatebodd S4C yn gyflym. Ar ôl buddsoddi mewn arferion gweithio a thechnoleg hyblyg wrth symud i'r Egin, symudodd y sefydliad yn hawdd i weithio o bell, ond roedd rhai swyddogaethau ynglŷn â throsglwyddo'r sianel ei hun yn golygu bod Parc Tŷ Glas yn dal i weithio. Rwyf yn ddiolchgar i'r rheiny sydd wedi parhau i weithio yno i gadw'r gwasanaeth ar yr awyr wrth inni sefydlu arferion gweithio newydd yn sgil cyngor a rheoliadau cyfredol y llywodraeth. Ar ôl lansio

provision of box sets and other content only available online. It also saw a deal concluded with Walter Presents, bringing the best of international drama to S4C. The year saw the introduction of compulsory registration. This was a key plank of S4C being able to market directly to our viewers and reflect their specific interests. I'm proud that we managed to go from less than 1,000 registrations at the end of 2018/19 to well over 100,000 by March 2020.

Operationally we settled into our new HQ, Yr Egin in Carmarthen. Once again, I'd like to thank the people and our stakeholders and partners in Carmarthenshire for their support and welcome, which has been humbling. We continued to invest in new talent, renewing and funding our training programme for digital journalists with ITV Cymru Wales. We also signed a new agreement with key partners, Teledwyr Annibynnol Cymru, to extend and develop our skills development programme for the sector.

We have continued working with the BBC on our plans to co-locate and outsource our broadcast technology to drive down our costs. Whilst we hoped to have completed this move within the financial year, technical difficulties prevented this. This will be a priority for the year ahead. As a safeguard and to ensure continuity of service, our commercial arm bought the Parc Tŷ Glas facility in Cardiff, which has given us the capability to keep broadcasting until the move takes place. Parc Tŷ Glas will eventually be converted to a freestanding leased building, hosting companies of various sizes.

In the autumn, we saw the departure of Huw Jones as Chair, after two terms that have seen the channel stabilise and make progress in several directions. I'd like to thank Huw for his support throughout. I'd also like to thank Hugh Hesketh Evans for stepping into the breach so effectively and providing calm guidance during his stint as interim chair as we waited to welcome the new chair, Rhodri Williams.

And then came lockdown. We believe that the crisis emphasised the importance of a national public sector broadcaster for Welsh speaking audiences, and as such S4C reacted swiftly. Having invested in flexible working practices and technology when we relocated to Yr Egin, the organisation moved easily to working remotely but certain functions around the transmission of the channel itself meant that Parc Tŷ Glas remained operational. I'm grateful to those who have continued to work there to keep the service on air as we established new working practices following the prevailing government advice and regulations. Having launched a programme of audience-focused activities 'Yma i Chi' (Here for You) we and our partners worked quickly to ensure that critical programming like news and current affairs continued, augmented by Covid-specific content as diverse as supporting health and well-being and our fact checking, young journalism strand 'Dim Sbin' ('No Spin'). To improve our news provision we also, for the first time, employed two young journalists to provide daily updates across our digital platforms, a development welcomed by our audience. We also commissioned and broadcast the UK's first lockdown drama 'Cyswllt Mewn Covid' and ensured the continuation of many bedrocks of our schedule such as Heno and Prynawn Da.

Ysgol Cyw (Cyw's School) was launched to support home learning, and box sets and archive content have been made available to learners and educators through the Welsh Government's Hwb service. Following lockdown, viewing to S4C's children's TV more than doubled, and with many children in Welsh-medium education coming from homes where the language isn't spoken, the service has played a vital role in allowing young children to continue hearing Welsh.

“

Roeddwn yn falch o'r gwaith a wnaed i ddatblygu ein brand Hansh, a oedd erbyn diwedd y flwyddyn wedi tyfu o ryw 700,000 o ymweliadau'r mis i fwy nag un filiwn. Tyfodd ein platfformau digidol hefyd gan ddsbarthu cynnwys yn gynyddol ar Facebook ac YouTube ac ychwanegu Instagram a TikTok.

**I was proud of the work done to develop our Hansh brand, which by the end of the year had grown from circa 700,000 views a month to over one million. We also grew our digital platforms distributing content increasingly over Facebook and YouTube and adding Instagram and TikTok.**

rhaglen o weithgareddau'n canolbwyntio ar y gynulleidfa 'Yma i Chi', aethom ni a'n partneriaid ati'n gyflym i sicrhau bod rhaglenni hanfodol fel newyddion a materion y dydd yn parhau, gan ychwanegu cynnwys yn benodol am Covid mor amrywiol â chefnogi iechyd a lles a'n haen ieuencid 'Dim Sbin' i wirio ffeithiau. I wella'n darpariaeth newyddion, am y tro cyntaf cyflogwyd dau ohebydd ifanc i ddarparu diweddariadau dyddiol ar draws ein platfformau digidol, datblygiad a gafodd groeso gan ein cynulleidfa. Cafodd y ddrama gyntaf yn y Deyrnas Unedig yn ystod y cyfnod clo, 'Cyswllt Mewn Covid', ei chomisynu a'i darlledu hefyd gan sicrhau parhad nifer o gonglfeini ein hamserlen, megis Heno a Phrynhawn Da.

Lansiwyd Ysgol Cyw i gefnogi dysgu yn y cartref, ac mae bocsets a chynnwys archif wedi eu darparu i ddysgwyr ac addysgwyr drwy gyfrwng gwasanaeth Hwb Llywodraeth Cymru. Yn sgil y cyfnod clo, gwelwyd mwy na dyblu yn y nifer yn gwylio rhaglenni plant S4C, a chan fod nifer o blant mewn addysg Gymraeg yn dod o gartrefi lle nad yw'r iaith yn cael ei siarad, mae'r gwasanaeth wedi chwarae rhan hanfodol bwysig wrth ganiatáu i blant ifanc ddal i glywed y Gymraeg.

Gan gydnabod bygythiad dyfodol y pandemig i'r sector cynhyrchu annibynnol yng Nghymru a cholli nifer o brif haenau cynnwys, gan gynnwys ein hoperau sebon, chwaraeon a digwyddiadau mawr, lansiwyd dau gylch comisiynu sylweddol gan ychwanegu dros £6m at economi Cymru, ar draws y wlad.

Ar adeg o argyfwng cynyddwyd ein cyfathrebu â'n cynulleidfa hefyd. Yn ogystal â'r gwasanaeth Gwifren Gwylwyr, lansiwyd ffyrdd newydd o gyfathrebu â'n cynulleidfa drwy i mi ac Amanda Rees, ein Cyfarwyddwr Cynnwys, ymddangos ar sesiynau rheolaidd Facebook Live. Darlledwyd nifer o syniadau o'r sesiynau hyn, gan gynnwys gwasanaeth bore Sul ac amrywiaeth gynyddol o bocsets a oedd ar gael drwy S4C Clic. Lansiwyd sianel ddigidol 'dros dro' er mwyn i bobl gael mynegi eu diolch am gyfraniad y gwasanaethau hanfodol, a darparwyd gofod hysbysebu am ddim neu gyda chymhorthdal sylweddol i gwmnïau bach ac elusennau a oedd yn cefnogi'r ymdrech Covid-19.

Mae wedi bod yn her i gynnal y sianel drwy'r cyfnod clo, ond rwy'n ddiolchgar am gefnogaeth fy nhim a'r staff, bwrdd a chadeirydd egniol a chefnogol, llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru, y BBC, TAC a'r sector cynhyrchu annibynnol i gyd am eu cefnogaeth ddiflino.

Recognising the threat to the future of the pandemic to the Welsh independent production sector and the loss of several major strands of content, including our soaps, sport and major events, we launched two major commissioning rounds, pumping over £6m into the Welsh economy, spread across the nation.

At a time of crisis, we also stepped up our communication with our audience. In addition to our Gwifren Gwylwyr (Viewers' Hotline) service, we launched new ways of communicating with our audience with myself and Amanda Rees our Director of Content appearing on regular Facebook Live sessions. Several ideas from these sessions made it to broadcast including a Sunday morning service and a growing range of box sets available through S4C Clic. We launched a pop-up digital channel to let people express their thanks for the role played by the essential services and provided free or heavily subsidised advertising space for small firms and charities supporting the Covid-19 effort.

It's been a challenge to maintain the channel through lockdown, but I'm grateful for the support of my team and staff, an energetic and supportive board and chair, both UK and Welsh governments, the BBC, TAC and the independent production sector as a whole for their unflinching support.

Merched Parchus



# Sut berfformiodd S4C yn 2019/2020

## How S4C performed in 2019/2020

Mae sicrhau fod gwasanaethau iaith Gymraeg S4C yn ymateb i ddisgwyliadau'r gynulleidfa, ac yn cael eu gwerthfawrogi a'u defnyddio'n rheolaidd gan yr ystod ehangaf o bobl yn greiddiol i waith S4C.

**Ensuring that S4C's Welsh language services respond to the audience's expectations, and are valued and regularly used by the widest audience is key to S4C's mission.**

### Sut mae S4C yn asesu perfformiad y gwasanaeth? How does S4C assess the performance of the service?

Mae gan Fwrdd S4C ddyletswydd i sicrhau fod gwasanaethau S4C yn ymateb i anghenion ein cynulleidfa. Mae'r Bwrdd yn asesu perfformiad gwasanaethau S4C yn gyson, a chyflwynir isod asesiad perfformiad S4C yn erbyn fframwaith mesuryddion perfformiad a Blaenoriaethau Strategol S4C ar gyfer y cyfnod Ebrill 2019 i Fawrth 2020.

The S4C Board has a duty to ensure that S4C's services respond to the needs of our audience. The Board regularly assesses the performance of S4C's services. The performance assessment presented below is based on the performance measurement framework and S4C's Strategic Priorities for the period April 2019 to March 2020.

**Rhoddir arweiniad i weithgareddau S4C gan bedair blaenoriaeth strategol sydd wedi eu datblygu er mwyn rhoi cyfeiriad i waith S4C a sicrhau fod holl wasanaethau S4C yn ymateb i anghenion y gynulleidfa:**

**S4C's activities are guided by four strategic priorities that have been developed to provide direction to S4C's work and to ensure that S4C's services respond to the needs of the audience:**

1	2	3	4
<p><b>Darparu gwasanaeth poblogaidd o safon uchel, ar amrywiaeth o lwyfannau cyfoes, gan sicrhau fod y cynnwys ar gael i'w dderbyn a'i ddefnyddio unrhyw amser, unrhyw le.</b> Provide a high quality and popular service across a range of contemporary platforms, ensuring that the content can be accessed and viewed at anytime and anywhere.</p>	<p><b>Dyfnhau ein hadnabyddiaeth o'r gynulleidfa, ei gofynion a'i barn am y gwasanaeth, a sicrhau bod hyn yn greiddiol i waith S4C.</b> Strengthen our understanding of the audience, its requirements and its response to the S4C service and ensure that this is central to S4C's operation.</p>	<p><b>Sicrhau perthynas effeithiol a chreadigol gyda chyflenwyr a phartneriaid eraill.</b> Ensure an effective and creative relationship with suppliers and other partners.</p>	<p><b>Parhau i sicrhau gwerth am arian a manteisio ar gyfleoedd masnachol.</b> Continue to deliver value for money and make the most of commercial opportunities.</p>

Wrth asesu perfformiad gwasanaeth S4C, mae'n angenrheidiol i ystyried ystod o ffactorau, gan gynnwys ffigyrau gwyllo ar deledu ac arlein, gwerthfawrogiad ac ymateb y gynulleidfa i'r cynnwys a rhaglenni, yr effaith ehangach y mae S4C a'r gwasanaeth yn llwyddo i'w gael, a'r gwerth a chefnogaeth y mae S4C yn gallu ei ddarparu i bartneriaid a rhanddeiliaid eraill yng Nghymru.

In assessing the performance of the S4C service, it is necessary to consider a range of factors, including television and online viewing figures, appreciation and audience response to content and programmes, the wider impact created by S4C and its service, and the value and support that S4C can provide to partners and other stakeholders in Wales.

Mae Pwyllgor Cynnwys y Bwrdd yn ystyried adroddiadau ar gynnwys a pherfformiad y gwasanaeth yn rheolaidd, ac yn ystod 2019/20 rhoddwyd sylw arbennig i feysydd megis Drama a Sebon, Plant a Ffeithiol yn ogystal ag adolygiadau o berfformiad yr amserlen. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i Gynlluniau'r dyfodol ar gyfer Hansh, Strategaeth Ryngwladol S4C a dyfodol Newyddion Digidol.

The Board's Content Committee regularly considers reports on the content and performance of the service, and during 2019/20 special attention was given to Drama and Soap, Children, and Factual genres as well as reviews of the schedule's performance. The Committee also considered future plans for Hansh, S4C's International Strategy and the future of Digital News.

Mae'r Pwyllgor, sy'n cyfarfod bob deufis, hefyd yn ystyried rhaglenni a chyfresi unigol sy'n ymddangos yn ystod y flwyddyn. Mae adroddiadau'r Pwyllgor Cynnwys yn cael eu hystyried ymhellach yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd.

The Committee, which meets every two months, also considers individual programmes and series that are broadcast during the year. The Committee's reports are considered further in the Board's monthly meetings.

Mae'r trosolwg canlynol yn seiliedig ar y trafodaethau hyn.

The following overview is based on these discussions.

**Mae S4C yn wasanaeth cyhoeddus unigryw sy'n darparu cynnwys clyw-weledol yn y Gymraeg ar deledu a thrwy'r gwasanaethau digidol mwyaf poblogaidd. Fel yr unig wasanaeth cyhoeddus Cymraeg o'i fath, rydym yn anelu at sicrhau ein bod yn cynnig cynnwys sy'n cwrdd â gofynion ystod eang o wahanol gynulleidfaedd - o ran oedran, chwaeth a genre.**

**S4C is a unique public service providing Welsh-language audio-visual content on television and via the most popular digital services. As the only Welsh-language public service of its kind, we aim to ensure that we offer content that meets the demands of a wide range of different audiences – in terms of age, taste, and genre.**

Cynefin

Mae patrymau defnydd S4C, fel pob darlledwr arall yn esblygu, gyda gwylwyr yn mudo o'r sgrîn deledu i wyllo cynnwys ar ystod o lwyfannau a dyfeisiau arlein. Er hynny, mae mwyafrif ffigurau cyrhaeddiad S4C yn uwch eleni a chynnydd hefyd o ran gwyllo ar lwyfannau arlein a chyfryngau cymdeithasol.

Yn ogystal â ffigurau gwyllo, mae sicrhau fod yr arlwy'n taro deuddeg gyda'r gynulleidfa, ac yn cael ei werthfawrogi, yn allweddol bwysig. Braf yw nodi fod y gynulleidfa'n parhau i werthfawrogi safon ac amrywiaeth y cynnwys a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn.

S4C's usage patterns, like those of all other broadcasters, are evolving, with viewers migrating from the TV screen to watch content on a range of online platforms and devices. However, the majority of S4C's figures in terms of its reach are higher this year and there is also an increase in viewing figures on online platforms and social media.

As well as viewing figures, ensuring that output resonates with, and is valued by, the audience is of key importance. It is pleasing to note that the audience continues to appreciate the standard and variety of content provided during the year.



Gwyllo ar deledu ac arlein yn esblygu  
**Evolution of TV and online viewing**

Mae asesu maint cynulleidfa S4C bellach yn golygu ystyried gwylwyr ar deledu traddodiadol, yng Nghymru a ledled y DU, cyfrif defnyddwyr ar y prif lwyfannau arlein sef S4C Clic a'r BBC iPlayer ac, yn ogystal, y rheini sy'n gwyllo cynnwys S4C ar ystod o lwyfannau arlein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol.

Er bod yr holl Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus eraill wedi gweld dirywiad yn yr oriau gwyllo llinol, roedd yn galonogol nodi bod S4C wedi gweld cynnydd o 7% yn yr oriau gwyllo. Y gobaith yw bod hyn yn cyflawni nod S4C o adlewyrchu nod S4C i adlewyrchu barn ein cynulleidfaoedd yn ein hallbwn ac ar draws y llwyfannau rydyn ni'n darparu drwyddyn nhw. Roedd hi'n galonogol hefyd gweld cynnydd yng nghanran gwyllo llinol S4C a ddaw gan oedrannau 16-34 a 45-64. Mae'r rhan fwyaf o'r ffigurau cyrhaeddiad yn uwch eleni er bod cyrhaeddiad wythnosol ar draws Cymru wedi gostwng ychydig. Mae cyfartaledd yr oriau brig hefyd yn uwch na llynedd.

Mae'r cynnydd o ran y defnydd o wasanaethau arlein S4C ar draws y DU wedi parhau eto yn ystod 2019/20, ond gyda phatrymau newydd yn datblygu wrth i S4C barhau i gynnig rhaglenni a chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol megis Facebook a dulliau newydd o gyflwyno'n cynnwys megis dramâu mewn boccs sets. Mae'r defnydd o gynnwys ar S4C Clic a BBC iPlayer yn parhau i fod yn sylweddol, gyda oriau S4C Clic i fyny +14% a BBC iPlayer i fyny +18%. Yn ogystal, cynyddodd gwyllo cynnwys S4C ar Facebook, YouTube a Twitter yn sylweddol.

Assessing the size of S4C's audience now means considering viewers of traditional television, in Wales and across the UK, counting users on the main online platforms of S4C Clic and the BBC iPlayer and, in addition, those watching S4C content on a range of online platforms, including social media.

Whilst all other PSBs saw a decline in linear hours of viewing, it was encouraging to note that S4C saw a 7% increase in hours of viewing. Hopefully, this reflects S4C's aim to reflect our audiences' views in both our output and across the platforms we deliver through. It was also encouraging to see an increase in the percentage of linear hours of viewing for S4C coming from ages 16-34 and 45-64. Most figures for reach are higher this year although weekly reach across Wales has fallen slightly. Peak-time averages are also higher than last year.

The increase in use of S4C's online services across the UK has continued again during 2019/20, but with new patterns developing as S4C continues to offer programmes and content on social media such as Facebook and new modes of delivering our content, including drama box sets. The use of content on S4C Clic and BBC iPlayer continues to be significant, with S4C Clic hours up +14% and BBC iPlayer up +18%. In addition, viewing of S4C content on Facebook, YouTube and Twitter increased significantly.



Strategaeth Cynnwys  
2016/17 i 2019/20  
Content Strategy  
2016/17 to 2019/20

Eleni oedd blwyddyn olaf gweithredu'r strategaeth cynnwys tair blynedd a gyhoeddwyd yn 2016/17. Prif amcan y strategaeth hon oedd adnewyddu a moderneiddio hen arlwy S4C ar draws pob llwyfan er mwyn ymestyn apêl y gwasanaeth, amrywio demograffeg y gwylwyr a chynyddu lefel y gwyllo ymysg cynulleidfaoedd iau, yn arbennig felly o blith y grwpiau oedran 16-34 a 45-64. Mae'r flwyddyn 2019/20 yn cynnig cyfle amserol i ni felly edrych yn ôl dros tair mlynedd y strategaeth ac asesu'r cynnydd yn erbyn yr amcanion yma.

Erbyn 2019/20 roedd y gwyllo yn yr oriau brig gan rai oed 16-34, 60% yn uwch na'r hyn oedd yn 2016/17, a chynnydd bychan ymhlith oed 45-64 hefyd. Roedd Hansh yn allweddol wrth gynyddu gwyllo ymysg ein cynulleidfa 16-34. Cynyddodd Hansh ei ffigyrau gwyllo ac ymwneud ar bob cyfrif gyda munudau gwyllo yn cyrraedd 5.6m (+24%) dros y flwyddyn a sesiynau gwyllo yn 8.9m (+29%).

Yn 2019/20, roedd mwyafrif gwariant y gyllideb cynnwys wedi'i chyfeirio at y gwasanaeth llinol yn yr oriau brig. Ceir rhagor o wybodaeth ar dudalennau 130 i 131. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd cynnydd o 24% ar alwy digidol gan gynnwys brandiau Hansh, S4C Comedi, Lŵp a Dim Sbin.

Eleni hefyd lanswyd cynllun mewngofnodi S4C Clic. Bu'n lwyddiant ysgubol gyda 106,985 o unigolion yn cofrestru gyda Clic erbyn diwedd 2019/20 i ddefnyddio'r chwaraewr. Sgîl effaith hyn oedd creu data a gwybodaeth gwerthfawr am natur ein cynulleidfa a'u patrymau gwyllo - data fydd yn helpu llywio ein penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol.

This year was the final year of the implementation of the three-year content strategy announced in 2016/17. The main objective of this strategy was to refresh and modernise S4C's old range of content across all platforms in order to broaden the appeal of the service, diversify viewers' demographics and increase the level of viewership among younger audiences, particularly the 16-34 and 45-64 age groups. The 2019/20 year provides us with a timely opportunity, therefore, to look back over the three years of the strategy and assess progress against these objectives.

By 2019/20 viewing in peak hours by 16-34 year olds was 60% higher than 2016/17, and also a slight increase among 45-64 year olds. Hansh was instrumental in increasing viewing among our 16-34 audience. Hansh increased all its viewing and engagement figures on every account, with viewing minutes reaching 5.6m (+ 24%) over the year and viewing sessions at 8.9m (+ 29%).

In 2019/20, the majority of the channel's content spend was directed at the peak-time linear service. Further details on this expenditure are given on pages 130 to 131. During the year investment in digital services, including brands such as Hansh, S4C Comedi, Lŵp and Dim Sbin, increased by 24%.

This year also saw the launch of the S4C Clic sign in scheme. It has been a resounding success with 106,985 individuals registering with Clic by the end of 2019/20 to use the player. A useful secondary effect of this has been the generation of valuable data and information about the nature of our audience and their viewing patterns - data that will help inform our future commissioning decisions.



Fy S4C Gwyllo yn fyw Dat i Fyw Categoriadau





## Genres cynnwys unigol Individual content genres

Ar draws bob genre, rydym wedi gwerthuso ein cyfresi sefydlog yn ystod y flwyddyn er mwyn sicrhau parhâd eu hapêl tra'n hefyd arbrofi gyda brandiau a chyfresi hollol newydd er mwyn sicrhau ffresni a pherthnasedd y gwasanaeth i gynulleidfa ehangach.

Mae costau cynhyrchu rhaglenni S4C fesul awr yn parhau i fod yn isel iawn o'u cymharu gyda chostau darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sy'n darparu gwasanaethau ar draws y DU.

Serch hynny, rydym yn gwybod fod cost gwneud rhaglenni yn cynyddu, gyda gwariant byd-eang ar rhai genres yn enwedig drama wedi'i sgrïptio yn codi i lefelau digynsail. Mae'r SVODs megis Netflix, Disney, HBO Max ac Apple nawr yn gwario biliynnau ar gynnwys ac adroddwyd yn Adolygiad 5 mlynedd PSB Ofcom, cyhoeddwyd ar 27 Chwefror, fod gwariant drama wedi cynyddu i £1.7m a £1.9m yr awr ar gyfer PSBs a darparwyr amlsianel yn ol eu trefn

Gallwn ddisgwyl cost yr awr ar gyfer y rhan fwyaf o genres cynyddu dros y flwyddyn nesaf a fydd hyn yn parhau i fod yn her yn enwedig yn sgil costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â Covid-19.

Across all genres, we have evaluated our regular series during the year to ensure the continuation of their appeal while also experimenting with completely new brands and series to ensure the freshness and relevance of the service to a wider audience.

The cost per hour of producing S4C's programmes remains very low compared to the costs of other public service broadcasters that provide services across the UK.

However, we know that the cost of making programmes is increasing, with global spending on some genres, particularly scripted drama, rising to unprecedented levels. The SVODs such as Netflix, Disney, HBO Max and Apple now spend billions on content and Ofcom's 5-year PSB Review published on 27 February 2020 reported that drama spend has increased to £1.7m and £1.9m per hour for PSBs and multichannel providers respectively.

We can expect the cost per hour for most genres to increase over the coming year and this will continue to be challenge especially in light of additional costs associated with Covid-19.



## Newyddion a Materion Cyfoes News and Current Affairs

Bu'n flwyddyn ryfeddol o newyddion unwaith eto wrth i ni weld Prif Weinidog newydd yn 10 Downing St, Etholiad Cyffredinol trawiadol, y dadlau dros adael yr Undeb Ewropeaidd a'r tor-calon wynebwyd gan lawer yn sgil pandemig Covid-19. Cafwyd ymdriniaeth ddeallus o'r digwyddiadau mawr ar brif raglen Newyddion S4C sy'n cael ei chynhyrchu gan BBC Cymru Wales, a chafwyd chwistrelliad o egni newydd i'r rhaglen etholiad dros nos eleni wrth i'r cyhoedd ddod i Ganolfan S4C yn yr Egin i leisio eu barn ar y canlyniadau ysgytwol. Yn yr Egin hefyd roedd criw materion cyfoes digidol Dim Sbin yn torri straeon dros nos ar Twitter, a'r arlwy hynny, sy'n cael ei ariannu gan gynllun hyfforddiant S4C, yn torri tir newydd drwy gydol y flwyddyn mewn arddull materion cyfoes yn y Gymraeg.

Wrth i Gymru wynebu'r cyfnod clo, gwnaed ymdrech arbennig gan y timau newyddion a materion cyfoes i sicrhau bod gwasanaeth sydd mor werthfawr mewn cyfnod o argyfwng yn parhau, a dechreuwyd darlledu Datganiad Dyddiol Covid Llywodraeth Cymru yn fyw. Ar drothwy'r cyfnod heriol yma symudwyd y brif raglen newyddion o 21.00 i 19.30, gan newid brand o Newyddion 9 i Newyddion S4C, ac fe welwyd cynnydd rhyfeddol yn y niferoedd oedd yn gwylio.

Bu'n flwyddyn gofiadwy hefyd i'n rhaglenni materion cyfoes gyda'r Byd ar Bedwar yn cael ei gwobrwyo gyda thlws newyddion a materion cyfoes gorau RTS Cymru am ymchwiliad i achos o gamdrin plant ar Ynys Byr. Bu'r Byd yn ei Le gyda Guto Harri hefyd yn brysur yn dal gwleidyddion i gyfri, a chafwyd cyfres afaelgar arall o Ein Bÿd, yr olaf ar deledu wrth i'r gyfres symud i lwyfan digidol. Mewn ymdrech i adnewyddu cyfresi cyfarwydd, rhoddwyd cyfres Pawb a'i Farn mas i dendr ac enillwyd y cytundeb gan gwmni Tinopolis. Symudwyd cyfres Ffermio i 21.00 gan lawnsio gyda phennod gofiadwy o wyna byw.

Arbrofwyd gyda rhywfaint o gynnwys newyddion digidol byw o ddigwyddiadau mawr ar Facebook a chomisiynwyd ymchwil arbennig gan ITN i ddatblygu gwasanaeth newyddion digidol llawer mwy- cynhwysfawr i gynulleidfa S4C.

It was once again a remarkable year of news as we saw a new Prime Minister at 10 Downing St, a spectacular General Election, the controversy over leaving the European Union and the adversity faced by many in the wake of the Covid-19 pandemic. The major events were given insightful coverage on Newyddion S4C, the flagship news programme produced by BBC Cymru Wales, and there was a new injection of energy into the overnight election programme this year as the public came to Canolfan S4C yr Egin to voice their opinion on the remarkable results. Yr Egin also housed the Dim Sbin digital current affairs crew, covering breaking news overnight on Twitter, with its coverage, funded by an S4C training scheme, breaking new ground throughout the year in terms of a Welsh-language current affairs style.

As Wales faced the lockdown, the news and current affairs teams made a special effort to ensure that a service that is so valuable in a period of crisis was able to continue, and the Welsh Government's Daily Statement on Covid began to be broadcast live. On the eve of this challenging period, the main news program was moved from 21.00 to 19.30, changing the brand from Newyddion 9 to Newyddion S4C, and there was a remarkable increase in the numbers watching.

It has also been a memorable year for our current affairs programmes with Y Byd ar Bedwar, winning RTS Cymru's award for best news and current affairs programme for an inquiry into child abuse on Caldey Island. Y Byd yn ei Le with Guto Harri was also busy holding politicians to account, and there was another gripping series of Ein Bÿd, the last on TV as the series moved to a digital platform. In an effort to refresh familiar series, Pawb a'i Farn was put out to tender and the contract was won by Tinopolis. Ffermio was moved to 21.00, launching with a memorable episode featuring live lambing.

We experimented with some live digital news content from major events on Facebook and commissioned special research from ITN to develop a much more comprehensive digital news service for S4C's audience.



## Ffeithiol Factual

O raglenni dyddiol Heno i ffilmiau arsylwadol Drych, o fformatau ffeithiol fel Am Dro i raglenni unigol ein strand hanes newydd, unwaith eto eleni bu cynnwys ffeithiol yn gonglfain arbennig o boblogaidd yn ein hamserlen brig ag allfrig.

Rhoddodd cyfresi dyddiol Heno a Prynawn Da gyfle i leisiau a straeon pobl gyffredin Cymru gael eu clywed. Dychwelodd rhaglenni rig fel Gwesty Aduniad a Helo Syrjeri mewn ail gyfresi llwyddiannus, a lansiwyd Am Dro - fformat newydd sy'n dangos cerddwyr Cymru ar eu mwyaf cystadleuol a thirwedd Cymru ar ei fwyaf godidog.

Aeth strand arsylwadol Drych o nerth i nerth gyda rhaglenni unigol fel Eirlys, Dementia a Tim yn ymddangos ar restr hir gwobrau Grierson. Cafwyd hefyd glod a sylw haeddiannol i'n strand hanes newydd gyda phortread o'r eicon cerddorol, Meic Stevens: Dim ond Cysgodion yn ennill enwebiad Gŵyl Geltaidd a rhaglen Dafydd Iwan: Y Prins a Fi yn dwyn sylw'r wasg Brydeinig am y cyfarfod dadlennol a fu rhwng y Tywysog Siarl a'r cerddor enwog. Am y tro cyntaf ers blynyddoedd, bu cyd-gynhyrchu rhwng S4C a Channel 4 gyda Tŷ am Ddim - cyfres gystadleuol oedd yn helpu pobl ifanc i brynu ac adnewyddu eu tai cyntaf. A gan brofi pa mor denau yw'r ffin rhwng genres cynnwys erbyn hyn, daeth un o gyfresi rig mwyaf arsylwadol y flwyddyn o'r stabl adloniant, sef Ysgol Ni: Maesincla

From Heno's daily instalments to the observational films in the Drych series, from factual formats such as Am Dro to the individual programmes of our new history strand, once again this year factual content has been an immensely popular cornerstone of our peak and off-peak schedule.

The daily series, Heno and Prynawn Da provided an opportunity for the voices and stories of ordinary Welsh people to be heard. Peak-time rig-based programmes such as Gwesty Aduniad and Helo Syrjeri returned with successful second series, and Am Dro was launched - a new format showing Welsh walkers at their most competitive and the Welsh landscape at its most magnificent.

The observational strand Drych went from strength to strength with individual programmes such as Eirlys, Dementia a Tim appearing on the long list at the Grierson Awards. There was also deserved praise and attention for our new history strand with a portrait of the musical icon, Meic Stevens: Dim ond Cysgodion earning a Celtic Festival nomination and the programme Dafydd Iwan: Y Prins a Fi receiving coverage in the British press following the revelatory meeting between Prince Charles and the famous musician. For the first time in years, a programme was co-produced by S4C and Channel 4, resulting in Tŷ am Ddim - a competitive series helping young people to buy and renovate their first homes. And, proving how fine the boundary is between content genres nowadays, one of the most observational peak-time series of the year came from the entertainment division, Ysgol Ni: Maesincla.

## Adloniant a Chomedi Entertainment and Comedy

Yn 2019/20 bu ffocws ar greu fformatau adloniantol gyda chyfresi twymgalon i ddenu'r teulu cyfan i wylia a mwynhau gyda'i gilydd. I'r perwyl yma, bu pedwaredd gyfres Priodas Pum Mil yn llwyddiant ysgubol gan ddenu rhai o'i ffigyrau uchaf eto. Esblygwyd y fformat ar ffurf cyfres newydd yn Prosiect Pum Mil ac enillodd y cyfresi hyn wobrau BAFTA Cymru a'r Wyl Geltaidd yn ogystal â chalonnau'r gwylwyr.

Eleni eto, bu arbrofi gyda thalent newydd a datgelu cyfrinachau creu mewn cyfresi fel Rhisiart Holt a'i Felin Felys a'r gyfres Cymry ar Gynfas - cyfres a gyflwynodd artistiaid a'r byd celf gyda fformat ffeithiol ysgafn. Dychwelodd Chris Roberts gyda'i wleddoedd tân a mwg yn Bwyd Epic Chris ac ar Ddydd Gŵyl Dewi torrwyd sawl record Cymreig cyntaf o'i fath - a hynny mewn detholiad o gynnwys digidol a llinol a gomisiynwyd mewn partneriaeth gyda Guinness World Records.

Ym maes comedi, tra bu Maggi Noggi yn busnesu yng ngharafanau'r sêr yn yr Eisteddfod ac Elis James yn twrio drwy archifau S4C yn Nabod y Teip, bu criw Hyd y Pwrs yn codi gwên gyda'u blas unigryw nhw ar hiwmor llawr gwlad.

Ond bu'r arbrofi mwyaf o fewn talent comedi oddi ar y brif sgrin - ar lwyfan digidol newydd Comedi S4C. Lansiwyd S4C Comedi ym Mehefin 2019 fel lle i ddatblygu syniadau a lleisiau a hynny mewn man lle bod modd llwyddo yn ogystal â methu - yn le i gymryd risg, i ddatlu talent brofiadol yn ogystal â'r newydd a datblygu'r genhedlaeth nesaf o gomedi. Comisiynwyd amrediad eang o fathau o gomedi - o stand yp i ddychan, o ganeuon a sgethis i gomedi sefyllfa.

In 2019/20 there was a focus on creating entertaining formats with heart-warming series to attract the whole family to watch and enjoy together. In this respect, the fourth series of Priodas Pum Mil was a resounding success, attracting some of its highest figures yet. The format was evolved into a new series in Prosiect Pum Mil and these series won the BAFTA Cymru and Celtic Festival awards as well as viewers' hearts.

This year again, there has been experimentation with new talent and revealing the secrets involved in creation in series such as Rhisiart Holt a'i Felin Felys and the series Cymry ar Gynfas - a series that presented artists and the art world in a light, factual format. Chris Roberts returned with his fire and smoke feasts in Bwyd Epic Chris and on St David's Day several Welsh records were broken for the first time, in a selection of digital and linear content commissioned in partnership with Guinness World Records.

In the field of comedy, while Maggi Noggi snooped around in the stars' caravans at the Eisteddfod and Elis James trawled through S4C archives in Nabod y Teip, the Hyd y Pwrs crew were raising a smile with their unique flavour of popular humour.

But the greatest experimentation within comedy talent occurred off the main screen - on the new digital platform Comedi S4C. S4C Comedi was launched in June 2019 as a place to develop ideas and voices in a place where people can succeed as well as fail - a place to take risks, to celebrate experienced talent as well as the new faces, and to develop the next generation of comedy. A wide range of comedy was commissioned - from stand-up to satire, from songs and sketches to sitcoms.



▲ Drych: Achub Llais John

▶ Elis James Nabod y Teip

## Cerddoriaeth a Digwyddiadau Music and Events

Eleni eto, bu'n rhaglenni cerddoriaeth yn adlewyrchu ac yn dathlu'r amrywiaeth helaeth o artistiaid sydd gennym yng Nghymru - o fandiau roc i gerddorion traddodiadol, o gantorion clasurol i sêr y sin pop ffyniannus.

Wrth adlewyrchu digwyddiadau a chystadlaethau cenedlaethol Cymru, profodd S4C eleni eto ei bod yn ddarlledwr heb ei ail. Cafwyd y wledd arferol o raglenni uchafbwyntiau a darllediadau byw o Eisteddfod yr Urdd, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Sioe Frenhinol Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Yr Wyl Gerdd Dant, y Ffair Aeaf, Cân i Gymru, Junior Eurovision ac Eisteddfod y Ffermwyr Ifanc. Adlewyrchwyd hefyd mewn cyfres o raglenni, uchafbwyntiau o Wyl cerddoriaeth Lleisiau Eraill gynhaliwyd yn Aberteifi.

Roedd digon hefyd eleni i blesio'r gwylwyr mwy traddodiadol. Dathlwyd pen-blwydd Sain yn 50 oed, bu aelodau Corau Rhys Meirion yn cyd-ganu ar draws y wlad a dychwelodd Noson Lawen i oriau brig nos Sadwrn mewn ymgais i gyrraedd y gwylwyr craidd sy'n chwilio am gynnwys amgen i'r sianeli eraill.

This year again, our music programmes reflected and celebrated the wide range of artists we have in Wales - from rock bands to traditional musicians, from classical singers to the stars of the thriving pop scene.

In reflecting national events and competitions in Wales, S4C again proved to be a superlative broadcaster this year. The usual feast of highlight and live coverage programmes was broadcast, including Eisteddfod yr Urdd, Llangollen International Musical Eisteddfod, Royal Welsh Agricultural Show, The National Eisteddfod, The Cerdd Dant Festival, The Winter Fair, Cân i Gymru, Junior Eurovision and The Young Farmers Clubs Eisteddfod. Also reflected in a series of programmes were highlights from the Other Voices music festival held in Cardigan.

There was also plenty this year to please the more traditional viewers. Sain celebrated its 50th anniversary in Sain yn 50, members of Corau Rhys Meirion sang together across the country and Noson Lawen returned to peak Saturday night hours in an attempt to reach the core viewers looking for alternative content to the other channels.





Plant, Pobl Ifanc ac  
Addysgiadol  
Children, Young People  
and Educational

Bu nifer o ddatblygiadau cyffrous ym maes plant a phobl ifanc eleni wrth i raglenni dan frandiau Cyw (i blant iau) a Stwnsh (i blant hŷn) ddenu gwyllo a chanmoliaeth o bob cyfeiriad. Yn ogystal â diddanu plant Cymru, gwerthodd nifer o raglenni yn rhyngwladol dan faner S4C Originals: Prosiect Z wedi ei gomisiynu gan CiTV, Deian a Loli wedi ei haddasu i Llydaweg, Caru Canu mewn Cernyweg, Chickpea (Cyw wedi animeiddio) wedi darlledu yn Tsieina ac ap Antur Cyw ar gael mewn Cernyweg. Enillodd Mabinogi-ogi wobwr am y raglen blant orau yn yr Wyl Cyfryngau Celtaidd.

Daeth datblygiad cyffrous arall eleni o gyfeiriad yr Young Audience's Content Fund (YACF) sef cronfa newydd a sefydlwyd yn Ebrill 2019 er mwyn hybu ac ariannu cynnwys gwreiddiol i bobol ifanc ar y sianeli gwasanaeth cyhoeddus. Yn y flwyddyn gyntaf, enillodd S4C gefnogaeth y YACF i chwe prosiect a fydd yn cael eu darlledu yn 20/21. Bydd Sali Mali, Sol, a Byd Tadcu yn ymddangos o fewn gwasanaeth Cyw a Hei Hanes i blant oedran Stwnsh. Prif amcan strategol eleni oedd comisiynu cynnwys i dargedu'r gynulleidfa plant 13-16 oed gan ganolbwyntio ar ar brosiectau uchelgeisiol wedi'u sgriptio. I'r perwyl yma, roedd ennil cefnogaeth YACF i ddwy gyfres ddrama newydd sef Y Gyfrinach a Person/a yn lwyddiant nodedig.

Ym maes Addysg a Dysgu, cyhoeddwyd pecyn o adnoddau CA2 i gyd-fynd â chyfres hanes Amser Maith Maith yn Ôl, mewn partneriaeth â Chanolfan Peniarth, Boom ac Adran Addysg y Llywodraeth. Mae'r adnoddau cynhwysfawr ar gael ar Hwb. Lansiwyd ap Addysg i blant meithrin: Antur Cyw lle mae plant yn gallu dysgu wrth chwarae.

There were many exciting developments in the field of children and young people this year as programmes under the Cyw (for younger children) and Stwnsh (for older children) brands attracted viewership and praise from all directions. As well as entertaining Welsh children, a number of programmes were sold internationally under the banner of S4C Originals: Prosiect Z has been commissioned by CiTV, Deian a Loli has been adapted to Breton, Caru Canu to Cornish, Chickpea (Cyw animation) was broadcast in China and the Antur Cyw app was made available in Cornish. Mabinogi-ogi won an award for best children's programme at the Celtic Media Festival.

Another exciting development came this year from the Young Audience's Content Fund (YACF) which is a new fund established in April 2019 to promote and fund original content for young people on the Public Service channels. In the first year, S4C won the YACF's support for six projects that will be broadcast in 20/21. Sali Mali, Sol, and Byd Tadcu will appear within the Cyw service and Hei Hanes for children within the Stwnsh age bracket. This year's main strategic objective was to commission content to target the audience of children aged 13-16 with a focus on ambitious scripted projects. To this end, gaining YACF's support for two new drama series, Y Gyfrinach and Person/a was a notable and was a notable success.

In the field of Education and Learning, a package of KS2 resources was published to coincide with the history series Amser Maith Maith yn Ôl, in partnership with Canolfan Peniarth, Boom and the Welsh Government's Department for Education. The comprehensive resources are available on Hwb. An Education app for nursery children was launched, Antur Cyw, where children can learn while they play.





Dysgwyr  
Learners

Mae ein darpariaeth i ddysgwyr wedi elwa o gydweithrediad parod a pharhaus y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol eleni eto. Roedd Yr Wythnos, ein gwasanaeth newyddion i ddysgwyr yn parhau ar fore Sul, a chyfresi poblogaidd, mwy adloniannol fel Dan Do, Codi Pac, Y Sioe Fwyd ac Adre wedi ymddangos yn y brif amserlen. Bu ffrwd S4CdysguCymraeg yn effeithiol iawn wrth gynnig cynnwys ffurf fer i ddysgwyr o bob lefel ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys lefel mynediad. Ym Mawrth 2020, darlledwyd laith ar Daith, cyfres newydd am selebs yn dysgu Cymraeg. Denodd enwau fel Carol Vordeman, Ruth Jones, Scott Quinnell, Adrian Chiles a Colin Jackson gynulleidfa iach iawn yn yr oriau brig tra roedd yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol wedi creu sŵn ac ymgysylltu â chynulleidfa ehangach, newydd i S4C.

Our provision for learners has again benefited from the eager and ongoing co-operation of the National Centre for Learning Welsh. Yr Wythnos, our news service for learners, continued on Sunday mornings, and popular entertainment series such as Dan Do, Codi Pac, Y Sioe Fwyd and Adre have featured in the main schedule. The S4CdysguCymraeg stream proved very effective in offering short form content on social media to learners of all levels, including entry level. In March 2020, laith ar Daith, a new series about celebrities learning Welsh, was broadcast. It attracted names such as Carol Vordeman, Ruth Jones, Scott Quinnell, Adrian Chiles and Colin Jackson and enjoyed a very healthy audience at peak times while the social media campaign created noise and engaged a new, wider audience for S4C.

Gwylwyr 16-34 oed  
16-34-year-old viewers

Yn 2019/20 roedd Hansh yn allweddol wrth gynyddu gwyllo ymysg ein cynulleidfa 16-34. Cynyddodd Hansh ei ffigyrau gwyllo ac ymgysylltu ar bob cyfrif gyda munudau gwyllo yn cyrraedd 5.6m (+24%) dros y flwyddyn a sesiynau gwyllo yn 8.9m (+29%). Mae hyn heb gyfrif ffigyrau Instagram a dyfodd i dros 9000 o ddilynwyr ac sy'n gynyddol bwysig i gyrraedd yr oedran targed iau.

In 2019/20, Hansh was instrumental in increasing viewing figures among our 16-34 audience. Hansh increased its viewing and engagement figures in every regard, with viewing minutes reaching 5.6m (+24%) over the year and viewing sessions reaching 8.9m (+29%). This does not count Instagram's figures which grew to over 9,000 followers and is increasingly important in reaching the younger target age.

Er mwyn ceisio gwella ein darpariaeth cerddoriaeth ac apelio at gynulleidfa ehangach, lansiodd brand newydd Lŵp ochr yn ochr gyda'r gyfres deledu Curadur

In an attempt to enhance our music provision and appeal to a wider audience, the new brand Lŵp was launched alongside the television series Curadur.

Parhaodd ein cynllun hyfforddi newyddiadurwyr ar Hansh mewn partneriaeth gydag ITV Cymru Wales gan ddatblygu ymhellach gyda brand ei hun - Hansh Dim Sbin - adeg etholiadau San Steffan gan sefydlu ei hun fel brand pwysig i bobl ifanc, gyda gwybodaeth am y pandemig ac adroddiadau ar fudiad Black Lives Matter.

Our Hansh journalist training scheme continued in partnership with ITV Cymru Wales, developing further with its own brand - Hansh Dim Sbin - at the time of the Westminster elections, establishing itself as an important brand for young people, with information on the pandemic and reports on the Black Lives Matter movement.

Roedd dogfennau Hansh Ffoadur Maesglas a Sev: Ffasiwn ar y Dibyn yn enghreifftiau lle rhoddodd Hansh ffocws ar bynciau o bwys gyda Pa Fath o Bobl...Patagonia a Cymry Feiral yn rhoi cyfle i fwynhau comedi mwy estynedig ar Hansh a phrofi bod awch am gynnwys sydd yn mynd tu hwnt i gyfryngau cymdeithasol.

Hansh's documentaries, Ffoadur Maesglas and Sev: Ffasiwn ar y Dibyn were examples of Hansh shining a light on major topics, with Pa Fath o Bobl... Patagonia and Cymry Feiral providing an opportunity to enjoy more extended comedy on Hansh and proving that there is an appetite for content that goes beyond social media.



Mewn Cyfng  
Gyngor

Adre

Chwaraeon  
Sports

Bu'n flwyddyn fawr ym myd chwaraeon yng Nghymru a gwnaethpwyd y mwyaf ohoni ar S4C. Gyda hawliau i ddarlledu'r gemau yn Gymraeg, darlledwyd pob gôl a phob cyfle a gafwyd gan dîm pêl droed Cymru yn gemau rhagbrofol Ewrop eleni. Cawsom hefyd ddilyn tîm rygbi cenedlaethol Cymru pob cam o'r ffordd i'r rownd gynderfynol yn Siapan yng ngorneist Cwpan Rygbi'r Byd, gan brofi eto eleni mai S4C yw cartref chwaraeon y genedl.

Gwelsom y Cymro Geraint Thomas y mynd ati i amddiffyn ei deitl yn y Tour de France eleni fel rhan o dîm Ineos. Roedd S4C yno hefyd ar hyd ffyrdd yr Eidal ar gyfer ras seiclo eiconig arall, y Giro D'Italia.

A new short-form strand for learners from beginners upwards launched in 2019/20. Contemporary content is released on a weekly basis and made available on YouTube. The content is cross promoted by partners, with over 270,000 viewing sessions. During the year, the Centre has continued to develop contemporary lessons around S4C content such as Bang. S4C's well-being series Ffit Cymru was broadcast in April 2020, with a new podcast for learners to familiarise themselves with the series made available beforehand.

For the first time, S4C also worked with the Centre to develop resources to support teachers and pupils at English-medium schools to learn with the children's history series Amser Maith, Maith yn Ôl.

With several high-profile celebrities learning Welsh during the year for Iaith ar Daith before broadcast in April 2020, S4C also worked with Say Something in Welsh. A social media clip of Iaith ar Daith's Carol Vorderman presenting the weather in Welsh released in March 2020 had over 600,000 viewing sessions.

Canfu Arolwg Tracio Delwedd S4C fod gwylwyr S4C sy'n siarad Cymraeg o'r farn fod S4C yn sianel sy'n: **S4C's Image Tracking Survey found that S4C's Welsh speaking viewers believe that S4C is a channel that:**



2019/20	87%
2018/19	84%

**Darparu gwasanaeth cefnogol da i'r rhai hynny sy'n dysgu Cymraeg**  
**Provides a good support service for Welsh learners**



2019/20	61%
2018/19	54%

**Yn fy ngwneud yn fwy hyderus yn fy nefnydd o'r Gymraeg**  
**Makes me more confident in my use of the Welsh language**



2019/20	68%
2018/19	63%

**Wedi gwella fy nealltwriaeth o eiriau Cymraeg**  
**Has improved my understanding of Welsh words**

(Ffynhonnell: Arolwg Tracio Delwedd S4C - Gwylwyr sy'n siarad Cymraeg, Beaufort Research, 2020)  
 (Source: S4C Image Tracking Survey - Welsh speaking viewers, Beaufort Research, 2020)





**Sicrhau bod gwasanaethau S4C yn darparu gwerth am arian i'r gynulleidfa.**  
**Ensure that S4C's services provide value for money to the audience.**

Mae S4C yn anelu i sicrhau fod y canran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar a gwasanaethau sy'n gymharus o ran ansawdd gyda chynnwys rhaglenni rhwydwaith eraill y DU, tra'n sicrhau ar yr un pryd fod rhaglenni yn cael eu cynhyrchu yn y modd mwyaf effeithlon a bod cost gorbenion S4C yn parhau yn isel.

Gwerth am arian yw'r berthynas rhwng cost a pherfformiad S4C fel gwasanaeth ac fel sefydliad. Ar gyfer darlledwr cyhoeddus, mae hyn yn golygu darparu gwasanaeth cynhwysfawr o safon uchel ar deledu a chyfryngau digidol sy'n cael ei ddefnyddio a'i werthfawrogi gan y gynulleidfa, gan wneud hynny mewn modd effeithlon o ran y defnydd o adnoddau ariannol. Blaenoriaeth gyntaf S4C yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel, ar deledu ac ar lwyfannau digidol perthnasol, sy'n cwrdd ag anghenion ei gynulleidfa. Mae hefyd yn bwysig i sicrhau fod y buddsoddiad yng ngwasanaethau S4C yn rhoi gwerth priodol am arian. Mae'n amcan strategol i sicrhau bod y ganran uchaf posibl o incwm cyhoeddus S4C yn cael ei wario ar raglenni a chynnwys.

Elfen arall o hyn yw sicrhau fod costau rhedeg sefydliad S4C yn parhau i fod yn ganran fechan o wariant S4C. Mae S4C wedi sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac ariannol dros y blynyddoedd diweddar ac wedi gweithio'n galed yn sgil gostyngiadau cyllidol dros y degawd diwethaf i leddfu'r effaith ar ei gwasanaethau.

Yn ogystal â gosod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer buddsoddiad S4C mewn rhaglenni a chynnwys, ac felly sicrhau perfformiad ariannol S4C, mae'r Bwrdd hefyd am sicrhau fod y buddsoddiad hwn yn dwyn ffrwyth, ac yn apelio at gynulleidfa eang yng Nghymru, trwy'r DU a thu hwnt i hynny.

S4C aims to ensure that the highest possible percentage of its public income is spent on content and services that are comparable in terms of quality with those of other UK networks, whilst ensuring programmes are produced in the most efficient way and that S4C's overheads remain low.

Value for money is the relationship between S4C's cost and performance as a service and as an organisation. For a public service broadcaster, this means providing a high quality, comprehensive service on television and online platforms that is used and valued by the audience, and doing so efficiently in terms of the financial resources available. S4C's first priority is to provide high quality services, on television and on relevant online platforms, which meet the needs of the audience. It is also important to ensure that the investment in S4C's services ensures appropriate value for money. It is a strategic objective to ensure that the highest possible percentage of S4C's public income is spent on programmes and content.

Ensuring that S4C's running costs as an organisation continue to be a small percentage of S4C's spending is another aspect of this objective. S4C has delivered significant efficiencies and cost savings over recent years and has worked hard in the face of budget reductions over the last decade to minimise the impact on its services.

In addition to setting priorities and targets for S4C's investment in programmes and content, and thus securing S4C's financial performance, the Board also wishes to ensure that this investment bears fruit, and appeals to a wide audience in Wales, throughout the UK and further afield.

Mae sicrhau Gwerth am Arian yn flaenoriaeth bwysig iawn i S4C.  
**Ensuring Value for Money is a very important priority for S4C.**

### Sut i fesur Gwerth am Arian

Mae S4C yn defnyddio nifer o ddulliau o asesu'r gwerth am arian y mae yn ei gyflawni, gan gynnwys:

- Perfformiad ariannol a ffigyrau gwyllo;
- Dosraniad gwariant S4C, gan gynnwys gorbenion;
- Asesiad o gost cynnwys S4C fesul awr;
- Cost y gwylwr yr awr a chost darparu'r gwasanaeth i'r gwylwyr fesul wythnos;
- Effaith economaidd S4C; a
- Buddsoddiad S4C ar draws Cymru.

### How to measure Value for Money

S4C uses a number of methods of assessing the value for money it achieves, including:

- Financial performance and viewing figures;
- Distribution of S4C's spending, including overheads;
- Assessment of S4C's content cost per hour;
- Cost per viewer hour and cost of providing the service to the audience per week;
- S4C's economic impact; and
- S4C's investment across Wales.






**Blaenoriaethu gwariant ar raglenni a chynnwys - dosraniad gwariant S4C**  
**Prioritising spending on programmes and content - allocation of S4C's expenditure**

Buddsoddir y rhan fwyaf o gyllid cyhoeddus S4C mewn rhaglenni a chynnwys. Mae dosraniad gwariant Cronfa Gyhoeddus S4C yn ystod 2019/20 yn dangos fod mwyafrif gwariant S4C yn parhau i gael ei fuddsoddi'n uniongyrchol yn rhaglenni a chynnwys S4C, sef buddsoddiad yn y ddarpariaeth ar gyfer y gynulleidfa a buddsoddiad yn y sector gynhyrchu yng Nghymru.

Most of S4C's public finance is invested in programmes and content. The allocation of S4C's Public Service Fund during 2019/20 shows that the majority of S4C's expenditure continues to be directly invested in S4C's programmes and content, which represents both investment in the services provided for the audience and investment in the production sector in Wales.

Rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C Programmes commissioned by S4C	79.5%
Costau'n ymwneud â'r gwasanaeth rhaglenni Costs associated with the programme service	16.6%
Costau gweithredu a gweinyddu Operating and administration costs	3.9%



Ceir rhagor o wybodaeth am wariant S4C yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn y Datganiad Ariannol.  
 More information on S4C's expenditure can be found in the Consolidated Statement of Comprehensive Income in the Statement of Accounts.





## Costau Cynhyrchu Rhaglenni S4C S4C Production Costs

Gwerth  
Value


Trwy weithio'n agos gyda chynhyrchwyr i leihau cost cynhyrchu pob awr o gynnwys, mae S4C wedi llwyddo i warchod nifer yr oriau a darledwyd, yn ogystal ag ystod ac amrywiaeth y gwasanaeth. Mae costau cynhyrchu rhaglenni S4C fesul awr yn parhau i fod yn isel iawn o'u cymharu gyda chostau darledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill sy'n darparu gwasanaethau ar draws y DU.

By working closely with producers to lower the cost of producing each hour of content, S4C has managed to protect the number of hours that are broadcast, as well as the range and variety of the service. The cost per hour of producing S4C's programmes remains very low compared to the other public service broadcasters that provide services across the UK.

Mae'r ffigurau isod yn net o TAW.

The figures below are net of VAT.

Cost yr awr - rhaglenni a gomisiynwyd gan S4C  
Cost per hour - programmes commissioned by S4C





## Effaith Economaidd S4C S4C's Economic Impact

**Mae darparu gwerth am arian hefyd yn golygu sicrhau fod buddsoddiad S4C yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru yn cael yr effaith economaidd fwyaf posibl.**

**Mae'r buddsoddiad sylweddol sy'n cael ei wneud gan S4C yn ei dro yn creu swyddi mewn cwmnïau a'r gadwyn gyflenwi ar draws Cymru.**

O gyfresi tymor hir fel ein opera sebon Rownd a Rownd sydd wedi creu cnewyllyn creadigol ym Mhorthaethwy, i Prynghawn Da a Heno - ein rhaglenni cylchgrawn o Lanelli - i ardrwyddiad sylweddol dramâu gwreiddiol a gaiff eu ffilmio ar leoliadau ar draws Cymru, caiff cynrychiadau S4C effaith economaidd sylweddol.

**Providing value for money also means ensuring that S4C's investment in the creative industries in Wales has the greatest economic impact.**

**The significant investment made by S4C in turn creates jobs in companies and the production chain across Wales.**

From long-term series such as our soap opera, Rownd a Rownd, that has created a creative hub in Menai Bridge, to Prynghawn Da and Heno - our magazine programmes from Llanelli - to the significant impact of original dramas that are filmed on locations across Wales, S4C's productions have a substantial economic impact.



Adroddwyd nifer o flynyddoedd yn ôl, bod pob £1 sy'n cael ei wario gan S4C gyda chwmnïau annibynnol a chyflenwyr eraill yn mwy na dyblu yn ei werth, gan greu gwerth o £2.09 i'r economi. Mae S4C yn bwriadu diweddarau'r ymchwili yma yn ystod y flwyddyn nesaf.

Yn ogystal ag effaith economaidd sylweddol yng Nghymru a'r DU, mae gwaith S4C hefyd yn gyfrifol am greu refeniw trethi sylweddol sy'n cael ei dalu i'r Trysorlys gan gwmnïau ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau i S4C a'r cwmnïau cynhyrchu.

Mae ymchwili a gynhaliwyd yn y gorffennol yn amcangyfrif fod cyfraniadau treth uniongyrchol ac anuniongyrchol yn sgîl gweithgareddau craidd S4C yn £39m y flwyddyn. Roedd hyn gyfystyr â dychwelyd £0.51 ar gyfer bob £1 o holl wariant S4C i'r Trysorlys, naill ai mewn cyfraniadau treth uniongyrchol neu anuniongyrchol.

Research undertaken some years back found that every £1 that S4C spends with independent production companies and other suppliers in turn more than doubles to create an impact of £2.09 within the economy. S4C intends to update this research in the coming year.

As well as a significant economic impact in Wales and the UK, S4C's work is also responsible for creating significant tax revenues paid to HM Treasury by companies and individuals providing services to S4C and the production companies.

Past research estimated that direct and indirect tax contributions from S4C's core activities was £39m per annum. This equated to a return of £0.51 for every £1 of S4C's total expenditure to HM Treasury, either in direct or indirect tax contributions.

Gwerth  
Value

## S4C yn cyfrannu at refeniw trethi - Effaith Ffiscal S4C contributes to tax revenues - Tax Effect





## Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru S4C's investment in content from companies across Wales

Mae S4C yn buddsoddi ac yn comisiynu cynnwys gan gwmnïau cynhyrchu ar draws Cymru, gan gynnwys yng Nghaernarfon, Llanelli, Abertawe a Chaerdydd.

O ganlyniad, mae effaith economaidd S4C yn cael ei lledaenu mewn cymunedau yng ngogledd, gorllewin, a de ddwyrain Cymru. Mae cwmnïau cynhyrchu yn cael effaith sylweddol ar eu heconomiâu lleol a thu hwnt i'w dalgylch wrth i gynrychiadau deithio'r wlad i ffilmio cynnwys sy'n adlewyrchu Cymru. Mae'r cwmnïau cynhyrchu hefyd yn cyfrannu at weithlu medrus iawn sy'n sail i sector gynhyrchu o'r radd flaenaf yng Nghymru sy'n denu cynhyrchiadau teledu, ffilm a chynnwys digidol o wledydd ledled y byd.

Fel y soniodd Yr Athro Ian Hargreaves unwaith wrth adolygu'r sector yng Nghymru:

*"Without S4C, Wales may well not have any independent television production companies at all. Almost all the Welsh indies have their roots in making programmes for S4C and they are spread across Wales in a way that has helped to broaden the geographic base of the Welsh creative industries sector".*

(Mae'r data isod yn berthnasol i leoliad swyddfeydd y cwmnïau cynhyrchu, ac nid yw'n adlewyrchu gweithgaredd cynhyrchu neu wariant mewn lleoliadau ar draws Cymru)

S4C invests and commissions content from production companies across Wales, including Caernarfon, Llanelli, Swansea and Cardiff.

As a result, S4C's economic impact is spread in communities in north, west and south east Wales. Production companies have a significant impact on their local economies and beyond their catchment area as productions travel the country to film content that reflects Wales. The production companies in Wales also contribute to a highly-skilled workforce that underpins a world-class screen sector which attracts productions from around the world.


As Professor Ian Hargreaves' once commented in reviewing the sector in Wales:

(The data below relates to the location of production company offices, and does not reflect production activity or expenditure in locations across Wales)

### Gwariant Rhanbarthol Regional Spending

2019/20

Gogledd Cymru North Wales (2018/19: 26%)	28%
De Cymru South Wales (2018/19: 54%)	50%
Gorllewin Cymru West Wales (2018/19: 18%)	19%
Tu allan i Gymru Outside Wales (2018/19: 2%)	3%
Cyfanswm Total	100%



Gwerth  
Value

## Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru S4C's investment in content from companies across Wales

**Mae S4C yn falch iawn o'r bartneriaeth greadigol sy'n bodoli gyda'r sector gynhyrchu annibynnol.**

Mae ystod eang o gwmnïau, partneriaid creadigol a sefydliadau yn cydweithio gydag S4C er mwyn darparu amrywiaeth o gynnwys safonol a phoblogaidd ar draws ein platfformau. Mae'r rhestr isod yn nodi'r cwmnïau cynhyrchu, partneriaid creadigol, sefydliadau cenedlaethol a mudiadau a gydweithiodd gydag S4C yn ystod y flwyddyn i ddarparu cynnwys a ddarlledwyd ar wasanaeth S4C.

**S4C is very proud of the creative partnership that exists with the independent production sector.**

A wide range of companies, creative partners and organisations work with S4C to provide a great variety of high quality and popular content across our platforms. The list below sets out the production companies, creative partners and organisations that collaborated with S4C during the year to provide content for S4C's service.

### Partneriaid yn y sector gynhyrchu annibynnol Independent production sector partners

Ab Droits Audiovisuels	Eisteddfod Genedlaethol Cymru	Olobob Top
Acamar Films	Entertainment One UK	Orchard Media & Events Group
Aden Productions	European Broadcasting Union	Phil McIntyre Television
Amaury Sport Organisation	Eurosport SAS	Playbook International GmbH & Co.
Antena	Ffilmiau Twm Twm	Reach Publishing Services
Atebol	Fiction Factory	Red Seam
Avanti Media	Freewheeling Films	Rondo Media
Awen Media	Fresh Catch Films	Rugby World Cup
Awesome Media & Entertainment	GSN International	Sain
Baich	Hoho Rights	Sali Mali 2
Blacklight Television Limited	IB Tournaments (World Rugby)	Severn Screen
Blue Spirit Productions	le le Productions	Sgrech Cyf
Boom Pictures Productions	Illuminated Productions	Sky UK
British Broadcasting Corporation	IMG Media	Slam Media
Cake Distribution	It's My Shout Productions	South Wind Blows
Captain Jac	ITV Broadcasting	Sports Management Europe
Carlam	Joio	Sports Media Services
Celtic Rugby	Kailash Films	Sugar Films
Chwarel	Keeping Faith Productions	Sunset & Vine Productions
Cloudco Entertainment	Keshet Productions UK	Tarian
Craith 2	Kreu Media	Telesgop
Cwmni Da	Lefel Dau	The Scottish Professional Football League
Cwmni THR	Lens 360	Tinopolis
Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru	Lineup Industries B.V.	Triongl
Cymdeithas Cerdd Dant Cymru	Little Bird Films	Unigryw
Cynrychiadau Alpha Productions	Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Urdd Gobaiith Cymru
Cynrychiadau Hay	Media Atom	Viacom International Inc
Cynrychiadau Twt Productions	Men Who Sing	Vox Pictures
Darlun Cyf	Mr Tonken	Wes Gleis
Dearheart Productions	Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru	Whisper Films
DocShed	NHK (Nippon Hoso Kyokai)	Wildflame Productions
Dreamteam Television	Nimble Dragon	Zwmm Films

## Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru

### S4C's investment in content from companies across Wales

#### Telesgop

## Ffermio

Ffermio yw cyfres hynaf y cwmni ac mae'n cael ei darlledu ar S4C ers 1997. Mae'r rhaglen wythnosol boblogaidd hon yn canolbwyntio ar faterion cefn gwlad, ac mae'n gyson yn denu rhai o gynulleidfaedd mwyaf y sianel. Mae ganddi hefyd gynulleidfa gynyddol yn Saesneg. Mae'r rhaglen yn rhan unigryw o ddarpariaeth S4C gan mai hon yw'r unig raglen materion cefn gwlad sydd ar ôl sy'n seiliedig yng Nghymru.

Er ei fod yn ffilmio ar hyd a lled y wlad, mae cwmni cynhyrchu Telesgop yn seiliedig ar gyrion Abertawe. Yn economaidd mae'n darparu cyfleoedd gwaith i 28 aelod o'r staff, a thua 80% o'r rheiny'n byw yng ngorllewin Cymru. Mae'r gwaith cynhyrchu hefyd yn defnyddio nifer o weithwyr llawrydd yn rheolaidd.

Y rhaglen Ffermio yw asgwrn cefn y cwmni ac mae wedi galluogi Telesgop i adeiladu capasiti sydd, yn ei dro, wedi ei alluogi i ymgeisio am gomisiynau teledu eraill. Yn ogystal â'i waith i S4C, mae Telesgop yn cynhyrchu rhaglenni dogfen teledu a radio i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill ledled y DG ac yn rhyngwladol. Mae hefyd yn darparu cynnwys corfforaethol/addysgol ar gyfer amrywiol gyrrff a phlatformau ar-lein.

Fel sy'n cael ei gydnabod yn strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith dros y degawdau nesaf, mae'r cymunedau amaethyddol yn bwysig i'r iaith Gymraeg. Mae i'r rhaglen Ffermio swyddogaeth bwysig wrth roi i'r cymunedau hyn blatfform i gael eu portreadu yn y cyfryngau ac i siarad â'i gilydd fel diwydiant amaethyddol sy'n wynebu newidiadau a dylanwadau byd-eang. Mae ymchwil cynulleidfaedd yn dangos bod cynulleidfaedd ledled Cymru a thu hwnt yn gwyllo'r gyfres.

The company's longest-running series 'Ffermio', has been broadcast on S4C since 1997. This popular weekly programme focuses on rural affairs, consistently draws some of the channel's biggest audiences and has an expanding English language audience. The Ffermio programme is a unique part of S4C's provision in that it's the only remaining Wales-based rural affairs programme.

Whilst filming occurs across the nation, the production company, Telesgop, is based on the outskirts of Swansea. Economically, it provides work opportunities for 28 members of staff, and about 80% of those live in west Wales. The production also uses a number of freelance workers regularly.

Ffermio is the backbone of the company and has enabled Telesgop to build internal capacity which, in turn, has enabled it to apply for other commissions. As well as its work for S4C, Telesgop produces television and radio programmes for other PSBs and corporate/educational content for various organisations.

As is recognised in Welsh Government's strategy for promoting the Welsh language and increasing the number who speak the language over the next decades, the agricultural communities are important to the Welsh language. Ffermio has an important function in giving these communities a platform to be portrayed in the media and to speak with each other as an agricultural industry facing change and world-wide influences. Audience research shows that the series is viewed by audiences across Wales and beyond.



## Tinopolis

# Prynhawn Da and Heno

Rhaglenni byw dyddiol sy'n cael eu cynhyrchu gan Tinopolis yw Heno a Prynhawn Da. Y lleoliadau cynhyrchu yw Llanelli a Caernarfon a bydd ffilmio a chyfraniadau byw o bob rhan o Gymru a'r tu hwnt. Mae'r rhaglenni'n blatfformau ac yn gyfleoedd ar gyfer storïau, achosion a phobl ym mhob rhan o Gymru.

Gyda'i bencadlys yn Llanelli, mae Tinopolis wedi tyfu i fod yn un o'r cwmnïau cynhyrchu annibynnol mwyaf yn y byd. Mae bob amser wedi cydnabod ei ddyled i S4C, ac mae'n ffyddiog mai gweithio yn Gymraeg gydag S4C oedd sail ei lwyddiant. Mae'r effaith economaidd yn sylweddol. Gyda 120 o aelodau staff yng nghanol Llanelli, mae'n un o'r cyflogwyr mwyaf yn y dref. Mae Tinopolis yn darparu cyfleoedd gwaith mewn cymuned ddifreintiedig a thrwy gyfrwng y Gymraeg. Oherwydd presenoldeb a buddsoddiad y cwmni yn ochr ddwyreiniol Llanelli, mae datblygiadau pellach wedi bod gan eraill yn yr ardal.

Mae gan y cwmni dim llai yng Nghaernarfon sydd â'r swyddogaeth allweddol o bortreadu cymunedau ym mhob rhan o Gymru. Rhwng y ddau leoliad, mae Tinopolis yn falch o'i record o hyfforddi ei weithlu, a dechreuodd nifer o weithwyr llawrydd y sector yng Nghymru eu gyrfaoedd gyda'r cwmni.

Mae'r cwmni a'i bobl wedi dod yn rhan hanfodol o'r gymuned ehangach yn Llanelli ac ar draws Sir Gaerfyrddin. Mae'n cynnig cyfleoedd rheolaidd i bobl, ysgolion a sefydliadau lleol gael profiad o gynhyrchu teledu, ac mae'n cynorthwyo nifer o achosion da ac elusennau lleol i godi arian ac i gynyddu ymwybyddiaeth. Mae'r cwmni hefyd yn cynnig ysgoloriaeth ar y cyd â BAFTA sy'n cynnwys noddi myfyriwr gradd a phrofiad gwaith gyda Tinopolis.

Prynhawn Da and Heno are magazine programmes produced by Tinopolis. The production location is Llanelli and Caernarfon with filming and live contributions from across Wales. The programmes are platforms and opportunities for stories, causes and people throughout Wales.

With its headquarters in Llanelli, Tinopolis has grown to become one of the biggest independent production companies in the world. It has always acknowledged its debt to S4C and believes that working in Welsh for S4C was the foundation of its success. The economic impact is substantial. With 120 members of staff in the middle of Llanelli, Carmarthenshire, it's one of the biggest employers in the town. Tinopolis provides work opportunities in a disadvantaged community and through the medium of Welsh. The company's presence and investment in the eastern side of Llanelli has led to further developments in the area by others.

The company has a smaller team in Caernarfon playing a key role in portraying communities in every part of Wales. Across the two locations, Tinopolis is proud of its record of training its workforce with a number of freelance workers in the sector in Wales having begun their careers with the company.

The company is an active part of its community in Llanelli and more extensively in Carmarthenshire. It offers regular opportunities for local people to experience the processes of producing television programmes, but also assists many good causes and local charities to fundraise and to increase awareness. The company also offers a joint scholarship with BAFTA which includes sponsoring a post-graduate student and work experience with Tinopolis.



## Darlun TV

# Darlun TV

Cwmni cynhyrchu teledu sydd wedi ennill nifer o wobrau yw Teledu Darlun ac mae wedi ei leoli yng Nghaernarfon. Mae Darlun wedi creu enw da iddo'i hun am ffurfiau teledu arloesol sy'n gosod pobl wrth galon ei raglenni. Mae'n arbenigo yn ffeithiol, adloniant ffeithiol a rhaglenni adloniant, ac mae wedi ymwneud â rhai o raglenni mwyaf llwyddiannus S4C yn y blynyddoedd diwethaf, fel Gwesty Aduniad, Helo Syrjeri ac Ysgol Maesincla: Ysgol Ni.

Sefydlwyd Teledu Darlun yn 2014, ac mae'r cwmni wedi tyfu ac ehangu flwyddyn ar ôl blwyddyn i fod yn un o'r cynhyrchwyr teledu annibynnol sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru.

Caiff cyfran uchel o gyllidebau cynhyrchu eu gwario'n lleol, ac mae Darlun wedi bod yn llwyddiannus iawn wrth greu partneriaethau gyda busnesau lleol a sefydliadau cyhoeddus dros y blynyddoedd. Crëwyd cryn effaith gan un fformat teledu a grëwyd gan Darlun, sef Hen Blant Bach, a dyfodd allan o bartneriaeth gyda Phrifysgol Cymru Bangor. O ganlyniad crëwyd swydd ymchwil ôl-ddoethuriaeth ar y cyd gan y Brifysgol a Darlun er mwyn hyrwyddo gwaith ymchwil ar effaith gofal rhwng y cenedlaethau mewn cymdeithas.

Dair blynedd yn ôl buddsoddodd Darlun mewn system rig camera sefydlog, gan wneud y dechneg gynhyrchu hon yn un y gellid ei fforddio gyda chyllidebau mwy heriol i ddarlledwyr. Erbyn hyn mae cynrychiadau sy'n defnyddio system ffilmio rig sefydlog yn asgwrn cefn i waith y cwmni. Mae gan Darlun bedwar o staff craidd ond mae'n defnyddio gweithwyr llawrydd lleol ar gyfer ei brosiectau, gan ddarparu gwaith i fwy na 40 o staff llawrydd.

Yn ogystal ag S4C, mae Darlun hefyd yn gweithio gyda darlledwyr eraill yn y Deyrnas Unedig ynghyd â dosbarthwyr rhyngwladol fel SONY TV, All3Media ac Orange Smarty.

Darlun TV is a multi-award winning television production company based in Caernarfon in north west Wales. Darlun has built a reputation for innovative TV formats that put people at the heart of its programmes. It specialises in factual, factual entertainment and entertainment programmes and has been behind some of S4C's most successful content in recent years such as Gwesty Aduniad, Helo Syrjeri and Ysgol Ni: Maesincla.

Darlun TV was established in 2014, and the company has grown and expanded year on year making it one of Wales' fastest growing independent television producers.

A high proportion of production budgets are spent locally, and Darlun has been very successful in creating partnerships with local private businesses and public institutions over the years. One impactful TV format created by Darlun, Hen Blant Bach was born out of a partnership with University of Wales Bangor and a post-doctorate research role was co-created by the university and Darlun to further the research on the impact of intergenerational care in society.

Three years ago, Darlun invested in a fixed camera rig setup, and made this production technique affordable on more challenging budgets for broadcasters. Productions using fixed rig filming is now the backbone of the company's work. Darlun has a small core staff of four employees, but engages local freelancers on its projects, providing work to upwards of 40 freelance staff.

In addition to S4C, Darlun also works with other UK broadcasters as well as international distributors like SONY TV, All3Media and Orange Smarty.



Bang yw cyfres ddrama S4C a gynhyrchwyd yn nhref dur Port Talbot ac sydd wedi ennill nifer o wobrau. Fe'i dosberthir yn rhyngwladol gan Banijay Rights i diriogaethau gan gynnwys Gogledd America, Sweden a Seland Newydd, ac mae'n arloesi drwy adlewyrchu amrywiaeth ieithyddol De Cymru ddiwydiannol.

Mae Joio, y cwmni cynhyrchu sy'n gyfrifol am y gyfres, wedi'i leoli dafliad carreg i ffwrdd yng Nghastell Nedd ac mae'n ymfalchïo mewn defnyddio gwasanaethau cwmnïau lleol, lle maent ar gael, ac mewn datblygu cysylltiadau ag ysgolion, colegau ac elusennau yn yr ardal. Mae'r gyfres yn darparu cyfleoedd cyflogaeth o safon yn y diwydiant drama mewn ardal sydd â lefel uchel iawn o amddifadedd economaidd a chymdeithasol. Cafodd 90% o gyllideb y cynhyrchiad o £2.3 miliwn ei gwario yng Nghymru a chrëwyd 65 o swyddi cynhyrchu llawrydd ochr yn ochr â'r 27 o rolau'r cast a channoedd o rolau artistiaid cefnogol.

Cynhaliodd Joio gynllun o'r enw Ffrwydro ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot gyda'r nod o ymgysylltu â disgyblion a myfyrwyr yn ystod y broses o gynhyrchu'r ail gyfres yn hydref 2019. Fel rhan o'r cynllun, ymwelodd aelodau'r tîm ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn yr ardal i hyrwyddo'r celfyddydau mynegiannol, gyrfaoedd yn y diwydiannau creadigol a mantais gallu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Ymwelodd myfyrwyr o ysgolion gan gynnwys Ysgol Gymraeg Bro Dur a Cholegau Castell-nedd Port Talbot â set y ddrama a threulio amser gydag awdur y sioe, dylunydd cynhyrchu, dylunydd gwisgoedd a dylunydd gwallt a cholur. O dan faner Ffrwydro, gwahoddwyd 22 o unigolion i leoliadau profiad gwaith a chysgodi, a chyda chyllid gan Lywodraeth Cymru trwy Cymru Greadigol, llwyddodd y gyfres i gyflogi 11 hyfforddai ar draws nifer o adrannau gan gynnwys golygu, camera, sain, gwisg a choluro.

Yn ail gyfres Bang gwelwyd ymdrech cyson gan Joio i wneud y gyfres mor gynaliadwy â phosibl. Arweiniodd mentrau gwyrdd a gynhaliwyd gan y criw i leihau ôl troed carbon y cynhyrchiad at ddyfarnu ardystiad Albert i'r gyfres am gynaliadwyedd ac mae wedi ennill enwebiad Gŵyl Deledu Caeredin i'r gyfres am ei Gwobr Werdd gyntaf.

Gwnaeth Bang ymrwymiad hefyd i wella iechyd meddwl ei weithwyr ac arloesodd drwy sicrhau bod cymorth cyntaf iechyd meddwl penodol ar gael yn ystod y cynhyrchiad.



Bang is S4C's award-winning drama series produced in the steel town of Port Talbot. It is distributed internationally by Banijay Rights to territories including North America, Sweden and New Zealand and innovates by reflecting the linguistic diversity of industrial South Wales.

Joio, the production company responsible for the series, is based a stone's throw away in Neath and prides itself on using the services of local companies, where available, and in developing relationships with local schools, colleges and charities in the area. The series provides high-end drama employment opportunities in an area of the country with a very high level of economic and social deprivation. 90% of the production's £2.3 million budget was spent in Wales and it created 65 freelance production positions alongside the 27 featured cast roles and 100s of supporting artist roles.

Joio ran a scheme called Ffrwydro in association with Neath Port Talbot County Borough Council which aimed to engage with school pupils and students during the production of the second series in Autumn 2019. The scheme saw members of the team visit primary and secondary schools in the area to promote the expressive arts, careers in the creative industries and the benefit of being able to use Welsh in the workplace. Students from schools including Ysgol Gymraeg Bro Dur and Neath Port Talbot Colleges visited the drama's set and spent time with the show's writer, production designer, costume designer and hair and make-up designer. Under the Ffrwydro banner, 22 individuals were invited to work experience and shadowing placements, and with funding from the Welsh Government through Creative Wales the series was able to employ 11 trainees across a number of departments including editing, camera, sound, costume and make-up.

The second series of Bang saw a concerted effort from Joio to make the series as sustainable as possible. Green initiatives undertaken by the crew to reduce the production's carbon footprint led to the series being awarded the Albert certification for sustainability and has won the series a coveted Edinburgh TV Festival nomination for its inaugural Green Award.

Bang also made a commitment to improve the mental health of its employees and innovated by having a dedicated mental health first aider available during the course of the production.

Buddsoddiad S4C mewn cynnwys gan gwmnïau ar draws Cymru  
S4C's investment in content from companies across Wales

▼  
Bang





## Croesawu pawb i wyllo S4C - Gwasanaethau Cymorth i'n cynulleidfa

Mae sicrhau bod cynnwys S4C ar gael i'r gynulleidfa ehangaf posib yn bwysig iawn i S4C.

**Mae gwasanaethau mynediad yn parhau i ddarparu modd bwysig i alluogi S4C i ehangu ei chynulleidfa a'i hapêl.**

**Mae isdeitlo yn Saesneg ac yn Gymraeg, ynghyd ag arwyddo, sain ddisgrifio a gwasanaethau disgrifiadol ail-sgrin yn cyfoethogi darpariaeth S4C ac yn sicrhau fod cynnwys ar gael i rai sydd ag anghenion penodol yn ogystal ag i gymuned ehangach o siaradwyr a dysgwyr Cymraeg o bob lefel rhuglder a'r di-Gymraeg.**

**Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn:**

### Isdeitlau Cymraeg

Mae'r isdeitlau hyn ar gael yn bennaf ar gyfer pobl fyddar a thrwm eu clyw sy'n a'r trwm eu clyw sy'n siarad Cymraeg yn ogystal â phobl sy'n dysgu siarad Cymraeg. Darparwyd isdeitlau Cymraeg ar 25 awr o raglenni bob wythnos ar gyfartaledd, cynnydd o'r 10-12 a ddarparwyd yn y gorffennol. Mae isdeitlau Cymraeg a Saesneg hefyd ar gael ar wasanaeth S4C Clic.

### Isdeitlau Saesneg

Bwriad y gwasanaeth hwn yw ehangu apêl y rhaglenni ar gyfer gwylwyr di-Gymraeg, pobl fyddar a phobl trwm eu clyw. Trwy wasgu'r botwm "isdeitlau" ar y teclyn rheoli, gellir gweld isdeitlau ar gyfer pob math o raglenni, gan gynnwys rhaglenni byw. Caiff rhai rhaglenni eu darlledu gydag isdeitlau agored. Fel arfer, ailddarllediadau o raglenni poblogaidd yw'r rhain. Yn ystod y flwyddyn roedd isdeitlau Saesneg ar gael ar 73.96% o'r rhaglenni (targed Ofcom yw 53%).

### Sain Ddisgrifio

Mae'r gwasanaeth Sain Ddisgrifio ar rai rhaglenni yn rhoi sylwebaeth, trwy ddewis, yn y Gymraeg i lenwi'r cyfnodau pan nad oes unrhyw ddeialog mewn rhaglenni. Mae'n cynnwys disgrifiad ychwanegol i gynorthwyo defnyddwyr dall neu rhannol ddall i ddilyn rhaglenni'n haws. Darparwyd y gwasanaeth hwn ar gyfer 10.26% o'r rhaglenni - (targed Ofcom yw 10%).

### 'Arwyddo' rhaglenni

Cafodd rhai rhaglenni, fel arfer ar y penwythnos ac amser cinio yn ystod yr wythnos, eu harwyddo yn BSL (British Sign Language) ar gyfer gwylwyr byddar a'r rhai sy'n defnyddio iaith BSL. Roedd y gwasanaeth ar gael ar 6.66% o raglenni (targed Ofcom yw 5%).

### Llinell gymorth 'Gwifren Gwylwyr'

Mae modd i'n gwylwyr gysylltu'n uniongyrchol gydag S4C drwy ffonio, e-bostio, gysylltu ar gyfryngau cymdeithasol neu anfon llythyr at y Wifren Gwylwyr. Mae manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr ar gael yng nghefn yr adroddiad hwn. Mae'r gwasanaeth ar gael o 9.00 tan 22.00 saith diwrnod yr wythnos.

## Welcoming everyone to watch S4C - Support Services for our audience

Making S4C's content available to the widest possible audience is very important to S4C.

**Access services continue to provide an important means to enable S4C to expand its audience and its appeal.**

**Subtitling in Welsh and English, together with signing, audio description and descriptive second-screen services enhance S4C's offering and make content available to those with particular needs as well as to a wider community of Welsh speakers, non-Welsh speakers and learners of all levels of fluency.**

**The following services were provided during the year:**

### Welsh subtitles

These subtitles are provided primarily for people who are deaf or have hearing loss who understand Welsh as well as for people learning to speak Welsh. Welsh language subtitles were provided on 25 hours of programmes a week on average, an increase from 10-12 hours in previous years. Welsh language and English language subtitles are also available on the S4C Clic service.

### English subtitles

The aim of this service is to enhance the appeal of programmes to non-Welsh speaking, and deaf and hard of hearing viewers. By pressing the "subtitle" button on the remote control, subtitles can be accessed on all kinds of programmes, including live programmes. Some programmes were broadcast with automatic on-screen subtitles. These are usually repeats of popular programmes. During the year, subtitles were available on 73.96% of programmes (Ofcom's Target is 53%).

### Audio Description

The Audio Description service on selected programmes provides a commentary in Welsh to fill the gaps during periods when there is no dialogue in programmes. It includes additional description that assists blind or partially sighted users. The service was provided on 10.26% of programmes (Ofcom's target is 10%).

### Signing

A number of programmes, usually at weekends and lunchtime during the week, are broadcast with BSL (British Sign Language) for deaf viewers and those who use BSL. The service was available on 6.66% of programmes (Ofcom's Target is 5%).

### Gwifren Gwylwyr (Viewers' Hotline)

Our viewers can contact S4C directly by either phoning, emailing, contacting via social media or sending a letter to Gwifren Gwylwyr. Gwifren Gwylwyr's contact details are available at the back of this report. The service is available from 9:00 until 22:00 seven days a week.

## S4C yn gwranddo ar ein gwylwyr

Mae sicrhau trafodaeth a pherthynas reolaidd gyda'r gynulleidfa yn bwysig iawn i waith S4C.

**Ceir trafodaeth drwy gydol y flwyddyn gyda'r gynulleidfa am raglenni S4C ar gyfryngau cymdeithasol a gyda Gwifren Gwylwyr, llinell gymorth S4C.**

**Yn ystod 2019/20 cynhaliwyd nifer o weithgareddau ledled Cymru er mwyn rhoi cyfle i'r gynulleidfa fod yn rhan o arlwy S4C a mynegi barn am wasanaethau S4C.**

## S4C listening to our viewers

Ensuring a regular dialogue and relationship with the audience is very important to S4C.

**The audience engages throughout the year in a discussion about S4C's programmes on social media and with Gwifren Gwylwyr, S4C's viewers' helpline**

**During 2019/20 a range of events were held across Wales to give the audience an opportunity to be involved in S4C's provision and a chance to voice their opinions about S4C's service.**

30,000

Daeth mwy na 30,000 o aelodau'r gynulleidfa i ddiwyddiadau cyhoeddus S4C a chafwyd 201,110 o geisiadau i gystadlaethau rhyngweithiol.

**More than 30,000 audience members attended S4C's public events, and interactive competitions attracted 201,110 entries.**

10,276

Cafwyd 10,276 o gysylltiadau gydag S4C drwy gyfrwng y Wifren yn 2019/20. Roedd tua 4,584 o'r rhain yn canmol rhaglenni tra bod 850 yn gwynion am gynnwys o rhyw fath.

Cafwyd pob un o'r cwynion yma eu delio gydag a'u datrys gydag ymatebion o'r Wifren Gwylwyr. Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion mewn perthynas â chynnwys i'r Pwyllgor Cwynion yn ystod 2019/20.

Mae tîm Gwifren Gwylwyr S4C yn gweithio yn swyddfa S4C yng Nghaernarfon bob dydd o'r flwyddyn. Mae'r holl sylwadau sy'n ein cyrraedd am gynnwys a gwasanaethau S4C yn cael eu logio a'u cadw. Mae'r tîm yn darparu crynodeb o'r sylwadau ar gyfer Comisiynwyr ac aelodau'r Bwrdd, ac mae'r crynodeb yn cael eu hystyried pob mis.

**10,276 contacts were received by S4C's Gwifren Gwylwyr in 2019/20. Of these around 4,584 were complimentary about programmes while 850 were complaints of some form about content.**

**All of these complaints were dealt with and resolved with responses issued by the Viewers Hotline. During 2019/20 no complaints in relation to content were referred to the Complaints Committee.**

**The Gwifren Gwylwyr (Viewers' Hotline) team works in S4C's office in Caernarfon every day of the year. Every comment received about programmes and services are logged and stored. The team prepares a summary of comments received for Commissioners and members of the Board and these are considered on a monthly basis.**

Sesiwn Facebook live gyntaf yn Mawrth 2020  
First ever Facebook live session in March 2020

Mae Nosweithiau Gwylwyr yn chwarae rhan bwysig yng ngweithgareddau cyfathrebu S4C, ac yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd noson gwylwyr yn Llanrwst. Oherwydd y tywydd ofnadwy a'r llifogydd yn ystod Chwefror 2020, penderfynwyd gohirio'r noson gwylwyr ym Mhontypridd. Penderfynwyd hefyd gohirio noson gwylwyr yn Aberystwyth ym mis Mawrth 2020 oherwydd pandemig Covid-19. Cynhaliodd Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cynnwys S4C eu sesiwn Facebook Live gyntaf erioed yn lle ar 18 Mawrth 2020.

**Viewers' Evenings play an important part within S4C's communication activities and, during the year a viewers' evening was held in Llanrwst. Due to the awful weather and flooding during February 2020, S4C decided to postpone the viewers' evening in Pontypridd. The viewers' evening scheduled for Aberystwyth in March 2020 was also postponed because of the Covid-19 pandemic. Instead, the Chief Executive and Content Director held S4C's first ever Facebook live session on 18 March 2020.**

1,400

Mae gan S4C Banel Ymateb Cynulleidfa sy'n cynnwys 1,400 o unigolion, a ddewiswyd i adlewyrchu poblogaeth Cymru. Mae'r panelwyr yn rhoi eu barn i S4C am y gwasanaeth a sgoriau gwerthfawrogiad ar gyfer rhaglenni S4C.

**S4C has an Audience Reaction Panel that consists of 1,400 individuals, recruited to reflect the population of Wales. The panellists provide S4C with their opinion about and appreciation scores for S4C's programming.**



Digwyddiad Event	Lleoliad Location
<b>Digwyddiadau Cenedlaethol National Events</b>	
Eisteddfod yr Urdd	Bae Caerdydd
Y Sioe Frenhinol	Llanelwedd
Eisteddfod Genedlaethol	Llanrwst
<b>Digwyddiadau Hyrwyddo Promotional Events</b>	
Cyw yn Fferm Ffoli	Sir Benfro
Cyw yn Gŵyl Fach y Fro	Ynys y Bari
Cyw yn Gŵyl Gyhoeddi'r Eisteddfod	Aberteifi
Cyw yn Gŵyl Canol Dre	Caerfyrddin
Cyw yn Tafwyl	Caerdydd
Cyw yn Gŵyl Casnewydd	Casnewydd
Cyw yn Gŵyl Gyhoeddi'r Urdd	Prestatyn
Cyw yn Nathliadau'r Egin	Caerfyrddin
<b>Taith Nadolig Cyw Cyw's Christmas Tour</b>	
	Ysgol Cwm Rhywni Ysgol Bro Edern, Caerdydd Neuadd Y Gwendraeth, Llanelli Ysgol Bro Teifi, Llandysul Ysgol Gyfun Gymundeol Penweddig Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy Theatr y Dywysoges Frenhinol, Port Talbot Ysgol Gyfun Rhiwabon Ysgol Glan y Môr Ysgol Gyfun Llangejni Ysgol Llanfyllin Galeri Caernarfon
Dathlu arlwy Nadolig - S4C Yr Egin	Caerfyrddin
Gŵyl Cymryd Rhan	Llandudno
Cyw yn Gŵyl Croeso Abertawe	Abertawe
<b>Nosweithiau Gwylwyr Viewers' Evenings</b>	
Canolfan Glasdir, Llanrwst (Rhagfyr 2019) a Facebook Live (Mawrth 2020)	
Canolfan Glasdir, Llanrwst (December 2019) and Facebook Live (March 2020)	





## Partneriaeth S4C gyda'r BBC

### Mae S4C a'r BBC wedi gweithio mewn partneriaeth ers sefydlu S4C yn 1982.

Mae'r bartneriaeth yn ymestyn i feysydd cyflenwi rhaglenni, cyd-gynhyrchu, cydweithio creadigol, technoleg a llwyfannau ac ariannu.

#### Cyflenwi rhaglenni

Ers 1982, mae BBC Cymru Wales wedi darparu nifer o gonglfeini gwasanaeth S4C, gan gynnwys Pobol y Cwm, y ddarpariaeth newyddion, elfennau o'r ddarpariaeth chwaraeon a darllediadau cynhwysfawr o'r Eisteddfod Genedlaethol. Mae'r ddarpariaeth yma, sy'n seiliedig ar ymrwymiad statudol, yn gofyn i'r BBC ddarparu lleiafswm o 10 awr yr wythnos o raglenni am ddim ar gyfer S4C (felly lleiafswm o 520 o oriau'r flwyddyn). Mae'r ystod o raglenni o fewn y ddarpariaeth hon sy'n cael ei chytuno rhwng S4C a'r BBC bob blwyddyn, yn rhan bwysig o amserlen S4C. O dan y Cytundeb Partneriaeth rhwng y BBC ac S4C, gwerth ariannol darpariaeth y BBC yw £19.4m y flwyddyn, er bod adroddiadau blynyddol blaenorol y BBC yn dangos gwerth £22m. Mae Cynllun Blynyddol y BBC ar gyfer 2020/21 hefyd yn cynnwys ffigwr o £22m ar gyfer S4C.

#### Creadigol

Yn ystod 2019/20, fe barhaodd S4C i weithio mewn partneriaeth gyda'r BBC ar gyd-gynhyrchiadau drama megis Un Bore Mercher / Keeping Faith a Craith / Hidden.

#### Technoleg a llwyfannau

Mae presenoldeb cynnwys S4C ar y BBC iPlayer yn parhau i fod yn ddull pwysig iawn o gynnig ein cynnwys i gynulleidfa eang. Mae'r iPlayer yn rhoi presenoldeb i S4C ar draws ystod eang o ddyfeisiau na fyddent fel arall ar gael i S4C ac yn cyfrannu'n sylweddol at niferoedd gwyllo cynnwys ar-lein.

#### Cytleoli Gwasanaethau Technegol Darlledu

Er bod nifer o ddyddiadau wedi'u pennu ar gyfer cytleoli'r gwasanaethau technegol darlledu o fis Tachwedd 2019, gyda'r BBC wedi ymrwymo o dan y cytundeb partneriaeth i symud S4C i mewn cyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20, ni chafodd hyn ei gyflawni. Yna cafodd hyn ei gyflawni ac yna cafodd pandemig Covid-19 effaith ar y dyddiad nesaf a bennwyd (Mai 2020). Ers hynny, mae'r prosiect wedi aildechrau a'r dyddiad diweddaraf ar gyfer cytleoli yw Hydref 2020.

#### Y Bartneriaeth Ariannu ac Atebolrwydd

Yn ystod y flwyddyn, darparodd S4C Adroddiad Atebolrwydd Ariannol chwe-misol i Bwyllgor Archwilio'r BBC i gadarnhau bod yr arian hwn wedi'i ddefnyddio yn unol â chylch gwaith statudol S4C. Cyfarfu Cadeirydd Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol S4C â Chadeirydd newydd Pwyllgor Archwilio'r BBC ym mis Hydref 2019 i drafod nifer o faterion gan gynnwys cytleoli â BBC Cymru Wales yn Sgwâr Canolog, Caerdydd a threfniadau ariannu y dyfodol ar ôl 2022.

## S4C's partnership with the BBC

### S4C and the BBC have worked in partnership since the creation of S4C in 1982.

S4C's partnership spans areas including programme supply, co-production, creative collaboration, technology and platforms and funding.

#### Programme supply

Since 1982, BBC Cymru Wales has supplied a number of key elements of S4C's service, including Pobol y Cwm, news provision, elements of sports provision and extensive coverage of the National Eisteddfod of Wales. This provision, which is based on a statutory requirement, requires the BBC to provide a minimum of 10 hours per week of programming to S4C, free of charge (therefore a minimum of 520 hours per year). The range of programmes within this provision, which is agreed between S4C and the BBC each year, is an important part of S4C's daily schedule. Under the Partnership Agreement between the BBC and S4C, the financial value of the BBC's contribution is £19.4m per annum, although previous BBC annual reports show a value of £22m. The BBC's Annual Plan for 2020/21 also includes a figure of £22m for S4C.

#### Creative

During 2019/20, S4C continued to work in partnership with the BBC on drama co-productions such as Un Bore Mercher / Keeping Faith and Craith / Hidden.

#### Technology and platforms

The presence of S4C content on the BBC's iPlayer continues to be a very important tool in offering our content to a wide audience. The iPlayer gives S4C a presence across a wide range of devices that would otherwise not be available to S4C and contributes significantly to online viewing of its content.

#### Co-location of Technical Broadcast Services

Although several dates were set for the co-location of technical broadcast services from November 2019 onwards, with the BBC committed under the Partnership Agreement to move S4C in before the end of the 2019/20 financial year, this was not achieved. The next date was not achieved and the next date set (May 2020) was then impacted by the Covid-19 pandemic. The project has since resumed and the latest date for co-location is autumn 2020.

#### Funding and accountability partnership

During the year, S4C provided the BBC's Audit Committee with a biannual Financial Accountability Report to confirm that this funding has been used in accordance with S4C's statutory remit. The Chair of S4C's Audit and General Purpose Committee met with the new Chair of the BBC's Audit Committee in October 2019 to discuss a number of issues including co-location with BBC Cymru Wales in Central Square, Cardiff and future funding arrangements post 2022.

## Ystâd S4C

Ym mis Hydref 2019, dathlodd S4C ei blwyddyn gyntaf yn ein pencadlys newydd yng Nghanolfan S4C yr Egin, adeilad eiconig sydd wedi'i leoli ar gampws Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin. Erbyn hyn mae 58 aelod o staff yn gweithio i S4C yng Nghanolfan S4C yr Egin. Mae llawer ohonynt yn staff newydd sy'n byw'n lleol ac wedi manteisio ar y cyfle i ddatblygu eu gyrfaoedd yn y cyfryngau yng ngorllewin Cymru. Yn ystod y flwyddyn, lansiodd S4C gynllun prentisiaeth hefyd gyda thri phrentis yn cychwyn ym mhencadlys Caerfyrddin. Mae ein pencadlys yn parhau i ddatblygu ac mae hefyd yn gartref i amrywiaeth o gwmnïau sy'n gweithio yn y diwydiannau creadigol.

Ar adeg o newid mawr yn S4C dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r pencadlys yn symud i Gaerfyrddin a pharatoadau ar gyfer cydleoli gwasanaethau darlledu technegol S4C gyda rhai BBC Cymru yn Sgwâr Canolog, Caerdydd, mae presenoldeb pwysig S4C yn y gogledd yn parhau. Llofnodwyd estyniad 10 mlynedd i'r brydles yn Noc Victoria yng Nghaernarfon yn ôl yn 2018, gyda'r swyddfa'n gartref i 12 aelod o staff a nifer o bobl eraill sy'n ei defnyddio'n rheolaidd i gyfarfod â chynhyrchwyr annibynnol lleol yn yr ardal. Mae'r cysylltiad hanesyddol hir rhwng S4C a Chaernarfon felly'n parhau.

Yn ystod y flwyddyn parhaodd S4C i ddarlledu o ystâd Parc Tŷ Glas yn Llanisien, Caerdydd. Cwblhawyd gwerthiant y safle i S4C PTG Cyf yn ystod y flwyddyn a gwnaed cynnydd sylweddol i ailddatblygu a gosod swyddfeydd ac unedau i ystod o denantiaid gan gynnwys Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

## The S4C Estate

In October 2019, S4C celebrated its first year in our new headquarters in Canolfan S4C Yr Egin, an iconic building located on the campus of the University of Wales Trinity St David in Carmarthen. There are now 58 members of staff working for S4C at Canolfan S4C Yr Egin, many of whom are new staff who live locally and have taken the opportunity to develop their careers in the media in west Wales. During the year, S4C also launched an apprenticeship scheme with three apprentices starting at the Carmarthen headquarters. Our headquarters continue to develop and are also home to a range of companies working in the creative industries.

At a time of great change at S4C over recent years with the headquarters moving to Carmarthen and preparations for co-locating S4C's technical broadcast services with those of BBC Cymru in Central Square, Cardiff, S4C's important presence in north Wales continues. A 10-year extension to the lease at Victoria Dock in Caernarfon was signed back in 2018, with the office home to 12 members of staff and many others who use it on a regular basis to meet with local independent producers in the area. The long historical association between S4C and Caernarfon therefore continues.

During the year S4C continued to broadcast from the Parc Tŷ Glas estate in Llanishen, Cardiff. The sale of the site to S4C PTG Cyf was completed during the year and significant progress made to redevelop and let offices and units to a range of tenants including the Royal Welsh College of Music & Drama.

## Gweithgareddau Masnachol S4C

Mae S4C Masnachol – adain fasnachol S4C (sydd ar wahân i arian cyhoeddus S4C) yn gyfrifol am amrywiaeth o weithgareddau a buddsoddiadau masnachol sydd â'r nod o greu ffrwd incwm gynaliadwy ychwanegol ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus S4C.

Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys gwerthu hysbysebion a nawdd ar wasanaethau S4C gan (gweithio gyda Sky Media, asiant hysbysebu S4C), trwyddedu nwyddau ar gyfer brandiau fel Cyw, dosbarthu ein hól-gatalog o raglenni a buddsoddi mewn portffolio buddsoddi cytbwys. Ar hyn o bryd, mae'r portffolio hwn yn cynnwys:

- buddsoddiadau ecwiti mewn cwmnïau sy'n gweithredu yn y sectorau cynnwys a digidol;
- buddsoddi yn ystâd Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd a gosod swyddfeydd ac unedau i amrywiaeth o denantiaid;
- cronfeydd buddsoddi a reolir gan reolwr cronfa allanol.

Mae gweithgareddau masnachol S4C yn cyfrannu oddeutu £1m y flwyddyn ar gyfartaledd i gronfa gwasanaeth cyhoeddus S4C. Er yn ganran fechan o holl incwm S4C, mae hwn yn gyfraniad ariannol pwysig sy'n galluogi S4C i fuddsoddi mewn cynnwys a gwasanaethau na fyddai modd fel arall eu darparu. Mae'r arian sy'n cael ei ddal yng nghronfa fasnachol S4C yn arian sydd wedi cael ei gynhyrchu gan weithgareddau masnachol y sianel yn y gorffennol.

Argymhellodd yr Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylai'r Llywodraeth ddiwygio'r gofynion cymeradwyo presennol er mwyn cynnig rhagor o ryddid i S4C fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. Derbyniwyd yr argymhelliad hwn gan Lywodraeth y DU, ac mae'r Bwrdd wedi trafod opsiynau gyda'r Llywodraeth er mwyn cytuno ar fframwaith addas ar gyfer gweithgareddau masnachol yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys sut i ymgorffori gweithgareddau masnachol S4C yn fwy uniongyrchol o fewn cwpas gwaith y Bwrdd er mwyn sicrhau cyswllt agosach rhwng strategaeth ac atebolrwydd cyffredinol S4C ar gyfer perfformiad y gweithgareddau masnachol.

Yn 2018, mabwysiadodd S4C strategaeth masnachol newydd i geisio mwy o elw o'r farchnad ddarlledu gyfoes mewn meysydd traddodiadol a meysydd digidol newydd. Er y bydd gweithgareddau masnachol S4C yn parhau i gael eu gyrru o'r cronfeydd masnachol yn unig, bydd strategaeth gyffredinol y sianel a chryfder ei harbenigedd mewn meysydd perthnasol yn gynyddol yn gyrru'r buddsoddiadau hyn.

## S4C's Commercial Activities

S4C Masnachol, S4C's commercial division (which is separate from S4C's public funding) is responsible for a variety of commercial activities and investments that are designed to create an additional sustainable income stream for S4C's public service.

These activities include the sale of advertisements and sponsorship on S4C's services (working with Sky Media, S4C's advertising agent), licensing merchandise for brands such as Cyw, distributing our back catalogue of programmes and investing in a balanced investment portfolio. This portfolio currently consists of:

- equity investments in companies active in the content and digital sectors;
- investment in the Parc Tŷ Glas estate, Llanishen, Cardiff and letting offices and units to a range of tenants;
- investment funds managed by an external fund manager.

S4C's commercial activities contribute an average of approximately £1m per year to S4C's public service fund. Although a small percentage of S4C's total income, this is an important financial contribution which enables S4C to invest in content and services that would otherwise not be possible. The money held in S4C's commercial reserve is money that has been generated by the channel's commercial activities in the past.

The Review of S4C published in March 2018 recommended that the Government should amend current approval requirements to give S4C greater freedom to invest and generate commercial revenue. This recommendation was accepted by the UK government, and the Board has discussed options with Government to agree a suitable framework for future commercial activities. This included how to incorporate S4C's commercial activities more directly within the Board's ambit to ensure a closer link between S4C's overall strategy and accountability for the performance of the commercial activities.

In 2018, S4C adopted a new commercial strategy which aims to seek greater returns from the developing broadcast market in both traditional and more advanced digital areas. Whilst the activities of S4C's commercial aspirations will continue to be driven solely from its commercial funds, the overall strategy of the channel and the strength of its expertise in relevant areas will increasingly drive these investments.

## Adolygiad S4C

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddwyd yr Adolygiad o S4C gan Euryn Ogwen Williams ynghyd ag ymateb Llywodraeth y DU iddo. Dyma benllanw proses o drafod dyfodol S4C, gan gynnwys ei chylch gorchwyl a'i strategaeth ar gyfer y dyfodol a nifer o faterion strwythurol.

Mae'r adolygiad ar gael ar <https://www.gov.uk/government/sefydiadau/s4c>

Mae ymateb S4C i'r adolygiad ar gael yn: <http://www.s4c.cymru/cy/y-wasg/post/29248/s4c-yn-cyhoeddi-ei-gynllun-gweithredu-yn-sgil-yr-adolygiad-annibynnol/>

Croesawodd S4C yr Adolygiad, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth i'r argymhellion. Ers hynny, mae S4C wedi bod wrthi'n gweithredu'r argymhellion ac mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) a phartneriaid allweddol eraill, a darperir y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd isod.

<b>Argymhelliad Recommendation</b>	<b>Cynnydd</b>
<p><b>1</b></p> <p>Dylai'r llywodraeth ddiweddarau cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus S4C i gynnwys gwasanaethau digidol ac arlein, a chael gwared ar y cyfyngiadau darlledu daearyddol presennol. Bydd hyn yn caniatáu S4C i ehangu ei gorwelion a chynnig cynnwys ar ystod eang o lwyfannau newydd drwy'r Deyrnas Unedig a thu hwnt. <b>The government should update S4C's public service remit to include digital and online services and remove the current geographical broadcasting restrictions. This will allow S4C to broaden its reach and offer its content on a range of new platforms in the UK and beyond.</b></p>	<p>Mae trafodaethau gyda DCMS wedi parhau yn ystod y flwyddyn i ddiweddarau cylch gorchwyl S4C yn unol ag argymhellion yr Adolygiad. Mae DCMS wedi paratoi Mesur Drafft i'w gyflwyno pan fydd amser seneddol ar gael.</p>
<p><b>2</b></p> <p>Dylai S4C sefydlu hyb digidol mewnol i ddatblygu a gwella ei dylanwad digidol, yn ogystal â chreu sylfaen i glwstwr digidol yn y Gymraeg. <b>S4C should establish an in-house digital hub to develop and improve S4C's digital footprint and form the basis of a Welsh language digital cluster.</b></p>	<p>Cymeradwyodd Bwrdd S4C £3m tuag at raglen ddigidol newydd yn ôl ym mis Mehefin 2018. Mae'r rhaglen yn cwmpasu buddsoddi mewn cynnwys digidol newydd, buddsoddi mewn seilwaith digidol, a thim digidol pwrpasol o fewn S4C i arwain y datblygiad digidol. Mae Bwrdd Prosiect Digidol ar waith i lywio'r rhaglen ac olrhain cynnydd.</p> <p>Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod 2019/20 gan gynnwys datblygu S4C Clic a gyrhaeddodd 100,000 o gofrestrïadau unigryw ym mis Chwefror 2020. Mae hyn bellach yn galluogi S4C i gyfathrebu â gwylwyr ar sail un i un ac o ganlyniad, dod i ddeall anghenion gwylwyr yn well a darparu gwasanaeth mwy cynhwysfawr a phwrpasol. Yn ystod y flwyddyn mae Clic wedi'i drawsnewid o fod yn wasanaeth lle'r arferai gwylwyr fynd i ddal i'fyny ar raglenni yr oeddent wedi'u colli i lwyfan sy'n cynnig cynnwys unigryw. Mae hyn yn cynnwys bocses, dramâu unigryw, cynnwys pwrpasol ar gyfer dysgwyr Cymraeg ac ar gyfer plant a gwylwyr iau.</p> <p>Cwblhawyd gwaith hefyd ar strategaeth lwyfan ac mae ymdrechion ar y gweill i sicrhau bod Clic ar gael ar y llwyfannau mwyaf poblogaidd fel Freeview Play a YouView.</p>
	<p>Yn ogystal, am y tro cyntaf erioed, ym mis Mawrth 2020 gwylwyd deunydd llwyfan ieuencid S4C, Hansh filiwn o weithiau mewn un mis ar draws Twitter, Facebook a YouTube. Lanswyd Hansh ym mis Mehefin 2017 i gynnig llwyfan a chynnwys unigryw i bobl ifanc 16 -34 oed. Ers hynny mae'r gwasanaeth wedi esblygu o weithredu ar Facebook a YouTube yn unig i greu cynnwys ar Instagram a TikTok yn ogystal â chreu podlediadau.</p>

## Independent Review of S4C

In March 2018 the independent review of S4C prepared for DCMS by Euryn Ogwen Williams was published along with the UK Government's response. This was the culmination of a process of discussing the future of S4C, including its remit, future strategy and a number of structural and governance issues.

The review can be found at <https://www.gov.uk/government/organisations/s4c>

S4C's response to the review can be found at: <http://www.s4c.cymru/en/press/post/29248/s4c-publishes-its-action-response-to-the-independent-review/>

S4C welcomed the Review, together with the Government's response to the recommendations. Since then, S4C has been actively implementing the recommendations and significant progress has been made over the last year. We continue to work closely with DCMS and other key partners and an update on progress is provided below.

<b>Progress</b>
<p>Discussions with DCMS have continued during the year regarding updating S4C's remit as recommended by the Review. A draft S4C Bill has been prepared by DCMS and will be introduced in due course when an a parliamentary slot becomes available.</p>
<p>The S4C Board approved £3m towards a new digital programme back in June 2018. The programme encompasses investment in new digital content, investment in digital infrastructure, and a dedicated digital team within S4C to lead the digital development. A Digital Project Board is in place to drive the programme and track progress.</p>
<p>Significant progress has been made during 2019/20 including developing the S4C Clic player which reached 100,000 unique registrations in February 2020. This is now enabling S4C to communicate with viewers on a one-to-one basis and as a result, come to understand the needs of viewers better and provide a more comprehensive and tailored service. During the year Clic has been transformed from being a service where viewers used to go to catch up on programmes they had missed to a platform which offers exclusive content. This includes boxsets, exclusive dramas, dedicated content for Welsh learners and for children and younger viewers.</p> <p>Work was also completed on a platform strategy and efforts are underway to make Clic available on the most popular platforms such as Freeview Play and YouView.</p>
<p>In addition, for the first time ever in March 2020, S4C's youth platform, Hansh attracted one million views in a month across Twitter, Facebook and YouTube. Hansh was launched in June 2017 to offer a unique platform and content for young people aged 16 - 34. Since then the service has evolved from operating solely on Facebook and YouTube to creating content on Instagram and TikTok as well as producing podcasts.</p>

<p><b>3</b></p> <p>Dylai S4C sefydlu partneriaeth iaith gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i helpu cyflawni ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. <b>S4C should establish a language partnership with the Welsh Government and others to help deliver the Welsh Government's commitment to reach 1 million Welsh language speakers by 2050.</b></p>	<p>Mae S4C yn parhau i weithredu'r Strategaeth Partneriaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Mehefin 2018. Cefnogi cynnwys yw byrddw cyffredinol y strategaeth, gyda'r Gymraeg yn thema allweddol.</p> <p>Mae S4C a Llywodraeth Cymru yn parhau i gydweithio i sicrhau bod gwymbodaeth a chyflleoedd yn cael eu rhanu ac i gefnogi'r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae S4C wedi datblygu ei phartneriaeth gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar ei chynnwys i ddysgwyr (oedolion) ac mae gwasanaeth S4C Clic i ddysgwyr, a lansiwyd ym mis Medi 2019 wedi cael derbyniad da. Yn dilyn llwyddiant prosiect peilot S4C a TAC i gefnogi datblygiad sgiliau'r diwydiant cynhyrchu, mae'r bartneriaeth wedi'i ffurfioli am ddwy flynedd arall. Mae S4C hefyd wedi bod wrthi'n datblygu ei pherthynas â Chyngor Llyfrau Cymru a Cymraeg i Blant, ac mae'n parhau i weithio'n agos gyda Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Y Coleg Cymraeg, y Mentrau Iaith a'r Eisteddfod Genedlaethol.</p>
<p><b>4</b></p> <p>Dylai S4C gael ei hariannu'n gyfan gwbl gan ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau am ariannu yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o'r trafodaethau am setliad ariannu ffi'r y BBC. <b>S4C's public funding should be provided entirely through the licence fee from 2022/23 onwards, with all future funding decisions made as part of the BBC licence fee funding settlement.</b></p>	<p>Mae S4C yn nodi argymhellion yr Adolygiad parthed ffynonellau ariannu ar gyfer S4C yn y dyfodol. Mae'r Bwrdd wedi dechrau ystyried ei feddyliau a'i ddisgwyliadau ynghylch setliad nesaf ffi'r drwydded ac mae'n edrych ymlaen at drafod gyda'r Ysgrifennydd Gwladol y broses o gytuno ar gyllid S4C, yn unol â gofynion adran 31 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011 a darpariaethau Cytundeb Fframwaith y BBC.</p>
<p><b>5</b></p> <p>Dylai'r llywodraeth ystyried diwygio'r gofynion cymeradwyo presennol i roi mwy o ryddid i S4C i fuddsoddi a chynhyrchu refeniw masnachol. <b>The government should consider amending current approval requirements to give S4C greater freedom to invest and generate commercial revenue.</b></p>	<p>Mae S4C wedi datblygu a mabwysidau strategaeth fasnachol a threfniadau llywodraethiant newydd, sydd wedi eu cynllunio er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd masnachol S4C, yn unol â'r arweiniad a roddwyd gan yr Adolygiad o S4C.</p> <p>Mae trafodaethau adeiladol gyda'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi parhau yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â diweddarau cylch gwaith masnachol S4C. Mae DCMS wedi paratoi Mesur drafft a'r bwriad yw cyflwyno hwn yn ei dro, pan fydd amser seneddol ar gael.</p>
<p><b>6</b></p> <p>Dylid dioddi Awdurdod S4C gyda bwrdd unedol newydd sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyfarwyddwyr anweithredol. <b>The S4C Authority should be replaced with a new unitary board comprising executive and non-executive directors.</b></p>	<p>Mae S4C wedi cyflwyno trefniadau dros-dro er mwyn gweithredu'r argymhellion llywodraethiant o fewn y darpariaethau statudol presennol. Yn hydref 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd sy'n rhoi mewn lle y Bwrdd unedol cysgodol (bydd y Bwrdd unedol cysgodol yn parhau i weithredu nes y bydd deddfwriaeth yn cael ei gyflwyno er mwyn cadarnhau'r newidiadau arfaethedig ac addasu fframwaith lywodraethiant S4C).</p> <p>Mae'r Bwrdd Unedol cysgodol yn cynnwys aelodau anweithredol y Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Cynnwys. Mae trafodaethau'n parhau gyda DCMS ynglŷn â recriwtio tri aelod anweithredol ychwanegol i'r Bwrdd yn ystod 2020. Ceir rhagor o wybodaeth yn yr Adroddiad Llywodraethiant, a Rheolau Sefydlog diwygiedig S4C ar safle we S4C.</p>
<p><b>7</b></p> <p>Dylai'r llywodraeth ystyried a yw trefniadau archwilio ariannol presennol S4C yn addas, gan gynnwys a fyddai'n briodol penodi'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol yn archwilydd allanol S4C. <b>The government should consider whether S4C's current financial audit arrangements are suitable, including whether it would be appropriate to appoint the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditor.</b></p>	<p>Yn dilyn trafodaethau adeiladol, daethpwyd i gytundeb ym mis Hydref 2019 rhwng S4C a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan hwylyso penodiad Ysgrifennydd Gwladol y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilywyr allanol S4C, hyd nes bydd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i diwygio. Cytunwyd ar Lythyr Ymgysylltu rhwng yr NAO a S4C a chafwyd trosglwyddiad priodol gyda Grant Thornton.</p>

	<p>S4C continues to implement the Partnership Strategy approved by the Board in June 2018. Supporting content is the over-arching thrust of the strategy, with the Welsh language the key theme.</p> <p>S4C and the Welsh Government continue to work together to ensure information and opportunities are shared and to support the aim of 1 million Welsh language speakers by 2050. S4C has developed its partnership with the National Centre for Learning Welsh on its learners' content (for adults) and the S4C Clic service for learners, which launched in September 2019 has been well-received. Following the success of the S4C and TAC pilot project to support production industry skills development, the partnership has been formalised for a further two years. S4C has also been actively developing its relationship with the Wales Book Council and Cymraeg i Blant, and continues to work closely with Mudiad Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, Y Coleg Cymraeg, the Mentrau Iaith and the National Eisteddfod.</p> <p>S4C noted the Review's recommendations in relation to the sources of funding for S4C in future. The Board has begun to consider its thoughts and expectations around the next licence fee settlement and looks forward to discussing with the Secretary of State the process by which S4C's funding is agreed, in accordance with the requirements of section 31 of the Public Bodies Act 2011 and the provisions of the BBC's Framework Agreement.</p> <p>S4C has developed a new commercial strategy and governance arrangements, designed to maximise S4C's commercial opportunities, in accordance with the guidance provided by the Review of S4C.</p> <p>Constructive discussions are taking place with DCMS in relation to potential opportunities to update S4C's commercial remit. A draft S4C Bill has been prepared by DCMS and will be introduced in due course when a parliamentary slot becomes available.</p> <p>S4C has put in place interim arrangements to facilitate the governance recommendations within the current statutory provisions. In autumn 2018, the Board ratified new Standing Orders that put in place the shadow unitary Board (the shadow unitary Board model will continue until legislation is brought forward to confirm the proposed changes and amend S4C's governance framework).</p> <p>The shadow unitary Board comprises the non-executive members of the Board appointed by the Secretary of State, together with the Chief Executive, Chief Operating Officer and Director of Content. Discussions are ongoing with DCMS about recruiting a further three non-executive members to the Board during 2020. Further details can be found in the Governance Report, and S4C's revised Standing Orders that can be found on S4C's website.</p> <p>A new structure has been ratified and put in place for the governance and operation of S4C's commercial activities (see commercial strategy above).</p>
	<p>Following constructive discussions, an agreement was reached in October 2019 between S4C and the National Audit Office, facilitating the appointment by the Secretary of State of the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditors, until the relevant legislation has been amended. A Letter of Engagement between the NAO and S4C was agreed and an appropriate handover occurred with Grant Thornton.</p>

# Adroddiad Llywodraethiant

## Governance Report

Mae S4C yn gorff cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu a digidol yn yr iaith Gymraeg, yn bennaf ar gyfer y gynulleidfa yng Nghymru, ond hefyd ar gyfer cynulleidfa ehangach sy'n dymuno defnyddio gwasanaethau Cymraeg S4C.

Mae'r Adroddiad Llywodraethiant yn nodi fframwaith llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd ac yn egluro sut y mae'r Bwrdd yn cynnal ei fusnes, sut mae aelodau'r Bwrdd yn cael eu penodi, sut y mae'r Bwrdd yn asesu ei berfformiad ac effeithiolrwydd a sut y mae'n dirprwyo cyfrifoldebau i'r Tîm Rheoli a'r Prif Weithredwr tra'n sicrhau atebolrwydd priodol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi asesiad y Bwrdd o'r risgiau cynradd sy'n wynebu busnes S4C ar hyn o bryd.

Mae'r ddeddfwriaeth a sefydlodd S4C yn cyfeirio at un corff statudol a gwasanaeth teledu. Mae'r adroddiad hwn yn gyson gyda'r diffiniadau statudol. Cyfeirir at fwrdd cyfarwyddwyr S4C fel y Bwrdd ac at y gwasanaeth fel S4C.

Yn hydref 2018, cymeradwydd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd er mwyn gweithredu'r Bwrdd unedol cysgodol. Mae'r Bwrdd unedol cysgodol yn cynnwys aelodau anweithredol y Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a dau aelod gweithredol arall. Bydd y Bwrdd unedol cysgodol yn parhau hyd nes cyflwynir ddeddfwriaeth i gadarnhau'r newidiadau arfaethedig a diwygio fframwaith llywodraethiant statudol S4C.

Yn ystod y flwyddyn, ffarweliodd y Bwrdd â Huw Jones fel Cadeirydd ar ôl wyth mlynedd wrth y llyw. Er bod y broses ar gyfer penodi olynnydd Huw wedi cychwyn, roedd angen sefydlu Cadeirydd dros dro o fis Hydref 2019 ymlaen. Ar ôl cael ei enwebu gan y Bwrdd, cytunodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i benodi Hugh Hesketh Evans yn Gadeirydd dros dro. Parhaodd y trefniant hwn tan ddiwedd mis Mawrth 2020.

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur a gwaith S4C ar wefan S4C [www.s4c.cymru](http://www.s4c.cymru)

S4C is an independent public body responsible for the provision of high quality public service television and digital services through the medium of Welsh, mainly for the audience in Wales, but also for the wider audience that wishes to use S4C's Welsh-language service.

This Governance Report sets out S4C's corporate governance framework and explains how S4C's Board conducts its business, how the Board's members are appointed, how the Board assesses its performance and effectiveness and how the Board delegates responsibilities to the Management Team and Chief Executive whilst ensuring appropriate accountability.

The report also sets out the Board's assessment of the primary risks facing S4C's business at present.

The legislation that established S4C refers to one statutory body and television service. This report is consistent with these statutory definitions. S4C's board of directors is referred to as the S4C Board or the Board and the service is referred to as S4C.

In autumn 2018, the Board ratified new Standing Orders that put in place the shadow unitary Board. The shadow unitary Board comprises the non-executive members of the Board appointed by the Secretary of State, together with the Chief Executive and two other executive members. The shadow unitary Board model will continue until legislation is brought forward to confirm the proposed changes and amend S4C's statutory governance framework.

During the year, the Board said goodbye to Huw Jones as Chair after eight years at the helm. While the process for appointing Huw's successor had begun, it was necessary to have in place an interim Chair from October 2019 onwards. Having been nominated by the Board, the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport agreed the appointment of Hugh Hesketh Evans as the interim Chair. This arrangement continued until the end of March 2020.

More information about S4C's structure and work can be found on S4C's website [www.s4c.cymru](http://www.s4c.cymru)



## Presenoldeb Aelodau'r Bwrdd

Mae'r tabl isod yn nodi presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau yn ystod 2019/20.

	Cyfarfod Bwrdd (cyfarfodydd busnes misol a chyfarfodydd arbennig) Board Meeting (monthly business meetings and special meetings)	Pwyllgor Archwilio, a Materion Cyffredinol Audit and General Purpose Committee	Pwyllgor Cwynion a Chydymffuriaeth Complaints and Compliance Committee	Pwyllgor Cynnwys Content Committee	Y Bwrdd Masnachol Commercial Board
--	---	---	---	---	--

Nifer o gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn Number of meetings during the year	11	4	1	5	4
---	----	---	---	---	---

Aelodau Anweithredol Bwrdd S4C: S4C Board Non-Executive Members:					
Huw Jones	5/5	2/2	-	2/2	2/2
Sian Lewis	7	1/1*	1	2	-
Hugh Hesketh Evans	9	4	1	-	-
Anita George	10	4	-	-	2
Owen Derbyshire	11	1/1*	-	5	4
Rhodri Williams	11	4	1	5	-
Owen Evans	10	4	-	5	4
Elin Morris	10	4	-	-	4
Amanda Rees	11	-	-	5	-

\*Estynnwyd gwahoddiad i holl aelodau'r Bwrdd i'r cyfarfodydd hyn.

\*All Board members were invited to attend these committee meetings.

Fel Cadeirydd y Bwrdd, mynychodd Huw Jones gyfarfodydd y Bwrdd Masnachol fel arsylwr.

**Huw Jones as Chair of the Board attended meetings of the Commercial Board as an observer.**

Ddiwedd mis Medi 2019, daeth tymor Huw Jones fel Cadeirydd i ben gyda Hugh Hesketh Evans yn perfformio rôl Cadeirydd dros dro rhwng Hydref 2019 a Mawrth 2020.

**At the end of September 2019, Huw Jones's term as Chair came to an end with Hugh Hesketh Evans performing the role of interim chair from October 2019 until March 2020.**

Ym mis Hydref 2019, penodwyd Rhodri Williams yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynnwys.

**In October 2019, Rhodri Williams was appointed as Chair of the Content Committee.**

Ceir manylion cydnabyddiaeth Aelodau'r Bwrdd yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

**Details of Board Members' remuneration can be found in Note 6 to the Statement of Accounts.**

## Board members' attendance

The table below notes attendance at meetings of the Board and its committees during 2019/20.

## Tîm Rheoli S4C

### Cyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo nifer o swyddogaethau penodol i'r Prif Weithredwr a'i swyddogion (nodir y materion hyn yn Rheolau Sefydlog y Bwrdd, sydd i'w cael ar wefan S4C), ac mae'r Prif Weithredwr yn atebol i'r Bwrdd am weithredu'r swyddogaethau hyn.

Cyfrifoldeb y Prif Weithredwr, swyddogion a staff S4C ydi rheoli a chynnal S4C o ddydd i ddydd. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys darparu gwasanaethau teledu ac arlein S4C.

### Aelodau'r Tîm Rheoli sydd hefyd yn Aelodau Gweithredol y Bwrdd unedol cysgodol:

#### Owen Evans – Prif Weithredwr

Penodwyd Owen Evans yn Brif Weithredwr a Swyddog Cyfrifo S4C ym mis Hydref 2017. Fe'i addysgwyd yn Ysgol Penweddig, Aberystwyth cyn graddio mewn economeg ym Mhrifysgol Abertawe. Cyn ymuno ag S4C roedd yn Ddirprwy Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifoldeb am Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus. Rhwng 2008 a 2010 roedd yn Gyfarwyddwr elusen Busnes yn y Gymuned yng Nghymru ac am 10 mlynedd cyn hynny bu'n gweithio i BT gan gynnwys cyfnod fel aelod o dîm Prydeinig BT ar ddatblygu eu strategaeth band-eang. Bu'n aelod o Fwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng 2005 a 2010. Ar hyn o bryd mae'n aelod o fwrdd ymgynghorol elusen Marie Curie yng Nghymru.

#### Elin Morris – Prif Swyddog Gweithredol

Yn wreiddiol o Lanrhytud, Aberystwyth, bu Elin yn gweithio fel cyfreithiwr yn Adran Gorfforaethol Geldards (cyfreithwyr) am dros 18 mlynedd. Cafodd ei phenodi'n Gyfarwyddwr Corfforaethol a Masnachol S4C yn 2009. Mae'n gyfrifol am yr adrannau Cyfreithiol a Busnes, Adnoddau Dynol a Masnachol.

#### Amanda Rees – Cyfarwyddwr Cynnwys

Bu Amanda yn cyfarwyddo, cynhyrchu ac uwch gynhyrchu ystod eang o raglenni ffeithiol i ddarlledwyr byd eang cyn ffurfio ei chwmmi ei hun yn 2012. Enwebwyd ei rhaglen 'Finding Mum and Dad' (i Channel 4) am wobrau Grierson a Broadcast yn 2015. Penodwyd Amanda'n Gyfarwyddwr Cynnwys S4C yn Hydref 2016.

#### Aelodau eraill y Tîm Rheoli

**(sydd ddim yn aelodau gweithredol y Bwrdd unedol cysgodol):**

#### Gwyn Williams – Cyfarwyddwr Cyfathrebu

Dechreuodd Gwyn ei yrfa yn y cyfryngau gan weithio i Radio Cymru ym Mangor. Wedi hynny bu'n gweithio i Newyddion 7 a Hel Straeon cyn cychwyn ei gwmni cynhyrchu ei hun. Roedd yn un o sylfaenwyr Cwmni Da ac yna'n brif weithredwr cwmni adnoddau Barcud yng Nghaernarfon. Cyn cychwyn gyda S4C roedd yn Gyfarwyddwr Cyfathrebu gyda Chomisiynydd y Gymraeg

#### Sharon Winogorski - Prif Swyddog Cyllid

Mae Sharon yn gyfrifydd siartredig. Cyn ymuno â S4C yn 1998, gweithiodd Sharon i nifer o gwmnïau a sefydliadau. Fe'ii phenodwyd hi i dîm rheoli S4C ym mis Hydref 2018. Mae'n gyfrifol am Adran Gyllid S4C sy'n cynnwys materion ariannol a chyllidebol ar gyfer endidau cyhoeddus a masnachol S4C.

Ceir manylion cydnabyddiaeth aelodau'r Tîm Rheoli yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

## S4C's Management Team

### Responsibilities of the Chief Executive and the Management Team

The Board delegates a number of specific functions to the Chief Executive and his officers (these matters are set out in the Board's Standing Orders, which can be found on S4C's website), and the Chief Executive is accountable to the Board for exercising these functions.

It is the responsibility of the Chief Executive, officers and staff of S4C to manage and maintain S4C on a day-to-day basis. This responsibility includes the provision of S4C's television and online services.

### Members of the Management Team who are also Executive Members of the shadow unitary Board:

#### Owen Evans – Chief Executive

Owen Evans was appointed S4C's Chief Executive and designated Accounting Officer in October 2017. Owen was educated at Ysgol Penweddig, Aberystwyth before graduating in economics from Swansea University. Prior to joining S4C, he was Deputy Permanent Secretary of the Welsh Government, responsible for Education and Public Services. Between 2008 and 2010 he was Director of Business In The Community Wales and for 10 years before that he worked for BT, including as a member of the UK team developing BT's broadband strategy. He served as a member of the Welsh Language Board between 2005 and 2010. He is currently a member of Marie Curie's advisory board in Wales.

#### Elin Morris – Chief Operating Officer

Originally from Lanrhytud, Aberystwyth, Elin worked as a lawyer within the Corporate Department at Geldards (solicitors) for over 18 years. She was appointed S4C's Corporate and Commercial Director in 2009. She is responsible for S4C's Legal and Business Affairs Department, Human Resources and Commercial issues.

#### Amanda Rees – Director of Content

Amanda directed, produced and executive produced a wide range of factual programmes for broadcasters across the world before establishing her own company in 2012. 'Finding Mum and Dad', produced by Amanda for Channel 4 was nominated for both the Grierson and Broadcast Awards in 2015. She was appointed Content Director of S4C in October 2016.

#### Other members of the Management Team

**(who are not executive members of the shadow unitary Board):**

#### Gwyn Williams – Director of Communications

Gwyn began his career in the media, working for Radio Cymru in Bangor. Thereafter he worked for Newyddion 7 for the BBC and Hel Straeon before starting his own production company. He was a founding member of the production company Cwmni Da before being appointed chief executive of Barcud resources company in Caernarfon. Prior to his current appointment, he was Director of Communications with the Welsh Language Commissioner.

#### Sharon Winogorski – Chief Finance Officer

Sharon is a chartered accountant. Prior to joining S4C in 1998, Sharon worked for a number of companies and organisations. She was appointed to S4C's management team in October 2018. She is responsible for S4C's Finance Department and financial and budgetary issues for both S4C's public and commercial entities.

Details of the Management Team's remuneration can be found in Note 6 to the Statement of Accounts.



## Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol S4C

Mae'r Bwrdd yn gynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

Mae S4C yn gorfforaeth statudol. Mae strwythur a dyletswyddau cyfansoddiadol S4C wedi'u nodi mewn statud yn Neddf Gyfathrebiadau 2003 a Deddfau Darlledu 1990 a 1996.

Argymhellodd yr Adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylid strwythur llywodraethu corfforaethol S4C fod yn seiliedig ar fr addedol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol ac anweithredol, gyda rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir, lle mae'r cyfarwyddwyr gweithredol yn rheoli a chyfarwyddwyr anweithredol yn craffu ac yn cynghori. Yn hydref 2018 rhoddodd S4C drefniadau dros dro ar waith i hwyluso yr argymhellion llywodraethu o fewn y ddarpariaeth statudol gyfredol. Cadarnhaodd y Bwrdd Reolau Sefydlog newydd a rhoddwyd ar waith Bwrdd unedol cysgodol fel yr argymhellwyd gan yr Adolygiad o S4C. Bydd y darpariaethau dros dro hyn yn parhau nes cyflwynir deddfwriaeth i gadarnhau'r newidiadau arfaethedig a diwygio fframwaith llywodraethu S4C. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd S4C yn parhau i wneud hynny gan weithredu'n ffurfiol yn unol â'r darpariaethau statudol cyfredol. Mae'r Bwrdd unedol cysgodol yn cynnwys yr Aelodau Anweithredol o'r Bwrdd a benodwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a dau aelod gweithredol arall a benodir gan yr Aelodau Anweithredol yn dilyn argymhelliad a wnaed i'r Bwrdd gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

Ceir rhagor o wybodaeth am drefnweithiau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn ei Rheolau Sefydlog ar safle we s4c.cymru.


**Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol**

Mae gan y Bwrdd ddyletswydd penodol i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol o weithgareddau S4C i'r Senedd bob blwyddyn. Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cytuno i gyflwyno Adroddiad Blynyddol a Datganiad Ariannol S4C gerbron Senedd Cymru.

#### Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae prif gyfrifoldebau'r Bwrdd yn cynnwys:

- darparu gwasanaethau teledu, digidol ac arlein S4C;
- sicrhau cydymffurfiaeth y gwasanaethau gyda'r gofynion rheoleiddio perthnasol, gan gynnwys Cod Darlledu Ofcom;
- cymryd ystyriaeth o farn y gynulleidfa am arlwy gwasanaeth S4C;
- cymeradwyo strategaeth, cyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol tymor hir S4C;
- goruchwyllo, cymeradwyo a chraffu ar reolaeth briodol S4C;
- gweithredu fel corff cyhoeddus;
- gweithredu fel rheoleiddiwr ar nifer cyfyngedig o faterion penodol yn ymwneud a gwasanaethau arlein S4C;
- paratoi adroddiadau blynyddol a chyfrifon; a
- phenodi Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

Nid yw Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau dydd i ddydd. Yn benodol, nid yw Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn ymwneud ag unrhyw benderfyniadau comisiynu neu benderfyniadau golygyddol. Mae'r arfer yma wedi bodoli ers 1982. Mae'n sicrhau fod y Bwrdd yn cael ei gadw hyd braich o benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y swyddogion, yn arbennig felly, ynglŷn â chynnwys rhaglenni.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

Ceir rhagor o wybodaeth am brosesau a chyfrifoldebau'r Bwrdd yn y Rheolau Sefydlog diwygiedig ar wefan s4c.cymru.

## S4C’s Corporate Governance Structure

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

S4C is a statutory corporation. Its constitutional structure and duties are set out in statute in the Communications Act 2003 and the Broadcasting Acts of 1990 and 1996.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

The independent review of S4C published in March 2018 recommended that S4C’s corporate governance structure should be based on a unitary board comprising executive and non-executive directors, with clearly defined roles and responsibilities, where the executive directors manage and non-executive directors scrutinise and advise. In autumn 2018 S4C put in place interim arrangements to facilitate the governance recommendations within the current statutory provisions. The Board ratified new Standing Orders that put in place a shadow unitary Board as recommended by the independent review of S4C. These interim provisions will continue until legislation is brought forward to confirm the proposed changes and amend S4C’s governance framework. During this period, S4C will continue to operate formally in accordance with the current statutory provisions. The shadow unitary Board comprises the non-executive members of the Board appointed by the Secretary of State, together with the Chief-Executive and two other executive members that are appointed by the Non-Executive Members following a recommendation made to the Board by the Audit and General Purpose Committee.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

Further information regarding the shadow unitary Board can be found in S4C’s revised Standing Orders on S4C’s website.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau


**Annual Report and Statement of Accounts**

The Board has a specific duty to submit an Annual Report and Statement of Accounts of S4C’s activities to Parliament each year. In addition the Board has agreed to present S4C’s Annual Report and Statement of Accounts before the Welsh Parliament.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Responsibilities of the Board**

The Board’s main responsibilities include:

- providing S4C’s television and digital & online services;
- ensuring compliance of the services with the relevant regulatory requirements, including the Ofcom Broadcasting Code;
- taking into account the audience’s views regarding S4C’s provision;
- approving S4C’s strategy, annual budget and long term financial plans;
- overseeing, approving and scrutinising the proper management of S4C;
- operating as a public body;
- acting as regulator in a limited number of areas relating to S4C’s online services;
- preparing annual reports and accounts; and
- appointment of the Chief Executive and Secretary.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

The Non-Executive members of the Board do not participate in S4C’s day-to-today decisions. In particular, the Non-Executive members of the Board are not involved in any commissioning or editorial decisions. This practice has existed since 1982. It ensures that the Board remains at arm’s length from decisions made by officers - especially in the case of programme content.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

Further information regarding the Board’s procedures and responsibilities can be found in its revised Standing Orders on the s4c.cymru website.

**Y Bwrdd a’i Aelodau**

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb i sicrhau bod swyddogaethau statudol S4C, mewn amgylchedd gwasanaeth cyhoeddus a masnachol, yn cael eu cyflawni’n unol â pholisïau’r Bwrdd, gofynion deddfau perthnasol, Cod Darlledu Ofcom, a’r Cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd gyda’r BBC.

Mae’r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a hyd at wyth aelod anweithredol, a phenodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru a Swyddfa Cymru. Mae ganddynt brofiad a gwybodaeth helaeth ac maent yn annibynnol o’r Tîm Rheoli, ac o unrhyw berthynas fusnes neu berthynas arall a allai ymyrryd ag arfer eu barn annibynnol. Mae’r strwythur hwn yn sicrhau na all y broses o wneud penderfyniadau gan yr aelodau gael ei dominyddu gan unigolyn neu grŵp bychan.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Amrywiaeth**

Mae amrywiaeth o fewn y Bwrdd yn cael ei ystyried fel rhan o’r broses ddethol. Mae amrywiaeth o fewn y sefydliad yn allweddol i sicrhau bod gwasanaeth S4C yn adlewyrchu ei gynulleidfa a’u hanghenion.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Hyfforddiant a Rhaglen Sefydlu Aelodau’r Bwrdd**

Mae rhaglen sefydlu bwrpasol yn cael ei ddarparu i bob aelod newydd o’r Bwrdd. Ynghyd â darparu gwybodaeth sylfaenol sy’n ymwneud â dyletswyddau cyfarwyddwyr, mae’r broses sefydlu yn cynnwys gwybodaeth sy’n ymwneud â gweithrediad busnes S4C, y sector cyfryngau a hefyd y prif risgiau ac ansicrwydd sy’n wynebu S4C.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Aelod Anweithredol Arweiniol**

Ym mis Tachwedd 2018, penododd y Bwrdd Anita George yn Aelod Anweithredol Arweiniol. Crëwyd y rôl hon yn 2016 yn dilyn cyngor a roddwyd gan DCMS i’r cyrff a noddir ganddi.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

Mae cyfrifoldebau’r Aelod Anweithredol Arweiniol yn cynnwys rhoi cyngor a chymorth i’r Cadeirydd; arwain yr asesiad o berfformiad y Cadeirydd; lle mae anawsterau neu densiwn yn bodoli yn y berthynas rhwng y Cadeirydd a’r Prif Weithredwr, bod yn gyfrifol am hwyluso’r gwaith o ddatrys y materion hyn a chydweithio â’r Cadeirydd ac aelodau eraill y Bwrdd i geisio datrys unrhyw ystyriaethau neu anghydfodau perthnasol sy’n effeithio ar waith y Bwrdd.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Effeithiolrwydd a Gwerthuso**

Mae’r Bwrdd yn cynnal gwerthusiad rheolaidd o’i berfformiad ei hun a gwaith ei bwyllgorau a’r aelodau. Yn ystod y cyfnod arweiniodd Cadeirydd y Bwrdd adolygiad perfformiad holl aelodau’r Bwrdd. Mae gwerthusiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd wedi’i gynllunio ar gyfer haf 2020

**The Board and its Members**

The Board has a responsibility to ensure that S4C’s statutory functions, in a public and commercial service environment, are carried out in accordance with the Board’s policies, relevant legislative requirements, the Ofcom Broadcasting Code, and the Partnership, Funding and Accountability Agreement with the BBC.

The Board comprises the Chair and up to eight non-executive members, appointed by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport, following consultation with the Welsh Government and the Wales Office. They bring a breadth of experience and knowledge and are independent of the Management Team and of any business or other relationship which could interfere with the exercise of their independent judgment. This structure ensures that the members’ decision making cannot be dominated by an individual or small group. Provisions relating to the appointment of Executive Members of the shadow unitary Board are set out in the Board’s revised Standing Orders.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Diversity**

Diversity within the Board is considered as part of the selection process. Diversity within the organisation is key to ensuring that S4C’s service reflects its audience and their needs.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Training and Board Members’ Induction Programme**

A tailored induction programme is provided to all new Board members. The induction process includes the provision of core information relating to directors’ duties, information relating to the operation of S4C’s business, the media sector and also the principal risks and uncertainties facing S4C.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Lead Non-Executive Member**

In November 2018, the Board appointed Anita George as Lead Non-Executive Member. This role was created in 2016 following advice given by DCMS to its sponsored bodies.

The Lead Non-Executive Member’s responsibilities include providing advice and assistance to the Chair; leading the Chair’s performance assessment; where difficulties or tensions exist in the relationship between the Chair and the Chief Executive to be responsible for facilitating a resolution of such matters and working with the Chair and other Board members to seek resolution of any material issues or disputes that impact upon the Board’s work.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys y Cadeirydd a'r Aelodau

**Effectiveness and Evaluation**

The Board undertakes a regular evaluation of its own performance and the work of its committees and members. During the period the former Chair of the Board led a performance review of all non-executive Board members. An independent evaluation of the Board’s effectiveness is planned for summer 2020.

#### **Diddordebau a Chydnabyddiaeth Aelodau**

Mae cofrestr sy'n datgan diddordebau'r aelodau ar gael ar wefan S4C, s4c.cymru. Mae copïau ar gael i'w harchwilio yn swyddfeydd S4C yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon. Caiff gwybodaeth mewn perthynas â chydnabyddiaeth yr aelodau ei nodi yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

#### **Gwrthdaro Buddiannau**

Yn ystod y cyfnod nid oedd gan unrhyw aelodau anweithredol y Bwrdd fudd mewn cytundebau gydag S4C.

#### **Cydymffurfiaeth Rheoleiddio**

Trosglwyddwyd nifer sylweddol o gyfrifoldebau rheoliadol i Ofcom, y rheolydd cyfathrebu'r DU, gan Ddeddf Cyfathrebu 2003.

Mae gwasanaeth teledu S4C yn cael ei reoleiddio gan Ofcom. O dan y darpariaethau hyn mae'n ofynnol i S4C gydymffurfio ag ystod eang o ofynion rheoliadol a nodir mewn deddfwriaeth a hefyd gan Ofcom.

Mae dyletswydd statudol ar S4C i gydymffurfio gyda Chod Darlledu Ofcom a gofynion rheoleiddio eraill, ac mae gan Ofcom nifer o bwerau a chyfrifoldebau statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gwasanaethau S4C.

Fel rhan o'r broses flynyddol o adrodd i Ofcom, mae S4C yn talu Ffi Rheoleiddio i Ofcom ac yn darparu ystod eang o wybodaeth i Ofcom, gan gynnwys gwybodaeth ariannol, gwybodaeth feintiol am berfformiad y gwasanaeth a gwybodaeth am gydymffurfio gyda chwotâu perthnasol Ofcom. Mae Bwrdd yr Awdurdod yn parhau â nifer cyfyngedig o gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n ymwneud gyda gwasanaethau arlein S4C sydd y tu hwnt i ddarpariaethau Cod Darlledu Ofcom.

#### **Ceisio barn y gynulleidfa**

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb statudol i ganfod y farn gyhoeddus am y rhaglenni sy'n cael eu darlledu ar S4C ynghyd ag effeithiau rhaglenni ar agwedd ac ymddygiad y gwylwyr ac yn ogystal y math o raglenni y byddai aelodau'r cyhoedd yn dymuno eu gweld ar S4C.

Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod darpariaethau priodol yn bodoli er mwyn galluogi gwylwyr i gwyno i S4C am raglenni'r sianel. Ceir gwybodaeth am sut i gwyno am raglenni S4C ar s4c.cymru, a cheir manylion cyswllt Gwifren Gwylwyr yng nghefn yr adroddiad hwn.

#### **Members' Interests and Remuneration**

A register of members' interests can be found on S4C's website, s4c.cymru. Copies are available for inspection at S4C's offices in Carmarthen and Caernarfon. Details of the remuneration of the Board's members can be found in Note 6 to the Statement of Accounts.

#### **Conflict of Interests**

During the period no Non-Executive Members had an interest in contracts with S4C.

#### **Regulatory Compliance**

A significant number of regulatory responsibilities were transferred to Ofcom, the UK's communications regulator by the Communications Act 2003.

S4C's television service is regulated by Ofcom. Under these provisions S4C is required to comply with a wide range of regulatory requirements set out in legislation and also by Ofcom.

S4C has a statutory duty to comply with the Ofcom Broadcasting Code and other regulatory requirements. Ofcom has a wide range of regulatory powers and sanctions relating to S4C's television services.

As part of the annual reporting process to Ofcom, S4C pays Ofcom a Regulatory Fee and provides a wide range of information to Ofcom, including financial information, quantitative information about the performance of the service and information regarding compliance with Ofcom's relevant quotas. The Board continues to exercise a limited number of regulatory responsibilities that relate to S4C's online services that are outside the provisions of the Ofcom Broadcasting Code.

#### **Audience opinions**

The Board has a statutory duty to ascertain the state of public opinion concerning programmes broadcast on S4C, any effects of such programmes on the attitudes or behaviour of viewers as well as the types of programmes that members of the public would like to be broadcast on S4C.

The Board is also responsible for ensuring that appropriate provisions exist to enable viewers to complain to S4C about the channel's programmes. Information regarding submitting a complaint about S4C's programmes can be found on the s4c.cymru website, and the Viewers' Hotline contact details are available at the back of this report.

## **Strwythur Gwaith Bwrdd S4C**

Mae'r Bwrdd yn cynnal cyfarfodydd busnes fel arfer unwaith y mis. Mae'r cyfarfodydd hyn yn dilyn rhaglen waith flynyddol sy'n cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.

Mae Rheolau Sefydlog diwygiedig y Bwrdd yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â gweithrediad system y Bwrdd unedol cysgodol, ac yn benodol, darpariaethau sy'n ymwneud â statws yr Aelodau Gweithredol, gofynion cworwm a hawliau pleidleisio aelodau y Bwrdd. Bydd y darpariaethau hyn yn parhau nes bod y darpariaethau statudol perthnasol sy'n ymwneud â fframwaith llywodraethu S4C yn cael eu diwygio.

Mae'r Tim Rheoli yn darparu data a gwybodaeth briodol ac amserol ar gyfer aelodau'r Bwrdd ac mae rhyddid i'r aelodau ofyn am unrhyw wybodaeth bellach y credant sy'n angenrheidiol. Mae hyn yn cynnwys data at gynnwys a pherfformiad y gwasanaeth, adroddiadau ariannol chwarterol, canlyniadau adolygiadau ac asesiadau'r Archwilwyr Mewnol, a diweddariadau o Bwyllgorau'r Bwrdd a'r Bwrdd Masnachol. Gall pob aelod ofyn am gyngor gan yr Ysgrifennydd a gweithwyr proffesiynol annibynnol ar draul S4C.

Mae aelodau'r Bwrdd yn craffu perfformiad S4C mewn perthynas â chyflawni nodau ac amcanion a gytunwyd, maent yn monitro adrodd ar berfformiad, ac maent yn craffu cywirdeb gwybodaeth ariannol a sicrhau bod rheolaethau a systemau rheoli risg ariannol yn gadarn ac yn cael eu gweithredu'n briodol.

Yn amodol ar adolygiad achlysurol gan Fwrdd yr Awdurdod o'r cyfrifoldebau a'r pwerau a ddirprwyir i'r Prif Weithredwr a'r Tim Rheoli a chyfrifoldebau statudol trosgynnol y Bwrdd, mae'r cyfrifoldeb ar gyfer gweithredu polisiau a darparu gwasanaethau S4C, gan sicrhau eu bod yn gyson gyda chylch gorchwyl S4C a'r Strategaeth Cynnwys, wedi ei ddirprwyo i'r Prif Weithredwr a thrwyddo ef i'r Tim Rheoli.

#### **Swyddog Cyfrifo S4C**

Dynodir y Prif Weithredwr yn Swyddog Cyfrifo ar gyfer S4C. Mae'r Swyddog Cyfrifo yn gyfrifol i'r DCMS mewn perthynas ag ariannu statudol S4C ac felly ef yw'r person sy'n gyfrifol am y defnydd priodol o arian a delir i S4C gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

## **The S4C Board's Work Structure**

The Board usually holds business meetings once a month. These meetings follow an annual work programme approved by the Board.

The Board's revised Standing Orders include provisions relating to the operation of the shadow unitary Board system, and in particular, provisions relating to status of the Executive Members, the quorum requirements and voting rights of the shadow unitary Board members. These provisions will continue until the relevant statutory provisions relating to S4C's governance framework are amended.

The Management Team provides the Board members with appropriate and timely data and information and the members are free to seek any further information they consider necessary. This includes regular data on content and the performance of service, quarterly finance reports, the results of Internal Audit reviews and assessments of internal controls, and updates from the Board's Committees and the Commercial Board. All members have access to advice from the Secretary and independent professionals at S4C's expense.

Board members scrutinise the performance of management in meeting agreed goals and objectives and monitor performance reporting. They satisfy themselves on the integrity of financial information and that financial controls and systems of risk management are robust and implemented appropriately.

Subject to periodic review by the Board of the delegation of powers and responsibilities to the Management Team and the Board's overriding statutory responsibilities, responsibility for the formulation and operation of detailed policy, in accordance with S4C's remit and Content Strategy and the conduct of the affairs of S4C, has been delegated to the Chief Executive and through him to the Management Team.

#### **S4C's Accounting Officer**

The Chief Executive is designated as Accounting Officer for S4C. The Accounting Officer is responsible to the DCMS in respect of the statutory funding of S4C and, as such, is the person responsible for the proper use of funds paid to S4C by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport.

## Strwythur Pwyllgorau Bwrdd S4C

Mae gan y Bwrdd thri phwyllgor sy'n goruchwyllo gwahanol agweddau o waith S4C, ac yn ogystal fwrdd cyfarwyddwyr ar gyfer cwmnïau masnachol S4C.

Mae'r pwyllgorau'n adrodd yn ôl yn rheolaidd i'r Bwrdd, gyda'r Bwrdd yn cymeradwyo argymhellion y pwyllgorau.

### Pwyllgor Cynnwys

Mae'r Pwyllgor Cynnwys yn gyfrifol am oruchwyllo a monitro perfformiad cynnwys rhaglenni a gwasanaethau S4C. Mae'r Pwyllgor yn trafod arlwy rhaglenni S4C ac yn ceisio sicrhau bod arlwy'r sianel yn diwallu anghenion y gynulleidfa.

#### Aelodau'r Pwyllgor:

##### Hyd at 30/09/2019

Huw Jones (Cadeirydd)  
Siân Lewis  
Owen Derbyshire  
Rhodri Williams

##### O 01/10/2019

Rhodri Williams (Cadeirydd)  
Siân Lewis  
Owen Derbyshire

### Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol

#### Cyfrifoldebau Archwilio a Rheoli Risg

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwyllo gwaith archwilio mewnol ac allanol S4C, yn ogystal â gofalaeth am fonitro rheoli risg o fewn S4C. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am graffu'r Datganiad Ariannol drafft ac adrodd arno i'r Bwrdd cyfan. Mae'r Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am faterion yn ymwneud â gwerth am arian.

#### Cyfrifoldebau Personél a Chydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwyllo systemau personél S4C, gan gynnwys ystyried cyflogau a thelerau ac amodau gwaith eraill staff S4C, ystyried anghenion hyfforddi a datblygu staff, safonau ymddygiad a disgyblaeth, cyfleoedd cyfartal a monitro bod y systemau perthnasol yn gweithio'n effeithiol ac effeithlon o fewn S4C.

#### Cyfrifoldebau Craffu Prif Brosiectau

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwyllo Cynllun Cydleoli a rhannu swyddogaethau darlledu technegol S4C a BBC Cymru yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd.

## The S4C Board's Committees

The Board has established three committees that oversee different aspects of S4C's work, as well as a board of directors for S4C's commercial companies.

The committees regularly report to the Board, with the Board approving the committees' recommendations.

### Content Committee

The Content Committee's responsibilities include overseeing and monitoring the performance of S4C's programmes and services. This is the committee that discusses S4C's programme provision and seeks to ensure that the channel's offering meets the needs of the audience.

#### Committee members:

##### Until 30/09/2019

Huw Jones (Chair)  
Siân Lewis  
Owen Derbyshire  
Rhodri Williams

##### From 01/10/2019

Rhodri Williams (Chair)  
Siân Lewis  
Owen Derbyshire

### Audit and General Purpose Committee

#### Audit and Risk Management Responsibilities

The Committee is responsible for overseeing S4C's internal and external audit activities as well as having responsibility for monitoring risk management within S4C. The Committee is charged with scrutinising the draft Statement of Accounts and reporting back to the Board. The Committee's responsibilities also include matters relating to value for money.

#### Personnel and Remuneration Responsibilities

The Committee is responsible for overseeing S4C's personnel systems, including considering salaries and other terms and conditions relating to S4C staff, staff training and development needs, disciplinary and behavioural standards, equality of opportunity and monitoring that the relevant systems are working effectively and efficiently within S4C.

#### Major Projects Scrutiny Responsibilities

The Committee is responsible for overseeing the co-location and sharing of S4C and BBC Cymru's technical broadcasting functions at the new BBC Broadcasting Centre in Central Square Cardiff.

#### Aelodau'r Pwyllgor:

##### Hyd at 30/09/2019

Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd)  
Anita George  
Rhodri Williams  
Huw Jones

##### O 01/10/2019

Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd)  
Anita George  
Rhodri Williams

### Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth

Mae'r Pwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth yn gyfrifol am oruchwyllo systemau cwynion S4C a monitro eu bod nhw'n gweithio'n effeithlon. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried materion cydymffurfiaeth rhaglenni S4C. Yn ogystal â hyn, mae gan y Pwyllgor ddyletswyddau o fewn prosesau S4C ar gyfer ymateb i geisiadau am wybodaeth sy'n cael eu gwneud o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

#### Aelodau'r Pwyllgor:

Sian Lewis (Cadeirydd)  
Rhodri Williams  
Hugh Hesketh Evans

### Bwrdd Masnachol S4C

Mae Bwrdd Masnachol S4C yn gyfrifol am oruchwyllo gweithgareddau masnachol y sianel. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthiant hysbysebion a nawdd, buddsoddiadau masnachol a datblygu strategaeth fasnachol S4C ar gyfer y dyfodol.

Penodir aelodau'r Bwrdd Masnachol gan Fwrdd S4C.

#### Aelodau Bwrdd S4C sy'n aelodau'r Bwrdd Masnachol

Cynrychiolir Bwrdd S4C ar Fwrdd Masnachol S4C gan ddau aelod anweithredol sy'n cael eu penodi'n fel cyfarwyddwyr anweithredol is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr i S4C.

##### Hyd at 30/10/2019

Owen Derbyshire  
Anita George  
Huw Jones (arsyllwr)

##### O 01/10/2019 ymlaen

Owen Derbyshire  
Anita George

### Cyfarwyddwyr eraill

Mae Owen Evans ac Elin Morris hefyd wedi gweithredu fel cyfarwyddwyr masnachol i is-gwmnïau S4C yn ystod y flwyddyn. Penodwyd Sharon Winogorski i'r Bwrdd Masnachol gan Fwrdd S4C ym mis Tachwedd 2019. Mae David Sanders a Gwyn Roberts yn gyfarwyddwyr anweithredol annibynnol.

#### Committee members:

##### Until 30/09/2019

Hugh Hesketh Evans (Chair)  
Anita George  
Rhodri Williams  
Huw Jones

##### From 01/10/2019

Hugh Hesketh Evans (Chair)  
Anita George  
Rhodri Williams

### Complaints and Compliance Committee

The Complaints and Compliance Committee is responsible for overseeing S4C's complaints systems and monitoring that they work efficiently. The Committee also considers issues of compliance relating to S4C's programmes. In addition, the Committee has duties within S4C's processes for responding to requests for information made under the Freedom of Information Act.

#### Committee members

Sian Lewis (Chair)  
Rhodri Williams  
Hugh Hesketh Evans

### S4C's Commercial Board

S4C's Commercial Board is responsible for overseeing the channel's commercial activities. These include airtime sales and sponsorship, commercial investments and the development, implementation and oversight of S4C's commercial strategy.

Members of the Commercial Board are appointed by the S4C Board.

#### Members of the S4C Board that are members of the Commercial Board

The S4C Board is represented on the board of S4C's Commercial Group by two non-executive members that are appointed as non-executive directors of S4C's wholly owned subsidiaries.

##### Until 30/10/2019

Owen Derbyshire  
Anita George  
Huw Jones (observer).

##### From 01/10/2019

Owen Derbyshire  
Anita George

### Other Directors

Owen Evans and Elin Morris have also acted as directors of S4C's commercial subsidiaries during the year. Sharon Winogorski was appointed to the Commercial Board by the S4C Board in November 2019. David Sanders and Gwyn Roberts are independent non-executive directors.

## Swyddogaethau a Systemau Cyllid

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ystyried yn fanwl cyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir ac i argymhell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ystyried yn fanwl cyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir ac i argymhell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

**Paratoi'r Gyllideb flynyddol a chynlluniau ariannol hir dymor** Cymeradwyir cyllideb S4C ar gyfer pob blwyddyn ariannol (ac unrhyw ddiwygiadau dilynol iddo) gan y Bwrdd. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried a chymeradwyo cynllun ariannol 5 mlynedd sy'n gosod cyfeiriad hir dymor ac yn ogystal ceir cynllun ariannol amcanol pum mlynedd.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli yn gyfrifol am ystyried yn fanwl cyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir ac i argymell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

**Swyddogaethau Archwilio** Mae gan y Bwrdd ddyletswydd statudol i sicrhau trefniadau archwilio priodol ar gyfer holl agweddau o faterion ariannol S4C. Rhennir y swyddogaeth archwilio yn ddau gytundeb – ar gyfer materion Archwilio Allanol a materion Archwilio Mewnol.

**Trefniadau Archwilio Allanol** Yn dilyn argymhelliad yr Adolygiad Annibynnol o S4C yn ymwneud â threfniadau archwilio S4C, daethpwyd i gytundeb ym mis Hydref 2019 rhwng S4C a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, gan hwyluso penodiad Ysgrifennydd Gwladol y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol fel archwilwyr allanol S4C, hyd nes bydd y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'i diwygio. Cytunwyd ar Lythyr Ymgysylltu rhwng yr NAO a S4C a chafwyd trosglwyddiad priodol gyda Grant Thornton.

**Adroddiad yr Archwilwyr Allanol** Mae Adroddiad yr Archwilwyr Allanol i Aelodau'r Bwrdd i'w weld ar dudalennau 134-137.

**Archwilio Mewnol** Yn dilyn proses dendro gyhoeddus, penodwyd TIAA fel Archwilwyr Mewnol S4C ym mis Medi 2019 am gyfnod o dair blynedd.

Cynhaliwyd gwaith archwilio mewnol trwy gydol y flwyddyn i roi sicrwydd i'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol ynglŷn â gweithrediad a dilysrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn mynd ati'n annibynnol i adolygu'r broses reoli a weithredir gan y rheolwyr ac yn adrodd i'r Swyddog Cyfrifo a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol. Mae camu cywiro sydd wedi eu cynllunio yn cael eu monitro'n annibynnol gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol ar gyfer eu cwblhau'n brydlon rhag ofn bod rheolaethau gwan neu amhriodol i'w cael, sydd felly'n creu elfen o risg i'r sefydliad.

## Financial Functions

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ystyried yn fanwl cyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir ac i argymhell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am ystyried yn fanwl cyllidebau blynyddol drafft ar gyfer S4C, ynghyd â chynlluniau ariannol tymor hir ac i argymhell cyllidebau a chynlluniau o'r fath i'r Bwrdd i'w hystyried a'u cymeradwyo.

**Budget Preparation and long term financial plans** S4C’s budget for each financial year (and any subsequent amendments to it) is approved by the Board. The Board also considers and approves a projected 5 year financial plan that sets the long term direction.

The Chief Executive and Management Team are responsible for considering in detail S4C’s draft annual budget, along with longterm financial plans and recommending such budgets and plans to the Board for consideration and approval.

**Audit Functions** The Board has a statutory duty to ensure proper audit arrangements for all aspects of S4C’s financial matters. The audit function is divided into two agreements - for External Audit and Internal Audit.

**External Audit arrangements** Following the recommendation of the Independent Review of S4C relating to S4C’s audit arrangements, an agreement was reached in October 2019 between S4C and the National Audit Office, facilitating the appointment by the Secretary of State of the Comptroller and Auditor General as S4C’s external auditors, until the relevant legislation has been amended. A Letter of Engagement between the NAO and S4C was agreed and an appropriate handover occurred with Grant Thornton.

**External Auditors’ Report** The External Auditors’ Report to the Non-Executive Members of the Board can be found on pages 134-137.

**Internal Audit** Following a public tendering process, TIAA were appointed as S4C Internal Auditors in September 2019 for a period of three years.

An internal audit function has been maintained throughout the year to provide assurance to the Audit and General Purposes Committee as to the operation and validity of the system of internal control. The Internal Auditors independently review the Control process implemented by management and report to the Accounting Officer and the Audit and General Purpose Committee. Planned corrective actions are independently monitored by the Audit and General Purpose Committee for timely completion should there be weak or inappropriate controls in place thus creating an element of risk to the organisation.

**Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol** Mae adnabod a rheoli risgiau yn greiddiol i waith y Bwrdd. Mae gan y Bwrdd a'r Tîm Rheoli gyfrifoldeb clir i adnabod risgiau sy'n wynebu S4C ac am roi gweithdrefnau yn eu lle er mwyn monitro a lliniaru risgiau o'r fath. Mae'r Bwrdd a'r Tîm Rheoli yn gweithredu fframwaith rheoli risg ar gyfer nodi, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol a wynebir gan S4C. Mae'r fframwaith hwn wedi ei ddatblygu yn unol â chanllawiau arfer da perthnasol ar reolaethau mewnol a rheoli risg.

Yn dilyn cyhoeddi arweiniad i gyfarwyddwyr ar reolaeth fewnol, Rheolaeth Fewnol; Arweiniad i Gyfarwyddwyr ar y Côd Cyfun (arweiniad Turnbull), mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod proses barhaus i adnabod, gwerthuso a rheoli'r risgiau sylweddol a wynebir gan y grŵp wedi bod ar waith ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Datganiad Ariannol, a bod y broses hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd gan Fwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn unol â'r canllawiau.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prosesau perthnasol a roddwyd ar waith i adnabod a rheoli risgiau a hefyd yn nodi'r risgiau strategol allweddol a nodwyd gan y Pwyllgor a'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Mae elfennau allweddol y system rheolaeth fewnol fel a ganlyn:

**Rheolaeth Ariannol** Mae S4C yn gweithredu system gynhwysfawr ar gyfer adrodd ar reolaeth sy'n cynnwys paratoi cyllidebau blynyddol gan bob canolfan cost. Caiff y cyllidebau hyn eu cymeradwyo gan y Bwrdd fel rhan o'r gyllideb gyffredinol am y flwyddyn. Adroddir yn fisol ar ganlyniadau'r canolfannau cost a chaiff y canlyniadau eu cymharu â'r gyllideb. Ymchwilir i amrywiadau sylweddol o'u cymharu â'r gyllideb fel y bo'n briodol. Mae rhagolygon ar gyfer ymrwymïadau'n cael eu paratoi'n rheolaidd trwy gydol y flwyddyn.

**Adroddiadau Ariannol** Mae'r Bwrdd wedi sefydlu systemau rheolaeth fewnol a systemau rheoli risg sy'n ymwneud â'r broses o gyflwyno adroddiadau ariannol y grŵp a phroses y grŵp ar gyfer paratoi cyfrifon cyfun. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn gyfrifol am oruchwylio a monitro'r prosesau hyn, sydd wedi'u cynllunio i sicrhau bod y Bwrdd yn cydymffurfio â'r darpariaethau adrodd a rheoleiddio perthnasol.

**Trefniadau Chwythu'r Chwiban** Mae gan S4C bolisi 'chwythu'r chwiban'(datgelu gwybodaeth) er mwyn hwyluso'r broses o gyfathrebu gwybodaeth gyfrinachol berthnasol neu unrhyw ddigwyddiad mewn modd gyfrinachol. Mae'r Pwyllgor, ar ran y Bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer ymchwilio, mewn modd cymesur, i faterion a gyflwynwyd ac ar gyfer camau priodol yn dilyn unrhyw ymchwiliad.

**Monitro Rheolaethau a Risgiau'r Busnes** Mae'r Bwrdd wedi dirprwyo'r dasg o adnabod a gwerthuso'r risgiau sylweddol sy'n berthnasol i'r busnes i'r Tîm Rheoli, ynghyd â chynllunio a gweithredu rheolaethau mewnol priodol. Asesir y risgiau hyn ar sail barhaus a gallant fod yn gysylltiedig ag amrywiaeth o ffynonellau mewnol neu allanol gan gynnwys toriadau mewn goruchwyliaeth, amhariad ar y systemau gwybodaeth, cystadleuaeth, trychinebau naturiol a gofynion rheoleiddio.

Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd yn rheolaidd i Fwrdd yr Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol am faterion rheoli risg, ac mae'r Pwyllgor yn ystyried y Gofrestr Risgiau Strategol yn gyfnodol. Mae'r Prif Weithredwr yn adrodd i'r Bwrdd ar ran y Tîm Rheoli ar newidiadau sylweddol yn y busnes a'r amgylchedd allanol sy'n effeithio'r risgiau sylweddol.

Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu gwybodaeth ariannol i'r Bwrdd yn chwarterol, sy'n cynnwys dangosyddion perfformiad allweddol a risg. Lle nodir meysydd ar gyfer gwelliant yn y system, mae'r Bwrdd yn ystyried yr argymhellion a wneir gan y Tîm Rheoli a'r Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol.

**Risk Management and Internal Control** The identification and management of risks is at the heart of the Board’s work. The Board and the Management Team have a clear responsibility for the identification of risks facing S4C and for putting in place procedures to monitor and mitigate such risks. The Board and the Management Team operate a risk management framework for identifying, evaluating and managing (rather than eliminating) significant risks faced by S4C. This framework has been developed in accordance with relevant good practice guidance on internal controls and risk management.

Following publication of guidance for directors on internal control, Internal Control; Guidance for Directors on the Combined Code (the Turnbull guidance), The Board confirms that there is an ongoing process for identifying, evaluating and managing the significant risks faced by the group, that has been in place for the year under review and up to the date of approval of the Statement of Accounts, and that this process is regularly reviewed by the Board and the Audit and General Purpose Committee and accords with the guidance.

This report sets out the relevant processes implemented to identify and manage risks and also identifies the key strategic risks identified by the Committee and the Board during the year.

The key elements of the system of internal control are as follows:

**Financial Management** S4C operates a comprehensive management reporting system that includes preparing annual budgets from each cost centre. These budgets are approved by the Board as part of the overall budget for the year. The results of the cost centres are reported monthly and compared to the budget. Significant variances from budget are investigated as appropriate. Forecasts of commitments are prepared regularly throughout the year.

**Financial Reports** The Board has established systems of internal control and risk management systems that relate to the group’s financial reporting process and the group’s process for the preparation of consolidated accounts. The Audit and General Purpose Committee is responsible for overseeing and monitoring these processes, which are designed to ensure that the Board complies with relevant reporting and regulatory provisions.

**Whistleblowing Arrangements** S4C has a 'whistle-blowing' (disclosure) policy to facilitate the confidential communication of relevant information or any incident in confidence. The Committee, on behalf of the Board, is responsible for ensuring that there are appropriate arrangements in place for the proportionate investigation of matters reported and for appropriate follow-up action.

**Monitoring of Business Controls and Risks** The Board has delegated the task of identifying and evaluating significant business-related risks to the Management Team, together with the planning and implementation of appropriate internal controls. These risks are assessed on a continuous basis and may be associated with a variety of internal or external sources including control breakdowns, disruption in information systems, competition, natural disasters and regulatory requirements.

The Chief Executive reports regularly to the Board and the Audit and General Purpose Committee on risk management issues, and the Committee periodically considers the Strategic Risk Register. The Chief Executive reports to the Board on behalf of the Management Team on significant changes in the business and the external environment that affect significant risks.

The Chief Finance Officer provides quarterly financial information to the Board, which includes key performance indicators. Where areas for improvement in the system are identified, the Board considers recommendations made by the Management Team and the Audit and General Purpose Committee.

### Asesu'r Prif Risgiau, Ansicrwydd a Chyfleoedd

Yn ystod y flwyddyn datblygwyd ymhellach y Gofrestr Risgiau Strategol sy'n cysylltu prif risgiau strategol S4C ag amcanion strategol a fframwaith mesur perfformiad S4C a rhoddwyd ystyriaeth bellach i ddatblygu system ar gyfer asesu a monitro archwaeth risg S4C ar gyfer ystod o feysydd a phrosiectau o fewn busnes S4C.

Mae Cofrestr Risg Strategol S4C yn seiliedig ar asesiad o Flaenoriaethau Strategol S4C a'r risgiau all effeithio ar ddarparu'r blaenoriaethau hyn. Darparodd swyddogion adroddiadau rheolaidd yn ystod y flwyddyn ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol er mwyn iddynt allu monitro rheoli risg a gwelliannau i'r gofrestr risg. Yn ogystal, darparwyd adroddiadau a sicrwydd perthnasol gan yr archwilwyr mewnol er mwyn galluogi'r Pwyllgor i asesu proffil risg S4C yn ystod y flwyddyn. Mae'r asesiad risg a nodir isod yn cynnwys crynodeb o'r prif risgiau ac ansicrwydd a adnabuwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol yn ystod y flwyddyn. Bwriad y rhain yw nodi ar lefel strategol risgiau posibl allai gael effaith sylweddol ar allu S4C i gyflawni ei rwymedigaethau statudol.

Mae'r prif feysydd risg a nodwyd yn parhau'n debyg i'r rhai a nodwyd yn y flwyddyn flaenorol, a gellir eu categorïddio fel rhai'n ymwneud â darparu ac ansawdd gwasanaeth S4C, materion strategol, a materion ariannol a llywodraethiant.

### 1. Y Gynulleidfa a Pherfformiad y Gwasanaeth

Prif ddyletswydd S4C yw darparu gwasanaeth teledu digidol iaith Gymraeg sy'n cynnwys ystod eang o raglenni amrywiol o ansawdd uchel. Er mwyn darparu gwasanaeth o'r fath, rhaid i'r Bwrdd sicrhau ei fod yn gwrando ar anghenion ei gynulleidfa, bod S4C yn ymateb yn briodol i'r anghenion hyn a bod y sector cynhyrchu annibynnol yn gallu darparu cynnwys o ansawdd uchel.

Mae'r Bwrdd yn arolygu ansawdd y gwasanaeth drwy gydol y flwyddyn ac ymgynghorodd yn eang â'r gynulleidfa gan ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau gan gynnwys Nosweithiau Gwylwyr, sesiynau Facebook Live, paneli ymateb a grwpiau ffocws. Mae S4C yn ogystal, gan weithio'n agos gyda chynhyrchwyr annibynnol, wedi trafod sylwadau'r gynulleidfa a nodi ffyrdd o wella'r allbwn rhaglenni tra hefyd yn sicrhau gwerth am arian drwy'r cydweithio hyn.

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, cynhaliodd y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cynnwys eu sesiwn Facebook Live gyntaf erioed. Yn dilyn adborth gan y gynulleidfa, gwnaethpwyd newidiadau i amserlen darlledu S4C gan gynnwys darllediadau byw o sesiynau briffio newyddion dyddiol Llywodraeth Cymru, ynghyd â darllediadau o wasanaethau crefyddol newydd ar y Sul.

Mewn amgylchedd o lwyfannau cyfryngol sy'n datblygu'n gyflym, mae angen i S4C sicrhau ei fod yn gallu mynd i'r afael â phatrymau gwylïo a gofynion y gynulleidfa ar gyfer cynnwys ar draws gwahanol lwyfannau digidol cyfredol ac yn y dyfodol, gan gynnwys gwasanaethau ar-lein, Manylder Uwch a fformatau cynnwys eraill. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan S4C y prosesau ar waith i fonitro a dadansoddi perfformiad S4C ar draws yr amrywiol wasanaethau y mae'n eu darparu. Fodd bynnag, mae cwrrdd â disgwylïadau cynyddol gwylwyr gan gynnwys cost darparu mwy o ddewis a chynnwys o ansawdd ar gynifer o lwyfannau a dyfeisiau â phosibl yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, a bydd angen iddo fod yn rhan o drafodaethau cyllidebol yn y dyfodol.

Mae gofyn i'r system gymhleth o seilwaith technegol sy'n ganolog i allu S4C i ddarparu ei gynnwys dros ystod gynyddol o lwyfannau i gynnal lefel uchel iawn o argaeledd gwasanaethau ac ansawdd ar sail 24/7. Yn ystod y flwyddyn, parhau wnaeth paratoadau ar gyfer cydleoï a rhannu swyddogaethau darlledu technegol S4C a BBC Cymru yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog. Mae cynlluniau parhad busnes o fewn S4C wedi eu cynllunio er mwyn sicrhau bod y systemau technegol hyn yn gadarn a bod trefniadau priodol a chymesur yn eu lle er mwyn dygymod gyda digwyddiadau technegol sylweddol.

### Assessing Main Risks, Uncertainties and Opportunities

During the year the Strategic Risk Register that links S4C's main strategic risks with S4C's strategic objectives and performance measurement framework was developed further and consideration was given to the development of a system for assessing and monitoring S4C's risk appetite relating to a range of areas and projects within S4C business.

S4C's Strategic Risk Register is based on an assessment of S4C's Strategic Priorities and the risks that can affect the delivery of these priorities. Officers provided regular reports during the year for the Audit and General Purpose Committee to monitor risk management and enhancements to the risk register. In addition, relevant reports and assurances were provided by the internal auditors thus enabling the Committee to critically assess S4C's risk profile during the year. The risk assessment set out below contains the principal risks and uncertainties identified by the Audit and General Purpose Committee during the year. These are intended to capture at a strategic level the potential risks that could have significant impact upon S4C's ability to deliver its statutory obligations.

The main areas of risks identified remain similar to the previous year and can be categorised as being related to the provision and quality of the service, and strategic, financial and governance matters.

### 1. The Audience and Service Performance

S4C's primary duty is to provide a Welsh language digital television service consisting of a broad range of high quality and diverse programming. To provide such a service, the Board must ensure that it listens to the needs of its audience, that S4C responds appropriately to these needs and that the independent production sector is able to deliver high quality content.

The Board actively monitored the quality and performance of the service throughout the year and consulted widely with the audience through a range of different methods including Viewers' Evenings, Facebook Live sessions, response panels and focus groups. Working closely with independent producers, S4C has discussed audience comments and identified ways of improving the programme output whilst also securing value for money through this collaboration.

In response to the COVID-19 pandemic, the Chief Executive and Director of Content held their first ever Facebook Live session. As a result of audience feedback during these sessions, S4C made changes to its schedule to include broadcasting live the Welsh Government's daily briefing, and a new Sunday religious service programme.

Given the rapid development of media platforms, S4C needs to ensure that it can address viewing patterns and audience requirements for content across different current and future digital platforms, including online services, High Definition and other content formats. The Board is satisfied that S4C has the processes in place to monitor and analyse the performance of the S4C across the various services it provides. However, meeting increasing viewer expectations including the cost of providing more choice and quality content on as many platforms and devices as possible requires continued investment, and will need to form part of future budgetary discussions.

S4C's technical infrastructure is required to deliver its content over an increasing range of platforms, to deliver a very high level of service availability and quality on a 24/7 basis. During the year, preparations for co-locating S4C's technical broadcast services with those of BBC Cymru in the BBC's new headquarters in Central Square, Cardiff, continued. Business continuity plans within S4C are designed to ensure that these technical systems are robust and that appropriate and proportionate arrangements are in place to deal with major technical incidents.

### 2. Strategol ac Ariannol

Daw incwm S4C ar hyn o bryd o dair ffynhonnell, cymhorthdal gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, o Ffi'r Drwydded ac incwm masnachol a gynhyrchir gan S4C. Argymhellodd yr adolygiad annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 y dylid darparu cyllid cyhoeddus S4C yn gyfan gwbl trwy ffi'r drwydded o 2022/23 ymlaen, gyda'r holl benderfyniadau cyllido yn y dyfodol yn cael eu gwneud fel rhan o setliad cyllid ffioedd trwydded y BBC. Yn y cyfnod cyn y garreg filltir honno, mae S4C wedi dechrau'r broses o ystyried ei bwrpas fel sefydliad Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus, a gofyn y cwestiynau i bwy a sut fath o wasanaethau y dylai eu darparu yn y dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd trafodaethau gyda Chyllid a Thollau EM a Llywodraeth y DU ynghylch newidiadau i statws treth S4C a chanlyniadau ariannol anfwriadol penderfyniad o'r fath. Roeddem yn falch bod y Canghellor wedi cyhoeddi ar y 9fed o Fawrth 2020 y bydd Llywodraeth y DU yn dod â threfniadau TAW S4C yn unol â darlledwyr ledled y DU fel y BBC, ac y bydd S4C yn gallu adennill y TAW y mae'n ei thalu ar ei gostau o Ebrill 2021 ymlaen. Y nod yw i'r newid hwn gael ei wneud ym Mil Cyllid yr Hydref 2020, sy'n golygu y bydd S4C yn cael ei ad-dalu'r TAW y mae'n ei dalu o Ebrill 2021 ymlaen. Cadarnhaodd y cyhoeddiad hefyd y bydd DCMS yn parhau i dalu taliadau TAW S4C tan hynny.

Tua diwedd y flwyddyn ariannol, daeth COVID-19 i'r amlwg fel mater o bwys gyda'r Bwrdd yn gorfod ystyried sut y byddai S4C yn ymateb i'r heriau a'r risgiau a berir gan y pandemig. Yn amlwg, mae'r sectorau darlledu a chynhyrchu yn wynebu heriau ariannol a gweithredol digynsail sy'n deillio o COVID-19. Rydym yn rhagweld y bydd yr heriau hyn yn parhau am gryn amser ac yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU a Chymru, y sector a phartneriaid eraill wrth i'r sefyllfa ddatblygu.

### 3. Strwythur a Llywodraethiant

Mae system a gweithdrefnau llywodraethiant corfforaethol y Bwrdd wedi eu diwygio'n sylfaenol ers 2010 er mwyn sicrhau eu bod yn gadarn ac yn addas.

Yn dilyn Adolygiad Annibynnol o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018, mae'r Bwrdd eisoes wedi gweithredu nifer o'r argymhellion yn ymwneud â strwythur a llywodraethu S4C. Mae hyn yn cynnwys apwyntio Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol fel archwilydd allanol S4C yn ystod y flwyddyn, a thrafodaethau parhaus gyda'r DCMS ynghylch gwneud newidiadau yn neddfwriaeth sylfaenol i gyflawni argymhellion yr Adolygiad.

Daeth y Cytundeb Ariannu, Partneriaeth ac Atebolrwydd newydd rhwng S4C a'r BBC a ddaeth i rym ym mis Tachwedd 2017. Mae'r Bwrdd wedi rhoi prosesau adrodd ar gyfer cyflwyno sicrwydd ariannol i Fwrdd y BBC yn eu lle, ac wedi cyflwyno'r Adroddiadau Sicrwydd Ariannol perthnasol i Bwyllgor Archwilio'r BBC.

Mae gwerthusiad annibynnol o effeithiolrwydd y Bwrdd wedi'i gynllunio ar gyfer haf 2020

### 2. Strategic and Financial

The Board's funding is currently derived from three sources, namely grant in aid from the Department for Digital, Culture, Media and Sport, from the Licence Fee and commercial income generated by S4C. The independent review of S4C published in March 2018 recommended that S4C's public funding should be provided entirely through the licence fee from 2022/23 onwards, with all future funding decisions made as part of the BBC licence fee funding settlement. In the lead up to that milestone, S4C has begun the process of considering its purpose as a Public Service Media organisation, and asking the questions as to what services should it deliver in future, to whom and how.

During the year, discussions continued with HMRC and the UK Government regarding changes to S4C's tax status and the unintended financial consequences of such a decision. We were pleased that the Chancellor announced on 9 March 2020 that the UK Government will bring S4C's VAT arrangements into line with UK wide broadcasters such as the BBC, and that S4C will be able to recover the VAT it pays on its costs from April 2021. The aim is for this change to be made in the 2020 Autumn Finance Bill, meaning that S4C will be refunded the VAT it incurs from April 2021. The announcement also confirmed that DCMS will continue to cover S4C's VAT payments until then.

Towards the end of the financial year, COVID-19 emerged as a major issue with the Board having to consider how S4C would respond to the challenges and risks posed by the pandemic. Clearly the broadcasting and production sectors are facing unprecedented financial and operational challenges resulting from COVID-19. We anticipate that these challenges will continue for some time and will be working closely with both the UK and Welsh Government, the sector and other partners as the situation develops.

### 3. Governance and Structure

The Board's system of and procedures for corporate governance have been radically overhauled since 2010 to ensure that they are robust and fit for purpose.

The Board has continued to implement a number of the recommendations of the independent review of S4C published in March 2018 relating to the structure and governance of S4C. This includes the appointment of the Comptroller and Auditor General as S4C's external auditor during the year, and ongoing discussions with DCMS about making changes in primary legislation to deliver on the recommendations of the Review.

The new Partnership, Funding Agreement and Accountability Agreement between S4C and the BBC came into effect in November 2017. The Board has put in place reporting processes for the provision of financial assurance to the BBC and has presented the required Financial Assurance Reports to the BBC's Audit Committee.

An independent evaluation of the Board's effectiveness is planned for summer 2020.

## Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Materion Cyffredinol

Mae’r adroddiad hwn yn nodi’r cyfrifoldebau a ddirprwyir i’r Pwyllgor gan y Bwrdd, ynghyd â chrynodeb o waith y Pwyllgor yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020.

Mae’r adroddiad hefyd yn nodi sut y mae’r Pwyllgor wedi cynorthwyo’r Bwrdd i adolygu amgylchedd rheoli mewnl S4C, gwaith y Pwyllgor mewn perthynas ag adolygu effeithiolrwydd y archwilwyr mewnl ac allanol, ynghyd â goruchwyllo datblygiad rhaglen gwerth am arian.

Mae gan aelodau’r Pwyllgor rhyngddynt ystod eang o brofiad busnes, ariannol, llywodraethiant a materion personél sy’n galluogi’r Pwyllgor i gyflawni ei gylch gorchwyl mewn modd cadarn ac annibynnol.

Yn unol â Rheolau Sefydlog y Bwrdd, mae’r Pwyllgor yn cynnwys o leiaf tri aelod anweithredol o’r Bwrdd:

<b>Aelodau’r Pwyllgor: Hyd at 26/09/2018</b>	<b>O 27/09/2018</b>
Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd) Anita George Rhodri Williams Huw Jones	Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd) Anita George Rhodri Williams

Mae Prif Weithredwr S4C, y Prif Swyddog Gweithredu (gyda chyfrifoldeb am faterion personél), y Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd y Bwrdd hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor.

Mae cynrychiolwyr o archwilwyr mewnl S4C, TIAA a hefyd lle y bo’n berthnasol, archwilwyr allanol S4C, yr NAO hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor. Yn ogystal, mae’r Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat gyda’r archwilwyr mewnl ac allanol yn flynyddol.

### Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

Mae rhaglen waith flynyddol y Pwyllgor yn cynnwys:

#### Materion Archwilio a Rheoli Risg

- Adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth y Datganiad Ariannol Blynyddol ar ôl trafodaeth gyda’r archwilwyr allanol;
- Adolygu cwmpas y swyddogaethau archwilio mewnl ac allanol a chymeradwyo anghenion archwilio strategol S4C;
- Ystyried canfyddiadau’r archwilwyr mewnl, yn enwedig mewn perthynas â systemau ariannol craidd a phrosesau adrodd;
- Adolygu cofrestr risg S4C, y broses o adnabod a chofnodi risgiau, a’r camau a gymerwyd gan y Tîm Rheoli i reoli a lliniaru risgiau a’u canlyniadau i S4C;
- Datblygu rhaglen gwerth am arian ac adolygu’r gwerth am arian a ddarperir gan weithgareddau S4C.

#### Materion Personél a Chydnabyddiaeth

- Goruchwyllo systemau personél S4C a monitro eu heffeithiolrwydd;
- Cynghori’r Bwrdd ar uwch benodiadau, gan gynnwys telerau ac amodau; a
- Cynghori’r Bwrdd ar bob mater yn ymwneud â chydnabyddiaeth a thelerau staff.

#### Craffu Prif Brosiectau:

Mae’r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu pob prosiect a ddynodir yn brif brosiect gan y Bwrdd. Yn ystod y flwyddyn roedd y rhain yn cynnwys y prosiect Cydleoï ac ystâd S4C yn Llanisien, Caerdydd

Mae’r Pwyllgor yn gweithredu rhaglen strwythuredig o weithgareddau, gydag eitemau ar yr agenda sy’n cyd-fynd â dyddiadau pwysig y cylch adrodd ariannol blynyddol, themâu neu feysydd risg y mae’r Pwyllgor wedi eu hadnabod, ynghyd ag eitemau sefydlog y mae’n ofynnol i’r Pwyllgor eu hystyried yn rheolaidd o dan ei gylch gorchwyl. Mae Cadeirydd y Pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol i’r Bwrdd ar ôl pob cyfarfod o’r Pwyllgor.

Cyfarfu’r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

## Report of the Chair of the Audit and General Purpose Committee

This report sets out the responsibilities delegated to the Committee by the Board, together with a summary of the work of the Committee during the period 1 April 2019 - 31 March 2020.

The report also sets out how the Committee has assisted the Board to review S4C’s internal control environment, the work of the Committee in relation to reviewing the effectiveness of the internal and external auditors, as well as overseeing the development of the value for money programme.

Members of the Committee have a wide range of experience in the fields of business, financial, governance and personnel that enables the Committee to fulfill its terms of reference in a robust and independent manner.

In accordance with the Board’s Standing Orders, the Committee consists of at least three non-executive members of the Board:

<b>Committee members: Until 26/09/2018</b>	<b>From 27/09/2018</b>
Hugh Hesketh Evans (Chair) Anita George Rhodri Williams Huw Jones	Hugh Hesketh Evans (Cadeirydd) Anita George Rhodri Williams

S4C’s Chief Executive, the Chief Operating Officer (with responsibility for personnel matters), the Chief Finance Officer and the Secretary to the Board also attend Committee meetings.

Representatives from S4C’s internal auditors, TIAA and also where relevant, S4C’s external auditors, the NAO also attend Committee meetings. In addition, the Committee meets in private with the internal and external auditors annually.

### Committee’s Terms of Reference

The Committee’s annual work plan includes:

#### Audit and Risk Management Issues

- Reviewing and recommending for approval the Annual Statement of Accounts after discussion with the external auditors;
- Reviewing the scope of the internal and external audit functions and approving S4C’s strategic audit needs;
- Consideration of the findings of the internal auditors, in particular in relation to core financial systems and reporting processes;
- Reviewing S4C’s risk register, the process of identifying and recording risks, and of steps taken by the Management Team to control and mitigate risks and their consequences for S4C; and
- Developing a value for money programme and reviewing the value for money provided by S4C’s activities.

#### Personnel and Remuneration Issues

- Reviewing and monitoring S4C’s personel systems and their effectiveness;
- Advising the Board on senior appointments, including terms and conditions; and
- Advising the Board on all matters relating to staff remuneration and terms.

#### Scrutiny of Major Projects:

The Committee is responsible for the scrutiny of all major projects as designated by the Board. During the year these included the co-location project and S4C’s estate in Llanishen, Cardiff.

The Committee works to a structured programme of activities with agenda items focused to coincide with key events of the annual financial reporting cycle, themes or areas of risk that the Committee has identified, together with standing items that the Committee is required to consider regularly under its terms of reference. The Chair of the Committee reports formally to the Board after each meeting of the Committee.

The Committee met four times during the year.

### Prif feysydd gwaith y Pwyllgor yn ystod 2019/20 oedd:

#### Materion Archwilio a Rheoli Risg

Rheolaethau mewnl: Adolygodd y Pwyllgor effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnl, gan ystyried canfyddiadau’r adroddiadau archwilio mewnl ac allanol.

**Adroddiadau ariannol:** Adolygodd y Pwyllgor ddatganiadau ariannol y Bwrdd ac ystyriodd adroddiadau gan y rheolwyr a’r archwilwyr allanol parthed cydymffurfiaeth gyda safonau cyfrifo a chydymffurfio â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad archwilio mewnl ar effeithiolrwydd y rheolaethau ariannol allweddol o fewn S4C.

**Rheoli risg:** Ystyriodd y Pwyllgor brosesau ar gyfer rheoli risgiau ac ansicrwydd sylweddol o fewn S4C. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad archwilio mewnl ar y trefniadau i ymgorffori rheoli risg mewn cynllunio busnes a’r fframwaith rheolaethau mewnl.

**Gwaith ac asesiad gofynion archwilio mewnl:** Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am benodi archwilwyr mewnl newydd ym mis Medi 2019. Parhaodd y Pwyllgor i oruchwyllo gwaith archwilwyr mewnl S4C a rhoddwyd ystyriaeth i’w hadroddiadau, ymatebion gan reolwyr a chynlluniau gweithredu oedd yn ymateb i argymhellion perthnasol. Rhoddodd y Pwyllgor hefyd ystyriaeth i asesiad o anghenion archwilio’r Bwrdd a chymeradwyodd gynllun gwaith blynyddol yr archwilwyr mewnl.

**Perthynas gyda’r archwilwyr allanol:** Roedd y Pwyllgor yn gyfrifol am oruchwyllo’r berthynas gydag archwilwyr allanol newydd S4C (Swyddfa Archwilio Cenedlaethol), gan gynnwys cwmpas eu gwaith a’u dull gweithredu, eu ffioedd, eu perfformiad a’u hannibyniaeth.

**Llywodraethiant corfforaethol:** Mae’r Pwyllgor yn parhau i oruchwyllo gweithrediad system llywodraethiant corfforaethol S4C, gan gynnwys ystyried asesiad o effeithlonrwydd trefnweithiau’r Bwrdd ac arolygu’r trefniadau ar gyfer cyflwyno trefnweithiau llywodraethiant newydd a pharatoadau ar gyfer gweithredu fel bwrdd unedol ffurfiol.

**Parhad busnes:** Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i drefniadau parhad busnes S4C yn ystod y cyfnod. Yn ystod mis Mawrth 2020, ystyriodd y Bwrdd gynllun COVID-19 S4C yn manylu ar sut y byddai’n ymateb i’r heriau a’r risgiau a berir gan y pandemig.

Gweithredwyd a phrofwyd y trefniadau hyn yn llawn yn ystod Mawrth 2020 mewn ymateb i COVID-19. Unwaith y daeth yn amlwg y byddai’n rhaid i’r DU fynd mewn i gynllun lockdown rhoddwyd cynlluniau ar waith i sicrhau y byddai gwasanaethau a chynnwys S4C yn parhau i addysgu a difyrro’r gynulleidfa yn ogystal â’u cefnogi. Roedd sicrhau parhad darlledu yn flaenoriaeth allweddol. Roedd gweithlu S4C eisoes yn gyfarwydd â gweithio’n hyblyg ac ar-lein, gyda staff mewn tri lleoliad, roedd llawer o weithwyr eisoes yn gweithio o tu allan i swydfeydd, neu o fwy nag un swyddfa. Cyn i’r cyfyngiadau symudiad gael eu gweithredu, anogwyd staff a allai weithio gartref i wneud hynny a rhoddwyd mesurau ar waith i sicrhau y gallai cydweithwyr ar yr ochr ddarlledu weithio’n ddiogel o ganolfan darlledu Parc Tŷ Glas S4C.

#### Cydleoï Gwasanaethau Technegol Darlledu

Yn ystod y cyfnod hwn, darparwyd ddiweddiadau rheolaidd i’r Pwyllgor a’r Bwrdd Unedol ynghylch paratoadau ar gyfer cydleoli a rhannu swyddogaethau darlledu technegol S4C a BBC Cymru yng Nghanolfan Ddarlledu newydd y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd. Yn ystod y flwyddyn, ysgrifennwyd yn ffurfiol at y BBC yn codi pryderon ynghylch diffyg cynnydd gyda’r prosiect. Cafwyd sawl dyddiad posib ar gyfer y symud, o fis Tachwedd 2019 ymlaen, ac yn y pen draw ymrwymodd y BBC, o dan y cytundeb partneriaeth, i symud S4C i mewn cyn diwedd blwyddyn ariannol 2019/20. Ni chyflawnwyd hyn, ac yna cafodd pandemig COVID-19 effaith ar y dyddiad nesaf a osodwyd (Mai 2020). Mae’r prosiect wedi aildddechrau ers hynny a’r dyddiad diweddaraf ar gyfer cydleoli yw diwedd hydref 2020.

### Key areas of work for the Committee during 2019/20 were:

#### Audit and Risk Management Issues

Internal Controls: The Committee reviewed the effectiveness of the system of internal control, taking into account the findings of internal and external audit reports.

**Financial reports:** The Committee reviewed the Board’s financial statements and considered reports from the external auditors regarding compliance with accounting standards and compliance with legal and regulatory requirements. In addition, the Committee considered an internal audit report on the effectiveness of the key financial controls within S4C.

**Risk management:** The Committee considered processes for managing significant risks and uncertainties within S4C. In addition, the Committee considered an internal audit report on the arrangements to embed risk management into business planning and the internal controls assurance framework.

#### Internal audit requirements, scheme of work and assessment:

The Committee was responsible for the appointment of new internal auditors in September 2019. The Committee continued to oversee their work, taking account of their reports, management’s responses and action plans that responded to relevant recommendations. The Committee also considered an assessment of the Board’s audit needs and approved the internal auditors’ annual work plan.

**Relationship with the External Auditors:** The Committee was responsible for overseeing the relationship with S4C’s new external auditors (National Audit Office), including the scope and approach to their work, their fees, performance and independence.

**Corporate governance:** The Committee continues to oversee the implementation of S4C’s corporate governance system, including considering an assessment of the efficiency of the Board’s procedures and overseeing the new governance arrangements and preparations for operating as a formal unitary board.

**Business continuity:** The Committee considered S4C’s business continuity arrangements during the period. During March 2020 the Board considered S4C’s COVID-19 plan detailing how it would respond to the challenges and risks posed by the pandemic.

These arrangements were fully implemented and tested during March 2020 in response to COVID-19. As soon as it became apparent the UK might have to enter lockdown, plans were put in place to ensure that S4C’s services and content could continue to inform and entertain the audience but also to support them. Ensuring that broadcasting could continue was a key priority. S4C was already accustomed to online and flexible working with staff based across three locations, many employees already worked remotely or from more than one office. Before lockdown was imposed, staff who could work from home were encouraged to do so and measures put in place to ensure that colleagues on the broadcasting side could work safely from S4C’s Parc Tŷ Glas transmission hub.

#### Co-location of Technical Broadcast Services

During this period regular updates were provided to the Committee and Unitary Board regarding preparations for the co-location and sharing of S4C and BBC Cymru’s technical broadcasting functions at the new BBC Broadcasting Centre in Central Square Cardiff. Concerns regarding progress with the project were raised formally in writing with the BBC during the year. Despite several dates being set for the move from November 2019, the BBC were committed under the partnership agreement to move S4C in before the end of the 2019/20 financial year. This was not achieved and the next date set (May 2020) was then impacted on by the COVID-19 pandemic. The project has since resumed and the latest date for co-location is the end of autumn 2020.

**Y berthynas gyda'r BBC:** Datblygodd y Pwyllgor Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'w gyflwyno i Bwyllgor Archwilio'r BBC yn unol â gofynion y cytundeb Partneriaeth, Ariannu ac Atebolrwydd newydd gyda'r BBC. Yn ogystal, cyfarfu Cadeirydd y Pwyllgor â Chadeirydd Pwyllgor Archwilio'r BBC ym mis Hydref 2019 i drafod ystod o faterion.

**Rhaglen gwerth am arian:** Ystyriodd y Pwyllgor adroddiadau ac argymhellion ar gyfer asesu a chynnal gwerth am arian gwasanaethau S4C.

**Materion Personél a Chydnabyddiaeth:** Yn ystod y cyfnod rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i faterion yn cynnwys polisiâu personél S4C, darpariaeth hyfforddiant a datblygu, mentrau iechyd meddwl, canlyniadau a'r ymateb i Arolwg Staff, yn ogystal â chydleoli gwasanaethau darlledu technegol S4C â rhai BBC Cymru ym mhencadlys newydd y BBC yn Sgwâr Canolog, Caerdydd. Yn dilyn cyfnod o newidiadau mawr, cafwyd adolygiad mewnol mewn perthynas â rheolaeth staff.

#### **Adroddiad Cynladwyedd**

Nid yw'r Bwrdd yn cyflwyno adroddiad cynladwyedd llawn gan fod cyrff sydd â llai na 1,000m<sup>2</sup> o ofod adeilad neu sydd â llai na 250 o aelodau staff (ar sail nifer staff llawn amser – FTE) wedi eu heithrio o'r angen i ddarparu'r cyfryw wybodaeth.

**Relationship with the BBC:** In accordance with the requirements of the new Partnership, Funding and Accountability agreement with the BBC, the Committee signed off the Financial Assurance Report which was submitted to the BBC's Audit Committee. In addition, the Chair of the Committee met with the Chair of the BBC's Audit Committee in October 2019 and discussed a range of issues.

**Value for money:** The Committee Considered reports and recommendations for assessing and maintaining the value for money of S4C services.

**Personnel and Remuneration Issues:** During the period the Committee considered issues including S4C's personnel policies, training and development provision, mental health initiatives, the results and response to the Staff Survey, as well as the co-location of S4C's technical broadcast services with those of BBC Cymru in the BBC's new headquarters in Central Square, Cardiff. In addition, an internal audit review considered the arrangements for staff management following the period of extensive change.

#### **Sustainability Report**

The Board has not included a full sustainability report, as organisations occupying less than a total of 1,000m<sup>2</sup> of floor area or with fewer than 250 FTE staff are exempt from providing such a report.

## Adroddiad Polisi Cyflogaeth S4C

Mae'r adroddiad hwn yn nodi materion yn cynnwys polisi cyflogaeth a chydabyddiaeth S4C ac adroddiad cyflog ar sail rhyw.

### Cyfleoedd cyfartal

Mae S4C yn gyflogwr cyfle cyfartal. Nid yw'n goddef gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, sefyllfa deuluol, statws priodasol, rhan-amser neu weithwyr llawn-amser, crefydd, daliadau gwleidyddol, tueddfryd rhywiol, defnydd o iaith neu unrhyw wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroddedig i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol. Defnyddir egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

Mae S4C yn gweithredu system arfarnu sy'n pennu amcanion personol ar gyfer pob aelod o staff gan gynnwys y Tîm Rheoli. Mae'r amcanion hyn yn seiliedig ar amcanion corfforaethol blynyddol S4C a chaiff perfformiad mewn perthynas â'r amcanion hyn gan bob aelod o staff ei fonitro a'i werthuso fel rhan o system arfarnu staff S4C.

O dan y polisi cydnabyddiaeth a chytundebau cyflogaeth presennol nid yw S4C yn gweithredu unrhyw drefniadau cyflog neu gydnabyddiaeth sy'n gysylltiedig â pherfformiad ac nid oes unrhyw daliadau bonws neu elfennau cyflog dewisol yn cael eu talu i staff S4C.

### Cydnabyddiaeth Aelodau Anweithredol y Bwrdd

Caiff cydnabyddiaeth a chyfnod penodiad y Cadeirydd ac aelodau anweithredol y Bwrdd eu pennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Nodir manylion tâl y Cadeirydd a'r Aelodau yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Ni ddyfarnwyd unrhyw gynydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystod y cyfnod i lefel cydnabyddiaeth aelodau anweithredol y Bwrdd na'r Cadeirydd.

Pennir cydnabyddiaeth Aelodau Gweithredol y Bwrdd Unedol gan Aelodau Anweithredol y Bwrdd yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol a Rheolau Sefydlog y Bwrdd.

### Cydnabyddiaeth ar gyfer staff S4C

Mae cyflog y Prif Weithredwr, yr Ysgrifennydd ac aelodau'r Tîm Rheoli yn cael ei bennu gan y Bwrdd. Caiff cyflogau aelodau eraill staff S4C eu pennu gan y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli o fewn y gyllideb flynyddol a gymeradwywyd gan y Bwrdd.

Caiff pob codiad cyflog cyffredinol ar gyfer aelodau staff ei gadarnhau gan y Bwrdd ar argymhelliad y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli. Cyflog canolrif yr holl staff ac eithrio'r Tîm Rheoli ar 31 Mawrth 2020 oedd £33,901 (ar 31 Mawrth 2019 - £33,774).

### Polisi Cydnabyddiaeth

Cymeradwyodd y Bwrdd bolisi cydnabyddiaeth yn 2012. Yn ystod y flwyddyn dyfarnwyd codiad cyflog cyffredinol o 2.5% i'r holl staff.

Bwriad y polisi yw sicrhau cydbwysedd rhwng cydnabod cyfraniad pwysig staff i lwyddiant y gwasanaeth gyda'r angen i sicrhau fod costau staffio S4C yn parhau i gyfrif am ganran fechan o gyfanswm gwariant S4C ac yn darparu gwerth am arian o fewn setliad ariannol presennol S4C.

Mae lefel cydnabyddiaeth penodiadau newydd yn cael ei feincodi gyda swyddi tebyg o fewn y farchnad yng Nghymru er mwyn sicrhau bod S4C yn parhau i allu denu'r dalent gorau posibl.

## S4C's Employment Policy Report

This report provides information relating to S4C's employment and remuneration policy and gender pay report.

### Equal opportunities

S4C is an equal opportunities employer. It does not tolerate discrimination based on gender, race, color, disability, ethnic or socio-economic background, age, family situation, marital status, part-time or full-time employees, religion, political holdings, sexual orientation, use of language or any other irrelevant difference and is committed to working with diversity in a positive way. The principles of fair and open competition apply and appointments are made on merit.

S4C operates an appraisal system which sets personal objectives for all members of staff including the Management Team. These objectives are based on S4C's annual corporate objectives and performance against these objectives by all members of staff is monitored and evaluated as part of S4C's staff appraisal system.

Under the remuneration policy and existing employment agreements S4C does not operate any performance related pay arrangements and no bonus payments or discretionary salary elements are paid to S4C staff.

### Remuneration of Non-Executive Board Members

The remuneration and period of appointment of the Chair and the non-executive members of the Board are determined by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport.

Details of the remuneration of the Chair and Members are set out in Note 6 to the Statement of Accounts.

No remuneration increases were awarded by the Secretary of State to the Chair or Authority Board members during the period.

Remuneration of Executive Members of the shadow unitary Board is determined by the Non-Executive Members of the Board in accordance with the relevant statutory provisions and the Board's Standing Orders.

### Remuneration of S4C staff

The remuneration of the Chief Executive, the Secretary and the members of the Management Team is determined by the Board. The salaries of other S4C members of staff are determined by the Chief Executive and the Management Team within the annual budget approved by the Board.

Any general salary increases for staff are ratified by the Board on the recommendation of the Chief Executive and Management Team. The median salary of all staff excluding the Management Team at 31 March 2020 was £33,901 (at 31 March 2019 - £33,774).

### Remuneration Policy

The Board approved a remuneration policy in 2012. During the year all staff were awarded a general salary increase of 2.5%.

The policy is intended to ensure a balance between recognising the contribution of all staff to the success of the service, with the need to ensure that S4C's total staff costs continue to account for a small percentage of S4C's total spend and provide value for money within the current funding settlement.

Remuneration of new appointments is benchmarked with comparable positions within the market in Wales to ensure S4C continues to be able to attract the best possible talent.

### Perfformiad y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli

Mae perfformiad y Prif Weithredwr yn cael ei asesu yn flynyddol gan y Bwrdd. Mae'r broses hon yn cael ei arwain gan y Cadeirydd.

Mae S4C yn gweithredu system o asesu perfformiad ac amcanion personol a chorfforaethol ar gyfer aelodau'r Tîm Rheoli. Caiff yr amcanion hyn eu cytuno rhwng y Prif Weithredwr ac aelodau unigol y Tîm Rheoli ar ddechrau'r flwyddyn a bydd eu perfformiad yn eu herbyn yn cael eu hasesu gan y Prif Weithredwr yn ystod ac yn dilyn diwedd y flwyddyn.

Cyflog canolrif y Tîm Rheoli ar 31 Mawrth 2020 oedd £103,777 (ar 31 Mawrth 2019 - £101,245). Roedd y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn derbyn 4.7 gwaith yn fwy na thâl canolrifol yr holl staff ac eithrio'r Tîm Rheoli (2018/19 - 4.6 gwaith).

### Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli

Nodir manylion cyflog y Prif Weithredwr a'r Tîm Rheoli yn Nodyn 6 y Datganiad Ariannol.

Mae aelodau'r Tîm Rheoli a gyflogwyd cyn Ionawr 2012 yn cael eu cyflogi ar gytundebau parhaol. Mae unrhyw benodiadau i'r Tîm Rheoli a'r Tîm Comisiynu ers mis Ionawr 2012 ar sail cytundebau tymor penodol, ar wahân i'r unigolion a gyflogwyd eisoes gan S4C cyn 2012 ar gytundebau parhaol oedd eisoes yn bodoli.

### Cyfansoddiad gweithlu S4C

Ar 31 Mawrth 2020, roedd gweithlu S4C yn cynnwys 59% o ferched a 41% o ddynion (ar 31 Mawrth 2019 - 61% yn ferched a 39% yn ddynion).

### Performance of the Chief Executive and Management Team

The Chief Executive's performance is assessed annually by the Board. This process is led by the Chair.

S4C operates a system of performance assessment and personal and corporate objectives for Management Team members. These objectives are agreed between the Chief Executive and the individual members of the Management Team at the beginning of the year and their performance is assessed by the Chief Executive during and following the end of the year.

The median salary of the Management Team as at 31 March 2020 was £103,777 (at 31 March 2019 - £101,245). The salary of the highest paid director was 4.7 times the median remuneration of all staff excluding the Management Team (2018/2019 – 4.6 times).

### Annual Report on Remuneration of the Chief Executive and Management Team

Details of the remuneration of the Chief Executive and Strategic Management Board are set out in Note 6 of the Statement of Accounts.

Members of the Management Team employed before January 2012 are employed on permanent contracts. Appointments to the Management Team and Commissioning Team since January 2012 have been made on the basis of fixed term contracts, other than for those already employed by S4C prior to 2012 on pre-existing permanent contracts.

### Composition of S4C's workforce

At 31 March 2020, S4C's workforce comprised of 59% women and 41% men (at 31 March 2019 - 61% women and 39% men).



## Adroddiad Cyflog ar Sail Rhyw

Daeth deddfwriaeth cyflog rhwng y rhywiau newydd i rym ym mis Ebrill 2017, gan ei gwneud yn ofynnol i bob cwmni yn y DU sydd â thros 250 o weithwyr gyhoeddi eu bwllch cyflog rhwng y rhywiau. Er nad oes gan S4C fwy na 250 o weithwyr, rydym wedi penderfynu cyhoeddi data cyflog ar sail rhyw.

Mae bwllch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyflog cyfartalog yr holl staff benywaidd a chyflog cyfartalog yr holl staff gwrywaidd, heb ystyried unrhyw wahaniaethau yn y gwaith y maent yn ei wneud. O ganlyniad, mae'n cael ei effeithio gan natur y gweithlu, gan gynnwys niferoedd mewn gwahanol fathau o swyddi ac ar lefelau gwahanol o fewn y sefydliad.

Nod S4C yw sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws ein gweithlu, o ran statws, cydnabyddiaeth ariannol a natur y gwaith.

Ar draws y sefydliad cyfan, roedd y bwllch canolrif mewn cyflogau rhwng y rhywiau ar gyfartaledd yn 19.5% (2018/19 – 17.6%) a'r bwllch cyflog cyfartalog rhwng y rhywiau yn 31.2% (2018/19 – 21.7%).

Nodir isod ddata ar gyfer canran y staff gwrywaidd a benywaidd a'r bwllch cyflog o fewn sectorau a elwir yn chwarterli (sy'n fandiâu cyflog o'r un maint, o'r 25% o weithwyr ar y cyflog isaf i'r 25% ar y cyflog uchaf).

Yn hanesyddol, isel iawn yw trosiant staff oddi fewn i S4C, ond fe wnaeth adleoli ei bencadlys yn 2018 arwain at nifer o newidiadau o ran rhaniad rhyw y gweithlu trwy drosgiant staff, a meincnodi cyflogau.

Amlygir y newidiadau hyn yn yr haen canol ac uwch sy'n dangos cynnydd cadarnhaol bychan, yn ogystal â chydbwysedd rhyw 50:50 yn y chwarterli uchaf. O fewn yr haenau canol ac isaf, mae'r niferoedd wedi aros yn eu hunfan. Fodd bynnag, mae'r chwarterli isaf wedi gweld cryn newid, gyda chydbwysedd rhwng y rhywiau yn newid oherwydd bod nifer o rolau newydd yn cael eu cyflwyno dros y 12 mis diwethaf.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau, mae S4C wedi cyflwyno cynllun hyfforddiant Amrywiaeth a Chydraddoldeb i'w holl staff, gyda'r nod o hybu ymwybyddiaeth a sicrhau bod yr holl weithwyr yn gweithredu fel role model i'r sefydliad. Mewn perthynas â swyddi gwag, rhoddwyd cryn sylw i bolisi gweithio'n hyblyg S4C, yn ogystal â sicrhau bod y swyddi'n cael eu hysbysebu ar ystod eang o lwyfannau.

Mae gan S4C banel personel sy'n ystyried cyflogau cyfartal a theg o ran y gweithlu. Mae'r panel hwn yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod swyddi gwag, newidiadau swyddi a chyflogau. Mae pob cyflog yn cael ei feincnodi'n allanol gyda diwydiannau tebyg.

## Gender Pay Report

New Gender Pay legislation came into effect in April 2017, requiring all UK companies with over 250 employees to publish their gender pay gap. Although S4C does not have more than 250 employees we have decided to publish gender pay data.

A gender pay gap shows the difference between the average pay of all women and the average pay of all men, irrespective of any differences in the work they do. As a result, it is affected by the make-up of the workforce, including numbers in different types of jobs and at different levels within the organisation.

S4C's aim is to ensure that there is gender balance across our workforce, both in terms of seniority, remuneration and the nature of the work.

Across the whole organisation, S4C's overall mean gender pay gap was 19.5% (2018/19 – 17.6%) and the median gender pay gap was 31.2% (2018/19 – 21.7%).

The data below sets out the percentage of male and female staff and the pay gap within sectors known as quartiles (which are equally sized pay bands ranging from the lowest paid 25% of workers to the highest paid 25%).

The workforce within S4C has historically seen low churn, however the relocation of its headquarters in 2018 brought about a number of changes to the gender split of its staff base through staff turnover, and salary benchmarking.

These changes are evidenced in the upper middle which shows a small positive increase, in addition to a 50:50 gender balance in the upper quartile. With no staff movement within the lower middle, the numbers have remained static. However, the lower quartile has seen a widening of the gender balance due to a number of new roles being introduced in place of lower middle roles, over the past 12 months.

To help address the gender imbalance S4C has implemented Diversity and Equality training for all its staff. Its aim, to promote awareness and to ensure all employees act as role models for the organisation. S4C promoted its flexible working policy on all its job vacancies, in addition to ensuring the jobs are advertised on a broad range of platforms.

S4C has a personnel panel. This panel meets regularly to discuss vacancies, job and remuneration changes. All salaries are benchmarked externally within similar industries.

Blwyddyn Year	Total		Chwarter / Quartile 1 Uchaf / Upper		Chwarter / Quartile 2 Canol uchaf / Upper middle		Chwarter / Quartile 3 Canol isaf / Lower middle		Chwarter / Quartile 4 Isaf / Lower	
	Gwryw Male	Benywaidd Female	Gwryw Male	Benywaidd Female	Gwryw Male	Benywaidd Female	Gwryw Male	Benywaidd Female	Gwryw Male	Benywaidd Female
% staff										
2019/20	41%	59%	50%	50%	62%	38%	28%	72%	20%	80%
2018/19	39%	61%	40%	60%	64%	36%	28%	72%	25%	75%
Canolrif % bwllch Median % gender gap										
2019/20	31.2%	-	14.2%	-	-	7.4%	10.2%	-	-	4.7%
2018/19	-	-	18.0%	-	4.7%	-	7.4%	-	-	6.6%
Cyfartaledd % bwllch Average % gender gap										
2019/20	19.4%	-	7.3%	-	-	4.6%	6.0%	-	-	4.0%
2018/19	-	-	17.8%	-	-	0.1%	3.3%	-	-	5.7%

## Rheoliadau Undebau Llafur (gofynion cyhoeddi amser a neilltuir)

Yn unol â'r Rheoliadau Undebau Llafur (gofynion cyhoeddi amser a neilltuir) 2017, mae'r adroddiad hwn yn nodi faint o amser y mae gyflogaion S4C wedi ei dreulio ar faterion yn ymwneud gyda gwaith yr undeb.

### Swyddogion undeb perthnasol

Yn ystod y flwyddyn, roedd un cyflogai yn gweithredu fel swyddog undeb perthnasol.

### Canran yr amser a dreulwyd ar waith undebol

Treuliodd y cyflogai perthnasol 4 awr dan gontract ar waith undebol.

### Canran y gwariant cyflogau sy'n cael ei wario ar amser ar gyfer gwaith undebol

Roedd llai nag 1% o gyfanswm y bil cyflog yn cael ei wario ar amser ar gyfer gwaith undebol.

## The Trade Union (Facility Time Publication Requirements)

In accordance with the Trade Union (Facility Time Publication Requirements) Regulations 2017, this report sets out the amount of time spent by S4C employees on union facility time.

### Relevant union officials

During the year, one employee acted as a relevant union official.

### Percentage of time spent on facility time

The relevant employee spent 4 contracted hours on facility time.

### Percentage of pay bill spent on facility time

Less than 1% of the total pay bill was spend on facility time.

# Datganiad Ariannol 2019/20

## Adroddiad S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2020

### Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd 31 Mawrth 2020, ynghyd â nodiadau esboniadol.

Cyflwynir Datganiad Ariannol S4C am y flwyddyn a derfynodd ar 31 Mawrth 2020 yn unol a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a ryddhawyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i S4C ym mis Mawrth 2020.

Mae'r Bwrdd yn cyflwyno asesiad cytbwys o sefyllfa a rhagolygon S4C yn yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei chyflwyno yn ôl gofynion statudol.

### Prif weithgareddau

Mae S4C yn gweithredu o dan Adrannau 203 hyd 207 (yn gynwysiedig) ac Atodlen 12 Deddf Cyfathrebiadau 2003. Mae Adran 204 yn darparu bod S4C yn gweithredu i ddarparu gwasanaethau rhaglenni teledu o safon uchel gyda'r bwriad iddynt fod ar gael yn gyfan gwbl neu yn bennaf i'r cyhoedd yng Nghymru. Wrth gyflawni'r swyddogaeth honno, rhaid i S4C barhau i ddarlledu'r gwasanaeth digidol a adnabyddir mewn deddfwriaeth fel S4C digidol.

### Strwythur grŵp

Mae is-baragraffau (2) a (3) Paragraff 1 Atodlen 6 Deddf Darlledu 1990 (fel y'u diwygiwyd gan Adran 206 (6) Deddf Cyfathrebiadau 2003) yn caniatáu i S4C, i'r graddau ei bod yn ymddangos iddynt bod gwneud hynny'n atodol neu'n arweiniol i gyflawni eu swyddogaeth, i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, trwy gwmnïau S4C gan ddefnyddio cyllid masnachol yn unig. Yn ogystal, mae'r darpariaethau trawsnewidiol ym mharagraff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003 yn caniatáu i S4C barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau masnachol, a oedd yn cael eu cyflawni yn syth cyn dechreuad Adran 206, naill ai eu hunain neu drwy un o gwmnïau S4C.

O fewn y Datganiad Ariannol cyfun hwn, cyfeirir at Gronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel S4C ac at gyfanswm y gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol fel Grŵp S4C. Cyfeirir at yr asedau nad ydynt yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus fel y Gronfa Gyffredinol.

### Cyllid

Mae'r darpariaethau'n ymwneud â gofynion ariannol S4C wedi eu nodi yn Adran 31 Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011. Mae'r adran yn rhoi dyletswydd statudol ar yr Ysgrifennydd Gwladol i sicrhau y telir swm i S4C y mae o'r farn ei fod yn ddiagonol i dalu cost S4C bob blwyddyn ar gyfer (a) darparu gwasanaethau cyhoeddus S4C (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003); a (b) threfnu i ddarlledu neu ddosbarthu'r gwasanaethau hynny. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gyflawni'r ddyletswydd hon drwy wneud taliadau ei hun neu lunio cytundeb ag unigolyn arall i'r unigolyn hwnnw wneud hynny (neu'r ddau). Rhaid i'r cyfryw cyllid gael ei gadw yn y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'i gymhwyso at ddibenion darparu gwasanaethau cyhoeddus y Bwrdd yn unig. Ni chaniateir unrhyw gymhorthdal o'r Gronfa Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer unrhyw un o is-gwmnïau S4C.

Yn ystod y flwyddyn, daeth cyllid S4C o Ffi'r Drwydded trwy'r BBC, a chymorth grant a ddarperir gan yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS). Mae S4C hefyd yn cynhyrchu refereniw drwy weithgareddau masnachol, gan gynnwys hysbysebion, gwerthiant a nawdd rhaglenni.

Cafodd y darpariaethau sy'n ymwneud â chyfraniad Ffi'r Drwydded ar gyfer 2019/20, amlinellwyd yng Nghytundeb Fframwaith y BBC gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016, sy'n cynnwys y darpariaethau ariannol gytunwyd arnynt rhwng y BBC, yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C o 2017/18 i 2021/22 ac ymrwymiad pellach tan 2027/28, gyda'r symiau ar gyfer y cyfnod hwnnw i'w cytuno rhwng y BBC, yr Ysgrifennydd Gwladol ac S4C yn dilyn yr adolygiad o S4C a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018. Mae cymal 39 o'r Cytundeb Fframwaith yn nodi y bydd Ffi Drwydded y BBC yn cyfrannu £74.5m yn flynyddol i S4C rhwng 2017/18 a 2021/22.

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi nodi'r symiau y bydd y DCMS yn eu cyfrannu i S4C tan 2020/21 mewn Llythyr Setliad Cyllid ym mis Mawrth 2020.

Yn dilyn yr adolygiad o S4C, cyhoeddodd DCMS y byddai ei chyfraniad ariannol i S4C ar gyfer y flwyddyn ariannol 2019/20 yn aros ar lefel £6.762m.

Yn dilyn newid yn statws TAW S4C, talodd DCMS gymorth grant ychwanegol o £14.870m i S4C yn ystod 2019/20.

### Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a throsiant y Gronfa Gyffredinol

Roedd y cyfanswm a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC yn ystod y cyfnod yn £96.132m (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - £81.262m). Defnyddiwyd yr incwm hwn i gyllido costau comisïynu a phrynu rhaglenni Cymraeg, costau darlledu S4C, gwariant ar asedau sefydlog a gorbienion. Mae balans yr incwm hwn, ar ôl cost darlledu rhaglenni a chostau gweithredu a gweinyddu, felly yn cynrychioli'r prif fodd o gyllido asedau net S4C ac yn cael ei drin fel incwm gohiriedig yng Nghronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus. Crëwyd trosiant y Gronfa Gyffredinol trwy werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsïandïo, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi. Yn y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2020, roedd cyfanswm y trosiant hwn yn £2.019m (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - £2.064m). Rhoddir manylion pellach yn nodyn 3 i'r Datganiad Ariannol.

### Gwariant

Mae'r costau a roddwyd yn erbyn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr yn ystod y cyfnod yn cynnwys £92.285m (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - £77.111m) ar gyfer costau'r gwasanaeth rhaglenni a chostau darlledu a dosbarthu, £0.750m ar gyfer costau uniongyrchol eraill (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - £0.812m) a £3.576m (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - £4.171m) ar gyfer costau gweithredu a gweinyddu. Roedd costau'r rhaglenni a ddarledwyd yn cynnwys £75.968m (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - £63.471m) ar gyfer costau rhaglenni a gomisiynwyd neu a brynwyd gan gyflenwyr rhaglenni ac ailddarllediadau. Mae'r costau darlledu a dosbarthu yn codi mewn perthynas â llwyfannau digidol daearol a lloeren gan gynnwys gwasanaethau fideo ar alw a ddarperir gan gontractwyr. Roedd y gweddill yn gostau uniongyrchol comisïynu a chyflwyno rhaglenni, costau gweithredol gwasanaethau mynediad S4C ynghyd â chostau darlledu perthnasol eraill y gwasanaeth rhaglenni megis costau marchnata a chostau ymchwil cynulleidfa.

Mae costau uniongyrchol eraill yn cynnwys blaendaliadau cyllido cydgy'nrychiadau i drydydd partïon, rhaniad elw a oedd yn daladwy i drydydd partïon mewn perthynas â gwerthu rhaglenni, comisïwn asiantaeth a chostau darlledu sy'n ymwneud â hysbysebion a chostau darlledu digidol yn ymwneud â gofod darlledu S4C2 Cyf. Ceir manylion pellach am gostau gweithredu a gweinyddu S4C yn nodyn 4 i'r Datganiad Ariannol.

### Polisi talu

Mae'n bolisi gan S4C i gytuno ar amodau a thelerau addas ar gyfer ei drafodion â chyflenwyr ac, yn amodol ar eu cydymffurfiad, gwneir taliadau yn unol â'r telerau hyn. Yn arferol yn ystod y flwyddyn, talwyd 92% (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - 93%) o gyflenwyr cyn pen 30 diwrnod.

# Statement of Accounts 2019/20

## Report of S4C for the year ended 31 March 2020

### Foreword

This report sets out S4C's Statement of Accounts for the year ended 31 March 2020, together with explanatory notes.

The Statement of Accounts of S4C for the year ended 31 March 2020 is presented in accordance with the Accounts Direction issued by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport to S4C in March 2020.

The Board presents a balanced assessment of S4C's position and prospects in the information required to be presented by statutory requirements.

### Principal activities

S4C operates under Sections 203 to 207 (inclusive) and Schedule 12 of the Communications Act 2003. Section 204 provides that S4C shall have the function of providing television programme services of high quality with a view to their being available for reception wholly or mainly by members of the public in Wales. In carrying out that function, S4C must continue to broadcast the service provided in digital form referred to in legislation as S4C digital.

### Group structure

Sub-paragraphs (2) and (3) of Paragraph 1 of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 (as amended by Section 206 (6) of the Communications Act 2003) entitles S4C, to the extent that it appears to them incidental or conducive to the carrying out of their functions to do so, to carry out activities, including commercial activities, through S4C companies using commercial revenues only. Likewise, the transitional provisions contained in paragraph 27 of Schedule 18 to the Communications Act 2003 permit S4C to continue carrying on any activities, including commercial activities, which were being carried on immediately before the commencement of Section 206, either itself or through an S4C company.

Within this consolidated Statement of Accounts, the Public Service Fund is referred to as S4C and the total of both public service and commercial activities is referred to as the S4C Group. The assets of S4C that are not comprised in the Public Service Fund are referred to as the General Fund.

### Funding

The provisions relating to the financial requirements of S4C are set out in Section 31 of the Public Bodies Act 2011. This places a statutory duty upon the Secretary of State to ensure that S4C is paid an amount which he considers sufficient to cover the cost to S4C each year of (a) providing S4C's public services (within the meaning of Section 207 of the Communications Act 2003); and (b) arranging for the broadcasting or distribution of those services. The Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport may discharge this duty by making payments himself or entering into an agreement with another person for that person to do so (or both). Such funding must be held in the Public Service Fund and be applied only for the purposes of providing S4C's public services. No subsidy is permitted from the Public Service Fund for any S4C subsidiary.

During the year S4C's funding was derived from the Licence Fee, through the BBC and grant in aid provided by DCMS. S4C also generates commercial revenues through activities including advertising sales and programme sponsorship.

The provisions relating to the Licence Fee contribution for 2019/20 are set out in the BBC Framework Agreement published in December 2016 which includes the financial provisions that have been agreed between the BBC, the Secretary of State and S4C for the Licence Fee contribution from 2017/18 to 2021/22 and a further commitment until 2027/28, with the amounts for that period to be agreed between the BBC, the Secretary of State and S4C following the review of S4C, published in March 2018. Clause 39 of the Framework Agreement states that the Licence Fee will contribute £74.5m annually to S4C from 2017/18 to 2021/22.

The Secretary of State has set out the sums that DCMS will contribute to S4C in 2020/21 in a Funding Settlement Letter in March 2020.

Following the review of S4C the amount DCMS paid to S4C in 2019/20 remained at £6.762m.

Following a change in S4C's VAT status, DCMS paid additional grant in aid of £14.870m to S4C during 2019/20.

### Public Service Fund income and General Fund turnover

Amounts receivable from the DCMS and the BBC during the period totalled £96.132m (period to 31 March 2019 - £81.262m). This income was used to finance the cost of commissioning and acquiring Welsh language programmes, the transmission costs of S4C, expenditure on fixed assets and overheads. The balance of this income, after the cost of programme transmission and operational and administrative expenses, therefore represents the principal means of financing the net assets of S4C and is treated as deferred income in the Public Service Fund. General Fund turnover was generated by sales of airtime, rights in television programmes, sponsorship, merchandising, publishing and investment activities. It totalled £2.019m during the period to 31 March 2020 (period to 31 March 2019 - £2.064m). Further details are given in note 3 to the Statement of Accounts.

### Expenditure

Costs charged to the Consolidated Statement of Comprehensive income during the period include £92.285m (period to 31 March 2019 - £77.111m) for the cost of the programme service and transmission and distribution costs, £0.750m for other direct costs (period to 31 March 2019 - £0.812m) and £3.576m (period to 31 March 2019 - £4.171m) for operational and administrative expenses. The costs of programmes transmitted included £75.968m (period to 31 March 2019 - £63.471m) in respect of the cost of programmes commissioned or acquired from programme suppliers and repeats. Transmission and distribution costs are incurred in respect of digital terrestrial and satellite platforms including video on demand services provided by contractors. The balance comprised the direct costs of programme commissioning and presentation, the operational costs of access services provided by S4C and other related costs of the programme service such as marketing costs and audience research.

Other direct costs include third party co-production funding advances, profit participation due to third parties in respect of programme sales, agency commission and playout costs relating to advertisements and digital costs relating to S4C2 Cyf's broadcasting capacity. Further details of the operational and administrative costs of S4C are given in note 4 to the Statement of Accounts.

### Payment policy

It is S4C's policy to agree appropriate terms and conditions for its transactions with suppliers, and subject to their compliance, to make payments in accordance with these terms. Typically during the year, 92% (period to 31 March 2019 - 93%) of supplier balances were paid within 30 days.

## Oriau a ddarledwyd a chyfartaledd cost yr awr

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C gyfanswm o 6,556 awr o raglenni (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - 6,538 awr), yn cynrychioli cyfartaledd o 126.1 awr yr wythnos (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - 125.7 awr).

Derbyniodd S4C yr oriau statudol a ddarparwyd gan y BBC, a oedd yn cynnwys rhai ailddarlediadau, dan adran 58 (1) Deddf Darlledu 1990 (fel yr addaswyd gan Adran 29 Deddf Darlledu 1996) a thalwyd amdanynt gan y BBC o incwm y drwydded. Mae S4C hefyd wedi gwneud taliadau gwerth £2.0m i'r BBC am ddarpariaeth Pobol y Cwm nad yw'n cael eu darparu fel rhan o'r oriau statudol (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - £2.0m).

Yn ystod y cyfnod darlledodd S4C 1,281 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - 1,278 awr) o raglenni Cymraeg yn yr oriau brig rhwng 6.30 y.p. a 10.00 y.p. sy'n gyfartaledd yr wythnos o 24.6 awr (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - 24.6 awr).

	2019/20		2018/19	
	Oriau	Cost yr awr £	Oriau	Cost yr awr £
<b>Rhaglenni a gomisiynwyd</b>				
Cynrychiadau annibynnol	1,709	41,182	1,706	34,625
BBC	20	123,024	20	97,830
	<b>1,729</b>	<b>42,129</b>	1,726	35,358
Rhaglenni a brynwyd	72	13,578	64	9,200
<b>Ailddarlediadau</b>				
Cynrychiadau annibynnol	4,070	519	4,075	447
BBC	175	225	158	208
	<b>6,046</b>	<b>12,565</b>	6,023	10,538
BBC - Oriau Statudol	510	-	515	-
<b>Cyfanswm</b>	<b>6,556</b>		6,538	
Cyfartaledd yr wythnos	<b>126.1</b>		125.7	

## Rhaglenni a ddarledwyd yn ôl categori

	2019/20		2018/19	
	Oriau	Cost yr awr £	Oriau	Cost yr awr £
<b>Rhaglenni a gomisiynwyd</b>				
Drama	89	169,356	94	149,981
Ffeithiol Cyffredinol	598	33,124	657	22,489
Materion Cyfoes a'r Tywydd	77	39,691	77	32,371
Cerdd Ysgafn / Adloniant	168	68,091	156	63,047
Plant	265	23,631	304	21,579
Cerddoriaeth a Chelfyddydau	89	37,500	96	33,600
Chwaraeon	419	30,166	322	28,701
Crefydd	24	50,997	20	40,785
<b>Cyfanswm</b>	<b>1,729</b>		1,726	

	2019/20	2018/19
	Oriau	Oriau
<b>BBC</b>		
Drama	85	87
Newyddion	214	198
Materion Cyfoes a Ffeithiol	20	11
Adloniant Ysgafn	-	2
Pobl Ifanc a Plant	16	16
Cerddoriaeth a Chelfyddydau	86	85
Chwaraeon	89	115
Crefydd	-	1
<b>Cyfanswm</b>	<b>510</b>	515

## Hours transmitted and average cost per hour

The total hours of programmes transmitted by S4C during the period amounted to 6,556 (period to 31 March 2019 - 6,538), representing an average per week of 126.1 hours (period to 31 March 2019 - 125.7 hours).

The statutory hours supplied by the BBC, which included an element of repeat programmes, were provided to S4C under Section 58 (1) of the Broadcasting Act 1990 (as amended by Section 29 of the Broadcasting Act 1996) and were funded by the BBC out of the licence fee revenue. S4C also made payments totalling £2.0m to the BBC for the provision of Pobol y Cwm not provided as part of the statutory hours (period to 31 March 2019 - £2.0m).

During the period 1,281 hours (period to 31 March 2019 - 1,278 hours) of Welsh language programmes were transmitted in the peak hours between 6.30 pm and 10.00 p.m. with a weekly average of 24.6 hours (period to 31 March 2019 - 24.6 hours).

	2019/20		2018/19	
	Hours	Cost per hour £	Hours	Cost per hour £
<b>Commissioned programmes</b>				
Independent production	1,709	41,182	1,706	34,625
BBC	20	123,024	20	97,830
	<b>1,729</b>	<b>42,129</b>	1,726	35,358
Acquired programmes	72	13,578	64	9,200
<b>Repeats</b>				
Independent production	4,070	519	4,075	447
BBC	175	225	158	208
	<b>6,046</b>	<b>12,565</b>	6,023	10,538
BBC - Statutory hours	510	-	515	-
<b>Total</b>	<b>6,556</b>		6,538	
Average per week	<b>126.1</b>		125.7	

## Transmitted programmes by category

	2019/20		2018/19	
	Hours	Cost per hour £	Hours	Cost per hour £
<b>Commissioned programmes</b>				
Drama	89	169,356	94	149,981
General Factual	598	33,124	657	22,489
Current Affairs and Weather	77	39,691	77	32,371
Light Music / Entertainment	168	68,091	156	63,047
Children	265	23,631	304	21,579
Music and Arts	89	37,500	96	33,600
Sport	419	30,166	322	28,701
Religion	24	50,997	20	40,785
<b>Total</b>	<b>1,729</b>		1,726	

	2019/20	2018/19
	Hours	Hours
<b>BBC</b>		
Drama	85	87
News	214	198
Current Affairs and Factual	20	11
Light Entertainment	-	2
Youth and Children	16	16
Music and Arts	86	85
Sport	89	115
Religion	-	1
<b>Total</b>	<b>510</b>	515

## Datganiad o Gyfrifoldebau

### Paratoi Datganiadau Cyllidol

Yn y datganiadau ariannol hyn mae cyfarwyddwyr yn cyfeirio at Fwrdd S4C, Swyddog Cyfrifo S4C a chyfarwyddwyr is-gwmnïau masnachol S4C.

- (a) Mae'n ofyniad hanfodol o dan gyfraith cwmnïau'r Deyrnas Unedig i gyfarwyddwyr sicrhau bod eu datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan roi darlun gwir a theg o sefyllfa eu cwmni ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ac o'r elw neu'r golled ar gyfer y cyfnod hwnnw.
- (b) At hynny, mae'n ofynnol i gyfarwyddwyr:
- fabwysiadu polisïau cyfrifo addas a'u defnyddio'n gyson;
  - lunio arfarniadau a gwneud amcangyfrifon yn rhesymol ac yn ddoeth;
  - gydymffurfio â safonau cyfrifo sy'n gymwys; a
  - baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes sy'n fwy oni bai ei bod yn anaddas i gymryd bod y cwmni'n mynd i barhau mewn busnes.
- (c) Mae cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am:
- sicrhau bod cofnodion cyfrifo digonol yn cael eu cadw i ddiogelu asedau'r cwmni; ac
  - i gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Cyn belled a bod y cyfarwyddwyr yn ymwybodol:

- Nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr y grŵp yn ymwybodol ohoni; ac mae'r cyfarwyddwyr wedi cymryd yr holl gamau y dylen fod wedi eu cymryd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.
- Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal a chadw a chywirdeb y wybodaeth gorfforaethol ac ariannol sydd wedi ei gynnwys ar wefan y cwmni. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu paratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Yn achos S4C, mae'r cyfrifoldeb am baratoi Datganiad Ariannol wedi ei roi ar S4C fel corff statudol o dan Ddeddf Darlledu 1990, Atodlen 6, paragraffau 12 a 13 (fel yr addaswyd).

Mae'r Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifo, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, yn gyfrifol am sicrhau bod y Datganiad Ariannol yn cael ei baratoi, ac am weithredu'r camau rheoli.

Mae'r Bwrdd yn cadarnhau bod Datganiad Ariannol S4C yn cydymffurfio â'r holl ofynion priodol. Mae'r Bwrdd yn ystyried ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau ym mhob un o'r agweddau uchod.

### Busnes Gweithredol

Mewn perthynas ag asesu hyfywedd busnes, mae'r Bwrdd wedi asesu rhagolygon busnes S4C dros y cyfnod hyd at fis Mawrth 2022. Mae'r cyfnod hwn yn berthnasol i fusnes S4C oherwydd (i) mae'n ymwneud â'r cyfnod cynllunio strategol a rhagolygon busnes safonol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd a (ii) mae'n berthnasol i gyfnod setliad Ffi'r Drwydded hyd at 2021/22 a darpariaethau cymal 39 Cytundeb Fframwaith y BBC (a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2016).

Mae'r Bwrdd yn adolygu'r gyllideb pum mlynedd bob blwyddyn, gan ystyried chwant y Bwrdd parthed risg, strategaeth S4C, a'i gylch gorchwyl dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003.

Yn ei asesiad cyffredinol o hyfywedd busnes S4C, mae'r Bwrdd wedi:

- ystyried y ddyletswydd statudol i sicrhau cyllid digonol i S4C i'w alluogi i ddarparu ei wasanaethau darlledu cyhoeddus;
- ystyried cyllideb 5 mlynedd grŵp S4C, yn cynnwys rhagolygon refeniw, costau a llif arian posibl yn ogystal â'i sefyllfa ariannol bresennol ac adnoddau arian parod. Roedd hyn hefyd yn cynnwys adolygu'r rhagolygon hyn yng ngolau COVID-19. Oherwydd natur cyllid ac incwm masnachol S4C, ni ddisgwyllir y bydd effaith COVID-19 ar refeniw yn sylweddol;
- ystyried setliad Ffi'r Drwydded o fis Gorffennaf 2015, gan gynnwys y 'cydberthyniad' i gyllid S4C;
Mae arian parod yn arian mewn llaw a blaendaliadau a gadwyd gan sefydliadau ariannol sy'n ad-daladwy heb gost ar rybudd o ddim mwy na 24 awr. Mae symiau cyfwerth i arian parod yn fuddsoddiadau hynod o hylif sy'n aeddfedu mewn dim mwy na thri mis o'r dyddiad caffael a gellir eu trosi'n hwylus i symiau hysbys o arian parod gyda risg ansylweddol o newid mewn gwerth.

#### (g) Offerynnau ariannol

Yn bennaf bydd S4C yn ymrwymo i drafodion offerynnau ariannol sylfaenol sy'n arwain at gydnabod asedau a rhwymedigaethau ariannol fel masnach a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, benthyciadau gan fanciau a thrydydd partion eraill, benthyciadau i bartïon cysylltiedig a buddsoddiadau mewn cyfrandaliadau cyffredin di-rodadwy.

Caiff offerynnau dyled (heblaw am y rheiny sy'n ad-daladwy neu'n dderbyniadwy yn gyfan gwbl o fewn un flwyddyn), gan gynnwys benthyciadau a chyfrifon eraill sy'n dderbyniadwy a thaladwy, eu mesur yn y lle cyntaf ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog gweithredol. Mae offerynnau dyled sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy o fewn un flwyddyn, yn nodweddiadol symiau masnach sy'n daladwy neu'n dderbyniadwy, yn cael eu mesur, yn y lle cyntaf ac ar ôl hynny, ar swm na ddisgowntwyd yr arian parod neu ystyriaeth arall, a ddisgwyllir ei dalu neu ei dderbyn. Fodd bynnag, os yw trefniadau offeryn tymor byr yn gyfystyr â thrafodiad ariannu, fel talu dyled masnach a ohiriwyd y tu hwnt i delerau busnes arferol neu a ariannwyd ar gyfradd llog nad yw ar raddfa'r farchnad neu yn achos benthyciad tymor byr yn gyfan gwbl nad yw ar raddfa'r farchnad, mae'r ased neu rhwymedigaeth ariannol yn cael ei fesur, yn y lle cyntaf, ar werth presennol llifoedd arian parod y dyfodol wedi'u disgowntio ar raddfa llog y farchnad ar gyfer offeryn dyled tebyg ac ar ôl hynny ar gost wedi'i hamorteiddio.

## Notes to the Accounts

for the year ended 31 March 2020

### 1. Accounting Policies

The principal accounting policies of S4C are set out below. Within this consolidated Statement of Accounts, the Public Service Fund is referred to as S4C and the total of both public service and commercial activities is referred to as the S4C Group. The assets of the S4C Group that are not comprised in the Public Service Fund are referred to as the General Fund. The presentation and functional currency of these financial statements is sterling. Rounding is to the nearest £000 with the exception of the salary and staff expenses disclosure.

The Board consider that S4C is a Public Benefit Entity as defined by FRS 102. A Public Benefit Entity is an entity whose primary objective is to provide goods or services for the general public, community or social benefits and where any equity is provided with a view to supporting the entity's primary objectives rather than with a view to producing a financial return to equity providers, shareholders or members.

The financial statements have been prepared on a going concern basis as described in the going concern and viability section on pages 132 to 133.

#### (a) Basis of preparation of Statement of Accounts

The financial statements have been prepared under the historical cost convention in compliance with paragraph 12 (1) of Schedule 6 to the Broadcasting Act 1990 (as amended), the Accounts Direction issued by the Secretary of State for Digital, Culture, Media and Sport, and in accordance with Financial Reporting Standard (FRS) 102, the Financial Reporting Standard (FRS) applicable in the United Kingdom and the Republic of Ireland.

The preparation of financial statements in compliance with FRS 102 requires the use of certain critical accounting estimates. It also requires management to exercise judgment in applying S4C's accounting policies (see note 2).

The following principal accounting policies have been applied:

#### (b) Basis of consolidation

The consolidated Statement of Accounts incorporate those of S4C and of its subsidiary undertakings (see note 9) drawn up to 31 March 2020. Profits or losses on intra - group transactions are eliminated in full. On acquisition of a subsidiary, all of the subsidiary's assets and liabilities which exist at the date of acquisition are recorded at their fair values reflecting their condition at that date.

#### (c) Income

Income from the BBC and the Department for Digital, Culture, Media and Sport is credited to the Statement of Comprehensive Income when it is received.

Other income, which includes income from sales of airtime, rights in television programmes, sponsorship, merchandising, publishing and investment activities, is recognised in the Statement of Comprehensive Income when the associated services are delivered.

#### (d) Cost of programmes

The cost of commissioned public service programmes is wholly written off on first transmission or as soon as it becomes apparent that no transmission will result.

#### (e) Programme and other stocks

Direct costs incurred in the commissioning or purchase of public service programmes as yet untransmitted are carried forward as stock, after

providing for expenditure on material which is unlikely to be transmitted. For a series of programmes, the allocation of stock between programmes completed but not yet transmitted and programmes in the course of production is based on total costs to date and the contractual cost per completed episode.

Direct cost is defined as payments made or due to production companies or programme suppliers.

#### (f) Income received in advance of related expenditure

As a result of the above policies, income from the BBC and the Department for Digital, Culture, Media and Sport is received in advance of all costs being charged to the Statement of Comprehensive Income. At the Balance Sheet date, any income received in advance is transferred to the Public Service Fund. As the related costs are charged, there is a corresponding transfer of the relevant income from the Public Service Fund to the Statement of Comprehensive Income. The Statement of Comprehensive Income therefore contains a net transfer to or from the Public Service Fund comprising these transfers.

#### (g) Investments in joint ventures

Investments in joint ventures are recognised initially in the Consolidated Statement of Financial Position at the transaction price and subsequently adjusted to reflect the group's share of total comprehensive income and equity of the joint venture, less any impairment.

#### (h) Debtors

Short term and long term debtors are measured at transaction price, less any impairment. Loans receivable are measured initially at fair value, net of transaction costs, and are measured subsequently at amortised cost using the effective interest method, less any impairment.

#### (i) Cash and cash equivalents

Cash is represented by cash in hand and deposits with financial institutions repayable without penalty on notice of not more than 24 hours. Cash equivalents are highly liquid investments that mature in no more than three months from the date of acquisition and that are readily convertible to known amounts of cash with insignificant risk of change in value.

#### (j) Financial instruments

S4C primarily enters into basic financial instruments transactions that result in the recognition of financial assets and liabilities like trade and other accounts receivable and payable, loans from banks and other third parties, loans to related parties and investments in non-puttable ordinary shares.

Debt instruments (other than those wholly repayable or receivable within one year), including loans and other accounts receivable and payable, are initially measured at present value of the future cash flows and subsequently at amortised cost using the effective interest method. Debt instruments that are payable or receivable within one year, typically trade payables or receivables, are measured, initially and subsequently, at the undiscounted amount of the cash or other consideration, expected to be paid or received. However if the arrangements of a short-term instrument constitute a financing transaction, like the payment of a trade debt deferred beyond normal business terms or financed at a rate of interest that is not a market rate or in case of an out-right short-term loan not at market rate, the financial asset or liability is measured, initially, at the present value of the future cash flow discounted at a market rate of interest for a similar debt instrument and subsequently at amortised cost.

Mae asedau ariannol sy’n cael eu mesur ar gost a chost wedi’i hamorteiddio yn cael eu hasesu ar ddiwedd pob cyfnod adrodd am dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth. Os canfyddir tystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth, cydnabyddir colled mewn gwerth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

Ar gyfer asedau ariannol sy’n cael eu mesur ar gost wedi’i hamorteiddio, caiff y golled mewn gwerth ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cario ased a gwerth presennol y llifoedd arian parod amcangyfrifedig wedi’i ddisgowntio ar gyfradd llog weithredol gwreiddiol yr ased. Os oes cyfradd llog newidiol i ased ariannol, y gyfradd ddisgownt ar gyfer mesur unrhyw golled mewn gwerth yw’r gyfradd llog weithredol gyfredol a bennir o dan y cytundeb.

Ar gyfer asedau ariannol a fesurir ar gost llai colled mewn gwerth, caiff y golled mewn gwerth ei mesur fel y gwahaniaeth rhwng swm cario ased ac amcangyfrif gorau sy’n frasamcan o’r swm y byddai S4C yn ei dderbyn am yr ased pe bai’n cael ei werthu ar ddyddiad y Fantolen.

Mae asedau a rhwymedigaethau ariannol yn cael eu gwrthbwysu a’r swm net yn cael ei gofnodi yn y Fantolen pan fydd hawl y gellir eu gorfodi i wrthbwysu’r symiau cydnabyddedig a bod bwriad i setlo ar sail net neu i realeiddio’r ased a setlo’r rhwymedigaeth yr un pryd.

#### (ng) Credydwyr

Mae credydwyr tymor byr a hir dymor yn cael eu mesur ar bris y trafodiad. Mae rhwymedigaethau ariannol eraill, gan gynnwys benthyciadau banc, yn cael eu mesur yn y lle cyntaf ar werth teg, heb gynnwys costau trafodion, a chânt eu mesur ar ôl hynny ar gost wedi’i hamorteiddio gan ddefnyddio’r dull llog gweithredol.

#### (h) Buddsoddiadau ased sefydlog

Mae S4C wedi cymhwyso FRS 102, ac felly cyfrifir buddsoddiadau yn ôl yr hyn a dalwyd amdanynt llai unrhyw symiau sydd wedi’u dileu.

#### (i) Asedau sefydlog diriaethol

Cyfrifir asedau sefydlog diriaethol yn ôl yr hyn a dalwyd amdanynt ynghyd ag unrhyw gostau prynu perthnasol, llai dibrisiant. Caiff dibrisiant ei gyfrif er mwyn dileu cost yr ased sefydlog diriaethol llai gweddill ei werth yn gyfartal dros y cyfnod yr amcangyfrifir y caiff ei ddefnyddio. Mae’r prif gyfraddau a ddefnyddir i’r diben hwn fel a ganlyn:

<div> <ul style="list-style-type: none"> <li>Offer a chyfarpar 20%</li> <li>Adeiladau rhyddfraint dros 40 mlynedd</li></ul> </div>
--

Caiff gwelliannau i adeiladau ar brydles fer eu dileu’n gyfartal dros gyfnod y brydles. Ni ddibrisir tir rhyddfraint.

#### (j) Cyfraniadau pensiwn Cynllun budd diffiniedig

Mae cynllun buddion wedi’u diffinio wedi nodi’r buddion pensiwn y bydd y gweithiwr yn eu cael pan fydd yn ymddeol. Mae’r buddion pensiwn hyn yn ddibynnol ar sawl elfen fel rheol. Bydd yr elfennau hyn yn cynnwys oedran, hyd gwasanaeth, a chydabyddiaeth ariannol, ond nid dim ond y rhain o reidrwydd. Ystyr cynllun buddion wedi’u diffinio yw cynllun pensiwn nad yw’n gynllun cyfraniadau wedi’u diffinio.

Defnyddir y dull rhagamcanu unedau i gyfrifo’r rhwymedigaeth buddion wedi’u diffinio. Mae S4C yn talu am wasanaeth actiwariaid annibynnol i gyfrifo’r rhwymedigaeth bob blwyddyn. Pennir y gwerth presennol drwy ddisgowntio’r hyn a amcangyfrifwyd ynghylch taliadau’r dyfodol. Gwneir hyn drwy ddefnyddio’r arenillion yn y farchnad ar gyfer bondiau corfforaethol o safon y maent yn rhai sterling ac y mae eu cyfnod yn lled debyg i’r cyfnod amcangyfrif ar gyfer taliadau’r dyfodol (‘y gyfradd ddisgowntio’).

Mesurir gwerth teg asedau’r cynlluniau yn unol â hierarchaeth gwerth teg FRS 102 ac yn unol â pholisi S4C ynghylch asedau tebyg sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technegau priso priodol.

Dan incwm cynhwysfawr arall y credydir/debydir yr enillion a’r colledion actiwaraidd a ddeillia o addasiadau ar sail profiad ac o newid tybiaethau actiwaraidd. Mae’r symiau hyn ynghyd â’r adenillion ar asedau ‘eiddo parod’, ar ôl tynnu’r symiau a gynhwysir yn y llog net, yn cael eu datgelu dan enillion actiwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau’r cynllun pensiwn.

#### Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae S4C yn gweithredu cynllun cyfraniadau wedi’u diffinio. Mae cynllun cyfraniadau wedi’u diffinio yn gynllun pensiwn lle mae S4C yn talu cyfraniadau penodedig i mewn i endid ar wahân. Ar ôl talu’r cyfraniadau, nid yw S4C dan ragor o rwymedigaethau talu.

Pan fydd y cyfraniadau’n daladwy, fe’u cydnabyddir yn gost yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Mae’r symiau nas talwyd i’w gweld yn groniadau, ar ffurf rhwymedigaeth, yn y Fantolen.

#### (l) Asedau wedi eu prydlesu

Caiff rhenti sydd yn daladwy o dan brydlesi gweithredol eu cynnwys yn gyfartal dros gyfnod y brydles drwy’r datganiad o incwm cynhwysfawr.

#### (ll) Trethiant

Y dreth gyfredol a gynhwysir yng nghostau treth y flwyddyn. Cydnabyddir y dreth yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr. Ond bydd cost a briodolir i eitem incwm a threuliau a gydnabyddir dan incwm cynhwysfawr arall neu gost a briodolir i eitem a gydnabyddir yn uniongyrchol yn yr ecwiti yn cael ei chydabod hefyd yn yr incwm cynhwysfawr arall neu’n uniongyrchol yn yr ecwiti.

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw dreth ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a’r BBC.

Codir treth gorfforaeth ar elw sy’n cael ei gynhyrchu gan is-ymgymeriadau.

#### (m) Arian tramor

Cynhwysir asedau a rhwymedigaethau mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid ar ddyddiad y fantolen. Cynhwysir trafodion yn ôl y gyfradd gyfnewid ar y dyddiad mae’n digwydd. Mae gwahaniaethau cyfnewid sy’n codi o werthiannau tramor a chyfnewid arian yn cael eu dangos yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr.

#### (n) Buddsoddiadau asedau cyfredol

Mae S4C wedi cymhwyso FRS 102, ac felly delir buddsoddiadau asedau cyfredol ar werth teg drwy’r elw a cholled.

#### (o) Eitemau eithriadol

Ystyr eitemau eithriadol yw trafodion sy’n rhan o weithgareddau arferol S4C ond a gyflwynir ar wahân oherwydd eu maint neu eu nifer.

#### (p) Eiddo Buddsoddi

Caiff eiddo buddsoddi y gellir mesur gwerth teg ar ei gyfer yn ddibynadwy, heb fod cost ddiangen o ran ymdrech ar sail barhaus, ei fesur ar werth teg yn flynyddol, gydag unrhyw newid yn cael ei gydnabod yn y cyfrif elw a cholled.

Financial assets that are measured at cost and amortised cost are assessed at the end of each reporting period for objective evidence of impairment. If objective evidence of impairment is found, an impairment loss is recognised in the Statement of Comprehensive Income.

For financial assets measured at amortised cost, the impairment loss is measured as the difference between an asset’s carrying amount and the present value of estimated cash flows discounted at the asset’s original effective interest rate. If a financial asset has a variable interest rate, the discount rate for measuring any impairment loss is the current effective interest rate determined under the contract.

For financial assets measured at cost less impairment, the impairment loss is measured as the difference between an asset’s carrying amount and best estimate, which is an approximation of the amount that S4C would receive for the asset if it were to be sold at the Balance Sheet date.

Financial assets and liabilities are offset and the net amount reported in the Balance Sheet when there is an enforceable right to set off the recognised amounts and there is an intention to settle on a net basis or to realise the asset and settle the liability simultaneously.

#### (k) Creditors

Short term and long term creditors are measured at the transaction price. Other financial liabilities, including bank loans, are measured initially at fair value, net of transaction costs, and are measured subsequently at amortised cost using the effective interest method.

#### (l) Fixed asset investments

S4C has applied FRS 102, and therefore investments are included at cost less amounts written off.

#### (m) Tangible fixed assets

Tangible fixed assets are stated at cost, together with any incidental expenses of acquisition, less depreciation. Depreciation is calculated so as to write off the cost of the asset less its residual value on a straight line basis over its estimated useful life. The principal annual rates used for this purpose are as follows:

<div> <ul style="list-style-type: none"> <li>Plant and equipment 20%</li> <li>Freehold buildings over 40 years</li></ul> </div>
---

Improvements to short leasehold buildings are depreciated on a straight line basis over the remaining period of the lease. Freehold land is not depreciated.

#### (n) Pension contributions Defined benefit scheme

A defined benefit plan defines the pension benefit that the employee will receive on retirement, usually dependent upon several factors including but not limited to age, length of service and remuneration. A defined benefit plan is a pension plan that is not a defined contribution plan.

The defined benefit obligation is calculated using the projected unit credit method. S4C engages independent actuaries to calculate the obligation annually. The present value is determined by discounting the estimated future payments using market yields on high quality corporate bonds that are denominated in sterling and that have terms approximating to the estimated period of the future payments (‘discounted rate’).

The fair value of plans assets is measured in accordance with the FRS 102 fair value hierarchy and in accordance with S4C’s policy for similarly held assets. This includes the use of appropriate valuation techniques.

Actuarial gains and losses arising from experience adjustments and changes in actuarial assumptions are charged or credited to other comprehensive income. These amounts together with the return on plan assets, less amounts included in net interest, are disclosed as actuarial gain on the pension scheme assets and liabilities.

#### Defined contribution scheme

S4C operates a defined contribution plan. A defined contribution plan is a pension plan under which S4C pays fixed contributions into a separate entity. Once the contributions have been paid S4C has no further payment obligations.

The contributions are recognised as an expense in the Statement of Comprehensive Income when they fall due. Amounts not paid are shown in accruals as a liability in the Balance Sheet.

#### (o) Leased assets

Operating lease rentals are charged to the Statement of Comprehensive Income on a straight line basis over the lease term.

#### (p) Taxation

The tax expense for the year comprises current tax. Tax is recognised in the Statement of Comprehensive Income, except that a charge attributable to an item of income and expense recognised as other comprehensive income or to an item recognised directly in equity is also recognised in other comprehensive income or directly in equity respectively.

The Statement of Accounts is prepared on the basis that taxation is not levied in relation to amounts received by S4C from the Department for Digital, Culture, Media and Sport and the BBC.

Profits generated by subsidiary undertakings are subject to corporation tax.

#### (q) Foreign currencies

Monetary assets and liabilities denominated in foreign currencies are translated at the rates of exchange ruling at the balance sheet date. Transactions are translated at the rate ruling at the date of the transaction. Exchange differences arising on translation and transactions in foreign currencies are dealt with through the Statement of Comprehensive Income.

#### (r) Current asset investments

S4C has applied FRS 102, and therefore current asset investments are held at fair value through the profit and loss.

#### (s) Exceptional items

Exceptional items are transactions that fall within the ordinary activities of S4C but are presented separately due to their size or incidence.

#### (t) Investment property

Investment properties for which fair value can be measured reliably without undue cost or effort on an on-going basis are measured at fair value annually with any change recognised in the profit and loss account.

## 2. Dyfarniadau wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol rhaid i reolwyr wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon arwyddocaol. Mae'r eitemau yn y datganiadau ariannol lle mae'r dyfarniadau a'r amcangyfrifon hyn wedi'u gwneud yn cynnwys:

### Lleihad mewn gwerth buddsoddiadau asedau sefydlog

Mae gwerth cario'r buddsoddiadau strategol yn cael eu hasesu am leihad posibl mewn gwerth gan ddefnyddio model llif arian wedi'i ddisgowntio a gymeradwywyd gan y rheolwyr. Lle nad yw rhagolygon ffurfiol ar gael, mae technegau prisio cyffredin eraill yn cael eu defnyddio yn y model lleihad mewn gwerth.

### Dibrisiant

Mae rheolwyr yn arfer eu barn er mwyn pennu bywydau defnyddiol a gwerthoedd gweddilliol asedau sefydlog diriaethol. Mae'r asedau yn cael eu dibrisio i lawr i'w gwerthoedd gweddilliol dros eu bywydau defnyddiol amcangyfrifedig.

### Eiddo Buddsoddi

Mae'r prisiad a gynhwysir yn y datganiadau ariannol hyn wedi'i ddeillio o brisiad allanol gan RICS. Gellir gweld manylion pellach yn nodyn 9.

### Stoc

Mae costau uniongyrchol yr eir iddynt wrth gomisiynu neu brynu rhaglenni i'r gwasanaeth cyhoeddus sydd heb eu darlledu yn cael eu cario ymlaen fel stoc, ar ôl darparu ar gyfer gwariant ar ddeunydd nad yw'n debygol o gael ei ddarlledu.

### Cynllun budd diffiniedig

Mae'r costau pensiwn a godir ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr wedi'u seilio ar y dulliau a damcaniaethau actiwaraidd sydd â'r amcan o wasgaru'r costau pensiwn disgwylidig dros fywydau gwasanaethol y gweithwyr yn y Cynllun, er mwyn sicrhau bod y gost pensiwn reolaidd yn cynrychioli canran sylweddol llyfn o'r gyflogres bensynadwy gyfredol a'r dyfodol disgwylidig. Mae amrywiaethau o'r gost reolaidd wedi'u wasgaru dros weddill cyfartaledd bywydau gwasanaethol gweithwyr cyfredol yn y cynllun.

Yn absenoldeb unrhyw gytundeb i dalu ad-daliad i S4C ac oherwydd bod y Cynllun wedi'i gau bellach i groniad gwasanaeth yn y dyfodol, mae gwarged y Cynllun ar 31 Mawrth 2020 wedi'i gyfyngu ym Mantolen S4C i ddim.

## 2. Judgements in applying accounting policies and key sources of estimation uncertainty

Preparation of the financial statements requires management to make significant judgements and estimates. The items in the financial statements where these judgements and estimates have been made include:

### Impairment of fixed asset investments

The carrying value of the strategic investments are assessed for potential impairment using a discounted cash flow model approved by management. Where formal forecasts are not available, other commonly used valuation techniques are used in the impairment model.

### Depreciation

Management exercise judgement to determine useful lives and residual values of tangible fixed assets. The assets are depreciated down to their residual values over their estimated useful lives.

### Investment property

The valuation included within these financial statements has been derived from an external RICS valuation. Further details can be found in note 9.

### Stock

Direct costs incurred in the commissioning or purchase of public service programmes as yet untransmitted are carried forward as stock, after providing for expenditure on material which is unlikely to be transmitted.

### Defined benefit scheme

The pension costs charged against the Statement of Comprehensive Income are based on the actuarial methods and assumptions designed to spread the anticipated pension costs over the service lives of the employees in the plan, so as to ensure that the regular pension cost represents a substantially level percentage of the current and expected future pensionable payroll. Variations from regular cost are spread over the average remaining service lives of current employees in the scheme.

In the absence of any agreement to pay a refund to S4C and because the Plan is now closed to future service accrual, the Plan's surplus at 31 March 2020 is restricted in S4C's Balance Sheet to nil.

### 3. Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus a throsiant y Gronfa Gyffredinol

Derbynnir incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn i S4C gyflawni ei gyfrifoldebau gwasanaeth cyhoeddus (o fewn ystyr Adran 207 Deddf Cyfathrebiadau 2003). Mae trosiant y Gronfa Gyffredinol yn cynrychioli'r incwm a grëwyd gan weithgareddau masnachol a gweithgareddau nad ydynt yn rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus fel y cantiateir o dan Adran 206 Deddf Cyfathrebiadau 2003 a'r darpariaethau trawsnewidiol ym mhara-graff 27 Atodlen 18 Deddf Cyfathrebiadau 2003.

Pan dderbynnir yr incwm o Ffi'r Drwydded a'r Adran dros Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon caiff ei gredydu i'r Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr. Mae'r incwm arall, sydd yn cynnwys incwm o werthu amser hysbysebu, hawliau mewn rhaglenni teledu, nawdd, marsiandio, cyhoeddi a gweithgareddau buddsoddi, yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Cyfun o Incwm Cynhwysfawr ar sail cronadau.

	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Incwm Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Incwm a dderbyniwyd oddi wrth Ffi'r Drwydded	<b>74,500</b>		74,500	
Incwm a dderbyniwyd oddi wrth DCMS	<b>21,632</b>		6,762	
Incwm arall	<b>92</b>		161	
		<b>96,224</b>		81,423
Trosiant y Gronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	<b>1,461</b>		1,708	
Cyhoeddi a marsiandio	<b>69</b>		31	
Eraill	<b>489</b>		325	
		<b>2,019</b>		2,064
Trosiant y grŵp		<b>98,243</b>		83,487

Ceir isod ddadansoddiad o drosiant y Gronfa Gyffredinol yn ôl marchnad ddaearyddol:

	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Y Deyrnas Unedig	<b>1,969</b>		2,029	
Gweddill Ewrop	<b>4</b>		2	
Unol Daleithiau America	<b>25</b>		13	
Gweddill y Byd	<b>21</b>		20	
		<b>2,019</b>		2,064

#### Elw gweithredol

Yr elw gweithredol yw gwarged y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r elw o'r gweithgareddau masnachol cyn unrhyw incwm buddsoddi, llog a threth.

Dangosir dadansoddiad o elw gweithredol y Grŵp fesul gweithgarwch isod:

	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	<b>1,177</b>		1,021	
		<b>1,177</b>		1,021
Cronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	<b>833</b>		701	
Cyhoeddi a marsiandio	<b>40</b>		17	
Gweithgareddau eraill	<b>(418)</b>		(346)	
		<b>455</b>		372
		<b>1,632</b>		1,393

Mae'r gweithgareddau eraill yn cynnwys darparu gwasanaethau rheoli i is-gwmnïau masnachol gan S4C Masnachol Cyf. a'r ddarpariaeth o wasanaethau darlledu digidol gan S4C2 Cyf. S4C2 Cyf. a rhentu eiddo gan S4C PTG Cyf.

### 3. Public Service Fund income and General Fund turnover

Public Service Fund income is received in order that S4C may fulfil its public service responsibilities (within the meaning of Section 207 of the Communications Act 2003). General Fund turnover represents the income generated from commercial and other non-public service activities as permitted under Section 206 of the Communications Act 2003 and the transitional provisions contained in paragraph 27 of Schedule 18 to the Communications Act 2003.

The income from the Licence Fee and the Department for Digital, Culture, Media and Sport is credited to the Consolidated Statement of Comprehensive Income when it is received. Other income, which includes income from sales of airtime, rights in television programmes, sponsorship, merchandising, publishing and investment activities, is recognised in the Consolidated Statement of Comprehensive Income on an accruals basis.

	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Public Service Fund income				
Income received from the Licence Fee	<b>74,500</b>		74,500	
Income received from DCMS	<b>21,632</b>		6,762	
Other income	<b>92</b>		161	
		<b>96,224</b>		81,423
General Fund turnover				
Programme and airtime sales	<b>1,461</b>		1,708	
Publishing and merchandising	<b>69</b>		31	
Other	<b>489</b>		325	
		<b>2,019</b>		2,064
Group turnover		<b>98,243</b>		83,487

An analysis of General Fund turnover by geographical market is given below:

	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
United Kingdom	<b>1,969</b>		2,029	
The rest of Europe	<b>4</b>		2	
United States of America	<b>25</b>		13	
Rest of the World	<b>21</b>		20	
		<b>2,019</b>		2,064

#### Operating profit

Operating profit is the Public Service Fund surplus and the profit from commercial activities before investment income, interest and tax.

An analysis of the operating profit of the S4C Group by activity is given below:

	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Public Service Fund				
Public Service Fund activities	<b>1,177</b>		1,021	
		<b>1,177</b>		1,021
General Fund				
Programme and airtime sales	<b>833</b>		701	
Publishing and merchandising	<b>40</b>		17	
Other activities	<b>(418)</b>		(346)	
		<b>455</b>		372
		<b>1,632</b>		1,393

Other activities include the provision of management services to commercial subsidiaries by S4C Masnachol Cyf. the provision of digital broadcasting services by S4C2 Cyf. and property rental by S4C PTG Cyf.

## Asedau net

Asedau net Grŵp S4C yw cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau.

	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus				
Gweithgareddau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	<b>18,706</b>		17,009	
		<b>18,706</b>		17,009
Cronfa Gyffredinol				
Gwerthiant rhaglenni a hysbysebu	<b>113</b>		92	
Cyhoeddi a marsiandio	<b>6</b>		2	
Gweinyddiaeth	<b>135</b>		139	
Gweithgareddau eraill	<b>17,146</b>		17,160	
		<b>17,400</b>		17,393
		<b>36,106</b>		34,402

## 4. Elw gweithredol

Yr elw gweithredol yw gwarged y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus a'r elw o'r gweithgareddau masnachol cyn unrhyw incwm buddsoddi, llog a threth.

Nodir yr elw gweithredol ar ôl:	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Cost y gwasanaeth rhaglenni				
Dibrisiant	<b>234</b>		281	
Costau staffio	<b>4,302</b>		5,390	
Teithio a chynhaliath	<b>137</b>		130	
Costau gweithredu a gweinyddu				
Costau staffio	<b>1,787</b>		2,011	
Dibrisiant	<b>89</b>		297	
Ffi'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol am archwilio cyfrifol blynyddol S4C	<b>88</b>		71	
Gwasanaethau heb fod yn ymwneud ag archwilio gydag archwilyr eraill				
Gwasanaethau cydymffurfio â threthiant	<b>9</b>		7	
Gwasanaethau archwilio mewnol	<b>16</b>		9	
Yr holl wasanaethau sicrwydd nad ydynt yn perthyn i'r uchod	<b>36</b>		26	
Costau gweinyddu eraill	<b>1,353</b>		1,585	
Taliadau prydles gweithredol				
Tir ac adeiladau	<b>149</b>		106	
Teithio a chynhaliath	<b>49</b>		59	
		<b>3,576</b>		4,171
Mae'r dadansoddiad o gostau gweithredu a gweinyddu fel a ganlyn:				
	2019/20	2018/19		
	£000	£000		
Costau Cronfa'r Gwasanaeth Cyhoeddus	<b>3,215</b>	3,761		
Costau'r Gronfa Gyffredinol	<b>361</b>	410		
	<b>3,576</b>	4,171		

Ni ddarparodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag archwilio yn ystod y flwyddyn.

## Net assets

The net assets of the S4C Group is the total assets less total liabilities.

	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Public Service Fund				
Public Service Fund activities	<b>18,706</b>		17,009	
		<b>18,706</b>		17,009
General Fund				
Programme and airtime sales	<b>113</b>		92	
Publishing and merchandising	<b>6</b>		2	
Administration	<b>135</b>		139	
Other trading activities	<b>17,146</b>		17,160	
		<b>17,400</b>		17,393
		<b>36,106</b>		34,402

## 4. Operating profit

Operating profit is the Public Service Fund surplus and the profit from commercial activities before investment income, interest and tax.

Operating profit is stated after:	2019/20		2018/19	
	£000	£000	£000	£000
Cost of programme service				
Depreciation	<b>234</b>		281	
Staff costs	<b>4,302</b>		5,390	
Travel and subsistence	<b>137</b>		130	
Operational and administrative costs				
Staff costs	<b>1,787</b>		2,011	
Depreciation	<b>89</b>		297	
National Audit Office fee for the audit of the S4C's annual accounts	<b>88</b>		71	
Non-audit services with other auditors				
Taxation compliance services	<b>9</b>		7	
Internal audit services	<b>16</b>		9	
All assurance services not falling within the above	<b>36</b>		26	
Other administrative costs	<b>1,353</b>		1,585	
Operating lease costs				
Land and buildings	<b>149</b>		106	
Travel and subsistence	<b>49</b>		59	
		<b>3,576</b>		4,171
The operational and administrative costs can be analysed as follows:				
	2019/20	2018/19		
	£000	£000		
Public Service Fund costs	<b>3,215</b>	3,761		
General Fund costs	<b>361</b>	410		
	<b>3,576</b>	4,171		

The National Audit Office did not provide any non-audit services during the year.



## 5. Eitemau Eithriadol

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Costau Adleoli	416	794
	<b>416</b>	<b>794</b>

Yn ystod flwyddyn 2018/19, symudodd S4C ei phencadlys i'r Egin, Caerfyrddin. O fewn y rhestr costau adleoli uchod, gwnaethpwyd 6 taliad o dan y cynllun diswyddo, gostiodd £0.345m (2018/19 - 25 taliad gostiodd £0.556m).

## 6. Aelodau a swyddogion cyflogedig

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth swyddogion cyflogedig yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Cyflogau gros	5,285	6,503
Cyfraniadau YG y cyflogwr	499	602
Cyfraniadau pensiwn	728	953
	<b>6,512</b>	<b>8,058</b>

Yn ystod y flwyddyn, gwnaed 8 taliad o dan y cynllun diswyddo gwerth £0.451m, mae 6 o'r taliadau hyn sy'n werth £0.345m wedi'u cynnwys yn yr eitem eithriadol a nodwyd yn nodyn 5 (2018/19 - 25 taliad gwerth £0.556m). Mae cyfraniadau pensiwn yn cynnwys cyfraniadau'r cyflogwr. Nid oedd gan S4C unrhyw drefniadau 'na ymddangosodd ar y gyflogres' sy'n dod o dan y meini prawf a nodwyd yng nghanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi parthed trefniadau treth uwch benodedigion cyhoeddus.

Yn ystod y flwyddyn cyflogwyd ar gyfartaledd yn y meysydd canlynol:

	2019/20		2018/19	
	Rhif Dynion	Rhif Menywod	Rhif Dynion	Rhif Menywod
Comisiynu	7	10	6	11
Darlledu a Dosbarthu	5	8	23	19
Cyfathrebu	14	19	12	18
Cyllid, Gweinyddiaeth ac Adnoddau Dynol	2	7	3	8
Materion Busnes	2	6	2	6
Corfforaethol a Pholisi Masnachol	8	8	8	9
	<b>38</b>	<b>58</b>	<b>54</b>	<b>71</b>
Prosiect Archif tymor penodol	4	1	4	2
	<b>42</b>	<b>59</b>	<b>58</b>	<b>73</b>

Cyfanswm teithio a chynhaleith a dalwyd i swyddogion cyflogedig yn ystod y cyfnod a derfynodd 31 Mawrth 2020 oedd £176,416 (cyfnod i 31 Mawrth 2019 - £171,612). Ym mis Chwefror 2019, trosglwyddodd tri deg pedwar aelod o staff i'r BBC o dan drefniadau TUPE. Mae'r costau adleoli a ddangosir uchod yn ymwneud ag S4C yn symud ei phencadlys i Yr Egin, Sir Gaerfyrddin.

## 5. Exceptional items

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Relocation Costs	416	794
	<b>416</b>	<b>794</b>

During 2018/19 S4C relocated its headquarters to Yr Egin, Carmarthen. Included in the relocation costs above are 6 payments made under the redundancy scheme totalling £0.345m (2018/19 - 25 payments totalling £0.556m).

## 6. Members and employees

Total employee remuneration during the year comprised:

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Gross salaries	5,285	6,503
Employer's NI contributions	499	602
Pension contributions	728	953
	<b>6,512</b>	<b>8,058</b>

During the year 8 payments were made under the redundancy scheme totalling £0.451m, 6 of these payments totalling £0.345m are included in the exceptional item detailed in note 5 (2018/19 - 25 payments totalling £0.556m). Pension contributions include employer's contributions. S4C had no 'off payroll' engagements that fall within the criteria set out in HMT guidance with regards to tax arrangements of senior public appointees.

The average number of employees during the year was as follows:

	2019/20		2018/19	
	Number Male	Number Female	Number Male	Number Female
Commissioning	7	10	6	11
Broadcast and Distribution	5	8	23	19
Communications	14	19	12	18
Finance, Administration and Human Resources	2	7	3	8
Business Affairs	2	6	2	6
Corporate and Commercial Policy	8	8	8	9
	<b>38</b>	<b>58</b>	<b>54</b>	<b>71</b>
Fixed term Archive Project	4	1	4	2
	<b>42</b>	<b>59</b>	<b>58</b>	<b>73</b>

Total travel and subsistence reimbursed to employees during the period ending 31 March 2020 was £176,416 (period to 31 March 2019 - £171,612). In February 2019 thirty four members of staff transferred to the BBC under TUPE arrangements. The relocation expenses shown in note 5 are in relation to S4C moving its headquarters to Yr Egin, Camarthen.

## Cydnabyddiaeth yr aelodau

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Cyfanswm y taliadau	91	106

Dangosir taliadau i aelodau'r Bwrdd am y flwyddyn isod:

	2019/20	2018/19
	£	£
John Davies	-	6,433
Owen Derbyshire	9,650	7,238
Hugh Hesketh Evans	28,392	9,650
Anita George	9,650	7,238
Guto Harri	-	4,825
Huw Jones	23,567	47,133
Siân Lewis	9,650	9,650
Elan Closs Stephens	-	6,433
Rhodri Williams	9,650	7,238

Ymddeolodd Huw Jones ym mis Medi 2019. Penodwyd Hugh Hesketh Evans yn Gadeirydd dros dro o Fedi 2019 hyd fis Mawrth 2020. Penodwyd Rhodri Williams yn Gadeirydd parhaol ar 1 Ebrill 2020.

Ymddeolodd John Davies ym mis Medi 2018.

Ymddeolodd Guto Harri ym mis Medi 2018.

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Bwrdd y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

Treuliau aelodau'r Bwrdd	Teithio	Llety a Chynhaliath	Lletygarwch	2019/20 Cyfanswm	2018/19 Cyfanswm
	£	£	£	£	£
John Davies	-	-	-	-	727
Owen Derbyshire	958	540	-	1,498	656
Hugh Hesketh Evans	1,019	902	-	1,921	1,537
Anita George	969	444	-	1,413	772
Guto Harri	-	-	-	-	616
Huw Jones	2,022	1,799	27	3,848	7,111
Siân Lewis	372	343	-	715	398
Elan Closs Stephens	-	-	-	-	1,303
Rhodri Williams	72	166	-	238	-
Cyfanswm	5,412	4,194	27	9,633	13,120

## Members' remuneration

Total remuneration of the Board members for the period was as follows:

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Total remuneration	91	106

The remuneration of the Board members during the year is shown below:

	2019/20	2018/19
	£	£
John Davies	-	6,433
Owen Derbyshire	9,650	7,238
Hugh Hesketh Evans	28,392	9,650
Anita George	9,650	7,238
Guto Harri	-	4,825
Huw Jones	23,567	47,133
Siân Lewis	9,650	9,650
Elan Closs Stephens	-	6,433
Rhodri Williams	9,650	7,238

Huw Jones retired in September 2019. Hugh Hesketh Evans was appointed interim Chairman from September 2019 to March 2020. Rhodri Williams was appointed permanent Chairman on 1 April 2020.

John Davies retired in September 2018.

Guto Harri retired in September 2018.

During the period, the Board members incurred the following expenses in the performance of their duties:

Board members' expenses	Travel	Accommodation & Subsistence	Hospitality	2019/20 Total	2018/19 Total
	£	£	£	£	£
John Davies	-	-	-	-	727
Owen Derbyshire	958	540	-	1,498	656
Hugh Hesketh Evans	1,019	902	-	1,921	1,537
Anita George	969	444	-	1,413	772
Guto Harri	-	-	-	-	616
Huw Jones	2,022	1,799	27	3,848	7,111
Siân Lewis	372	343	-	715	398
Elan Closs Stephens	-	-	-	-	1,303
Rhodri Williams	72	166	-	238	-
Total	5,412	4,194	27	9,633	13,120

### Cydnabyddiaeth y Tim Rheoli

Dangosir taliadau i aelodau'r Tim Rheoli yn ystod y cyfnod isod:

	2019/20	2019/20	2018/19
	Treuliau adleoli	Cyflwgau gros	Cyfanswm
	£	£000	£000
Owen Evans	1,830	157	154
Elin Morris	10,813	103	101
Amanda Rees	-	107	104
Gwyn Williams	2,629	80	79
Sharon Winogorski	2,455	82	39

Ymunodd Sharon Winogorski â'r Tim Rheoli ym mis Hydref 2018.

Mae'r costau adleoli a ddangosir uchod yn ymwneud â symud pencadlys S4C i'r Egin yng Nghaerfyrddin ym mis Medi 2018.

Yn ystod y cyfnod, hawliodd aelodau'r Tim Rheoli y treuliau canlynol wrth gyflawni eu dyletswyddau:

Treuliau aelodau'r Tim Rheoli	Teithio	Llety a Chynhaliath	Lletygarwch	2019/20 Cyfanswm	2018/19 Cyfanswm
	£	£	£	£	£
Owen Evans	8,061	6,557	1,012	15,630	15,027
Elin Morris	2,696	555	55	3,306	2,442
Amanda Rees	5,644	3,233	829	9,706	8,811
Gwyn Williams	1,064	381	62	1,507	3,520
Sharon Winogorski	880	140	-	1,020	275
Cyfanswm	18,345	10,866	1,958	31,169	30,075

### Cynllun cyfraniadau diffiniedig - cyfraniadau S4C

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Owen Evans	27	33
Elin Morris	23	16
Amanda Rees	20	16
Gwyn Williams	13	12
Sharon Winogorski	13	8

Mae S4C yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig er budd ei weithwyr. Mae S4C yn cynnig yr opsiwn i staff gyfnewid cyflog i'r cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig. Mae'r cyfraniadau pensiwn a restrir yn y tabl uchod yn cynnwys taliadau cyfnewid cyflog yr unigolyn i'r cynllun.

### Management Team Remuneration

The remuneration of the Management Team during the period is shown below:

	2019/20	2019/20	2018/19
	Relocation expenses	Gross pay	Total
	£	£000	£000
Owen Evans	1,830	157	154
Elin Morris	10,813	103	101
Amanda Rees	-	107	104
Gwyn Williams	2,629	80	79
Sharon Winogorski	2,455	82	39

Sharon Winogorski joined the Management Team in October 2018.

The relocation expenses shown above relate to S4C moving its headquarters to Yr Egin, Carmarthen in September 2018.

During the period, the Management Team members incurred the following expenses in the performance of their duties:

Management Team members' expenses	Travel	Accommodation & Subsistence	Hospitality	2019/20 Total	2018/19 Total
	£	£	£	£	£
Owen Evans	8,061	6,557	1,012	15,630	15,027
Elin Morris	2,696	555	55	3,306	2,442
Amanda Rees	5,644	3,233	829	9,706	8,811
Gwyn Williams	1,064	381	62	1,507	3,520
Sharon Winogorski	880	140	-	1,020	275
Total	18,345	10,866	1,958	31,169	30,075

### Defined contribution scheme - S4C contributions

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Owen Evans	27	33
Elin Morris	23	16
Amanda Rees	20	16
Gwyn Williams	13	12
Sharon Winogorski	13	8

S4C operates a defined contribution scheme for the benefit of its employees. S4C offers the option for staff to exchange salary into the defined contribution pension scheme. The pension contributions listed in the table above include the individual's salary exchange payments into the scheme.

## 7. Trethiant

Paratowyd y Datganiad Ariannol ar y sail na chodir unrhyw drethiant ar symiau a dderbynia S4C oddi wrth yr Adran dros Ddigidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon a'r BBC.

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Treth gorfforaeth y Deyrnas Unedig ar 19% (2019 - 19%)	-	-
Cymwysiadau i'r tâl trethiant am y cyfnodau blaenorol	-	-
Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod	-	-

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Elw ar weithgareddau cyffredin cyn trethiant	1,604	1,598
Elw ar weithgareddau cyffredin wedi'i lluosio â'r gyfradd treth safonol yn y DU o 19% (2019 - 19%)	305	304
Effeithiau:		
Costau na ellir eu tynnu at ddibenion treth	108	5
Ased treth gohiriedig heb ei ddarparu	(8)	7
Symudiadau ar fuddsoddiadau	-	(112)
Trosglwyddo i'r Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus	(304)	(191)
Colledion cyfalaf a ddefnyddiwyd	(2)	(13)
Gwahaniaeth yng nghyfradd treth gohiriedig	(2)	-
Symudiad mewn gwerth teg	(97)	-
Tâl trethiant cyfredol am y cyfnod	-	-

## 7. Taxation

The Statement of Accounts is prepared on the basis that taxation is not levied in relation to amounts received by S4C from the Department for Digital, Culture, Media and Sport and the BBC.

	2019/20	2018/19
	£000	£000
United Kingdom corporation tax at 19% (2019 - 19%)	-	-
Adjustment to taxation charge in respect of prior periods	-	-
Current taxation for the period	-	-

	2019/20	2018/19
	£000	£000
Profit on ordinary activities before taxation	1,604	1,598
Profit on ordinary activities multiplied by standard rate of tax in the UK of 19% (2019 - 19%)	305	304
Effects of:		
Expenses not deductible for tax purposes	108	5
Deferred tax asset not provided	(8)	7
Movements on investments	-	(112)
Transfer to Public Service Fund	(304)	(191)
Capital losses utilised	(2)	(13)
Difference in deferred tax rate	(2)	-
Movement in fair value	(97)	-
Current taxation for period	-	-

## 8. Asedau sefydlog diriaethol

Grŵp S4C	Tir ac Adeiladau			
	Cyfanswm	Rhyddfrait	Prydles	Offer a Chyfarpar
Cost	£000	£000	£000	£000
Ar 1 Ebrill 2019	16,408	9,275	209	6,924
Ychwanegiadau	20	-	-	20
Ailddosbarthwyd fel eiddo buddsoddi	(9,275)	(9,275)	-	-
Gwerthiannau	(120)	-	-	(120)
Ar 31 Mawrth 2020	7,033	-	209	6,824
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2019	12,936	6,777	209	5,950
Cost am y flwyddyn	323	-	-	323
Ailddosbarthwyd fel eiddo buddsoddi	(6,777)	(6,777)	-	-
Gwerthiannau	(120)	-	-	(120)
Ar 31 Mawrth 2020	6,362	-	209	6,153
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Mawrth 2020	671	-	-	671
Ar 31 Mawrth 2019	3,472	2,498	-	974

S4C	Tir ac Adeiladau			
	Cyfanswm	Rhyddfrait	Prydles	Offer a Chyfarpar
Cost	£000	£000	£000	£000
Ar 1 Ebrill 2019	16,298	9,165	209	6,924
Ychwanegiadau	20	-	-	20
Gwerthiannau	(9,285)	(9,165)	-	(120)
Ar 31 Mawrth 2020	7,033	-	209	6,824
Dibrisiant				
Ar 1 Ebrill 2019	12,936	6,777	209	5,950
Cost am y flwyddyn	323	-	-	323
Gwerthiannau	(6,897)	(6,777)	-	(120)
Ar 31 Mawrth 2020	6,362	-	209	6,153
Gwerth llyfr net				
Ar 31 Mawrth 2020	671	-	-	671
Ar 31 Mawrth 2019	3,362	2,388	-	974

### Tir ac adeiladau

Pafiliwn S4C ar faes y Sioe Amaethyddol Frenhinol yn Llanelwedd yw'r eiddo dan brydles fer.

